3 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wood, J., Watts, B., Stephens, M. & Blenkinsopp, J. (2019) *The Homelessness Monitor: England 2019*. London: Crisis. [https://www.crisis.org.uk/media/240419/the\\_homelessness\\_monitor\\_england\\_2019.pdf](https://www.crisis.org.uk/media/240419/the_homelessness_monitor_england_2019.pdf)

4 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Watts, B., Wood, J., Stephens, M. & Blenkinsopp, J. (2019) *The Homelessness Monitor: Scotland 2019*. London: Crisis [https://www.crisis.org.uk/media/240002/the\\_homelessness\\_monitor\\_scotland\\_2019.pdf](https://www.crisis.org.uk/media/240002/the_homelessness_monitor_scotland_2019.pdf)

5 Llywodraeth Cymru (2021) Amcangyfrif o'r Angen am Dai: seiliédig ar 2019. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/amcangyfrifon-or-angen-am-dai-sail-2019>

## Effeithiau economaidd, polisi a COVID-19 ar ddigartrefedd

Fel mewn mannau eraill ym Mhrydain Fawr,<sup>6</sup> roedd yr ymateb i argyfwng COVID-19 yn golygu newidiadau ysgubol i bolisi, deddfwriaeth a chyllid digartrefedd yng Nghymru. Cafwyd datganiadau Gweinidogol o fis Mawrth 2020 ymlaen y dylid darparu ar gyfer pawb sy'n cysgu allan, gan gynnwys y rheini nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus.<sup>7</sup> Canllawiau dilynol ar statws angen blaenoriaethol pobl sy'n cysgu allan, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020, ar yr amod, dros gyfnod y pandemig, y dylid eu hystyried yn 'agored i niwed' ac felly bod ganddynt hawl i lety.<sup>8</sup> Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar hunanynysu mewn hostel, lloches nos neu lety â chymorth, wedi'u diweddar o bryd i'w gilydd drwy'r pandemig.<sup>9</sup>

Roedd ymrwymiadau cyllid ychwanegol sylweddol yn cyd-fynd â'r datganiadau polisi a'r canllawiau hyn. Ar 20 Mawrth 2020, pecyn cyllid gwerth £10m ar gyfer llety brys i bobl sy'n cysgu allan/mewn llochesi brys.<sup>10</sup> Yn ddiweddarach, cafodd hyn ei alw'n gyllid 'Cam 1'. Ar 28 Mai 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £20m o gyllid 'Cam 2' i gefnogi atebion tai tymor hwy (gan gynnwys

y £10 miliwn cychwynnol), i gynnwys cyfuniad o gyllid cyfalaf a refeniw.<sup>11</sup> Ar 28 Gorffennaf, cynyddwyd gwerth y gronfa Cam 2 hon i £50m, gan gynnwys gwariant cyfalaf sylweddol uwch o £40m.<sup>12</sup> Ar ben hynny, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i dalu costau lletya pobl sydd mewn perygl o gysgu allan dros dro yn barhaus, ar gost fisol gyfartalog o £1.6 miliwn.<sup>13</sup>

Cafwyd canmoliaeth aruthrol gan randdeiliaid allweddol am y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru, a'u hawdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid yn y trydydd sector, i liniaru effeithiau pandemig COVID-19 ar bobl sydd mewn perygl o gysgu allan. Ystyriwyd bod y cyfuniad o ganllawiau prydlon a digamsyniol gan Lywodraeth Cymru, ynghyd ag adnoddau ychwanegol sylweddol, yn hanfodol. Nodwyd yn eang hefyd ymrwymiad ac effeithiolwydd eithriadol Gweinidog perthnasol Cymru, Julie James.

Roedd natur barhaus y cyllid 'Cam 1' a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y ddarpariaeth frys hon yn cael ei werthfawrogi'n arbennig wrth sicrhau nad oedd dim 'dychwelyd i'r strydoedd' mewn niferoedd mawr ar ôl y cyfnod clo cychwynnol. Yn yr un

modd, roedd y rhaglen 'Cam 2' yn cael ei hystyried yn un drawiadol o ran ei graddfa a'i gogwydd tuag at atebion strategol tymor hwy. Wedi dweud hynny, mae rhywfaint o bryder bellach bod rhywfaint o gyllid cyfalaf Cam 2 wedi cael ei fuddsoddi mewn modelau llety dros dro ar raddfa fawr mewn rhai lleoliadau. Mae hyn yn mynd yn groes i ymrwymiadau strategol i symud oddi wrth y math hwn o ddarpariaeth, fel y trafodir isod, ond y gobaith yw y gall y llety newydd hwn, yn y tymor hwy, gael ei newid i ddibenion anghenion cyffredinol. Hefyd yn berthnasol iawn yw'r cynnydd sylweddol yn ffrwd gyllido refeniw 'Cefnogi Pobl' y brif ffrwd, a elwir bellach yn Grant Cymorth Tai,<sup>14</sup> o tua £120 miliwn i £166 miliwn yn y flwyddyn ariannol gyfredol.<sup>15</sup> Gwelwyd bod y cam hwn wedi rhoi hwb i hyder yn ogystal ag adnoddau'r sector digartrefedd yng Nghymru ar ôl COVID-19.

Er bod awdurdodau lleol a darparwyr digartrefedd yn gweithio'n gyflym yn wyneb heriau eithriadol, cydnabuwyd nad oedd pawb mewn angen yn cael llety bob amser, gyda rhestrau aros ar gyfer darpariaeth frys yn cael eu gweithredu mewn rhai mannau. Roedd yn ymddangos bod awdurdodau lleol wedi cael eu synnu gan lefel yr anghenion cymorth a welwyd yn rhai o'r lletyau brys yma a'r problemau rheoli dwys a ddeilliodd o hynny. Roedd digwyddiadau difrifol mewn rhai lleoliadau a oedd yn rhoi'r preswylwyr a'r staff eraill mewn perygl. Ar ben hynny, er bod llawer o'r

canllawiau gweithredol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod COVID-19 wedi cael croeso cynnes, roedd y cyngor a gyhoeddwyd ar reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn lleoliadau ymgynnull<sup>16</sup> yn cael ei feirniadu'n hallt am ei fod yn cynnig ychydig o atebion newydd neu effeithiol.

Fel mewn mannau eraill yn y DU,<sup>17</sup> bu i landlordiaid cymdeithasol roi'r gorau i osod bron yn gyfan gwbl yn gynnar yn y pandemig, ond fe wnaeth llawer o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ymateb, gan flaenoriaethu dyraniadau i'r rheini mewn llety brys ac eraill sy'n agored i ddigartrefedd. Wedi dweud hynny, fel y nodwyd uchod, mae rhai pryderon tymor hwy ynghylch dyraniadau tai cymdeithasol i aelwyd yd digartref yng Nghymru a chryn amheuaeth ynghylch pa mor gadarn yw'r data sydd ar gael yn y cyswllt hwn. Yn fwy cadarnhaol, adeg ein gwaith maes, cafwyd cryn gyffro o ganlyniad i ymrwymiad cyn COVID-19 gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â sefydliadau landlordiaid, i roi diwedd ar bob achos o droi allan o dai cymdeithasol i ddigartrefedd.<sup>18</sup>

Cyn COVID-19, roedd digartrefedd eisoes yn flaenoriaeth wleidyddol yng Nghymru. Roedd strategaeth genedlaethol lefel uchel a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2019 yn gosod cyfeiriad blaengar sy'n seiliedig ar egwyddorion atal, Ailgartrefu Cyflym, a Tai yn Gyntaf fel yr ymateb diofyn i'r lleiafrif

6 Fitzpatrick, S., Watts, B., Pawson, H., Bramley, G., Wood, J., Stephens, M. & Blenkinsopp, J. (2021) *The Homelessness Monitor: England 2021*. London: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/media/244702/crisis-england-monitor-2021.pdf>; Fitzpatrick, S., Mackie, P., Pawson, H., Watts, B. & Wood, J. (2021) *The COVID-19 Crisis Response to Homelessness in Great Britain: Interim Report*. Ar-lein: CaCHE. [https://housingevidence.ac.uk/wp-content/uploads/2021/02/12544\\_UoG\\_CaCHE\\_Covid\\_Homelessness\\_Report-Final.pdf](https://housingevidence.ac.uk/wp-content/uploads/2021/02/12544_UoG_CaCHE_Covid_Homelessness_Report-Final.pdf)

7 Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb i COVID-19 – Digartrefedd a Phobl sy'n Cysgu ar y Stryd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-covid-19-digartrefedd-ar-rhai-syn-cysgu-allan>

8 Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Gefnogi Pobl sy'n Cysgu Allan – Bridiad Covid-19*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. [https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/canllawiau-i-awdurdodau-lleol-ar-gefnogi-pobl-syn-cysgu-allan-argyfwng-covid-19\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/canllawiau-i-awdurdodau-lleol-ar-gefnogi-pobl-syn-cysgu-allan-argyfwng-covid-19_0.pdf)

9 Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau Byw â Chymorth: Coronafeirws*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/canllawiau-byw-chymorth-coronafeirws>

10 Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb i COVID-19 – Digartrefedd a Phobl sy'n Cysgu ar y Stryd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-covid-19-digartrefedd-ar-rhai-syn-cysgu-allan> Ar yr un pryd derbyniodd y Gweinidog argymhellion ail adroddiad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd mewn egwyddor, fel y trafodir isod.

11 Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad Ysgrifenedig: Cam 2 Cynllun Digartrefedd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cam-2-or-cynllun-digartrefedd>

12 Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad Ysgrifenedig: Cam 2 Diweddarriad Digartrefedd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diweddarriad-cam-2-digartrefedd>

13 Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad Ysgrifenedig: Diweddarriad ar Atal Digartrefedd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diweddarriad-aratal-digartrefedd>

14 Llywodraeth Cymru (2021) *Canllawiau Grant Cymorth Tai: Canllawiau Ymarfer ar gyfer Awdurdodau Lleol o fis Ebrill 2020 ymlaen: Diweddarwyd Mawrth 2021*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. [https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/grant-cymorth-tai-canllawiau-ymarfer\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/grant-cymorth-tai-canllawiau-ymarfer_0.pdf)

15 Llywodraeth Cymru (2021) *Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth i Denantiad drwy Bandemig Covid-19*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cymorth-i-denantiad-drwy-bandemig-covid-19>

16 Llywodraeth Cymru (2020) *COVID 19: Canllawiau i Awdurdodau Lleol a Darparwyr; Rheoli Diogelwch a Risg mewn Llety Dros Dro Lle mae Unigolyn yn Dangos Ymddygiad Heriol a Gwrth-gymdeithasol*.

17 Fitzpatrick, S., Watts, B., Pawson, H., Bramley, G., Wood, J., Stephens, M. & Blenkinsopp, J. (2021) *The Homelessness Monitor: England 2021*. London: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/media/244702/crisis-england-monitor-2021.pdf>; Watts, B., Bramley, G., Fitzpatrick, S., Pawson, H., & Young, G. (2021, forthcoming) *The Homelessness Monitor: Scotland 2021*. London: Crisis.

18 The Welsh Agenda (2019) *Ending Evictions into Homelessness in Wales*. 3 Rhagfyr Ar-lein: IWA <https://www.iwa.wales/agenda/2019/12/ending-evictions-into-homelessness-in-wales/>; Shelter Cymru (2021) *Working Together to End Homelessness from Social Housing*. Caerdydd: Shelter Cymru. [https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/Working-together-to-end-homelessness-from-social-housing\\_Report-1.pdf](https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/Working-together-to-end-homelessness-from-social-housing_Report-1.pdf)

o bobl ddigartref sydd ag anghenion cymorth mwy dwys.<sup>19</sup> Mae cynigion polisi manwl i roi sylwedd a siâp i'r egwyddorion hyn, a themâu allweddol eraill fel cynllunio'r gweithlu a dyletswyddau atal ehangach ar draws y sector cyhoeddus, bellach wedi cael eu cynnwys mewn tri adroddiad a gyhoeddwyd gan Grŵp Gweithredu Annibynnol ar Ddigartrefedd, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod haf 2019.<sup>20</sup>

Gyda holl gynigion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd wedi'u derbyn mewn egwyddor gan Lywodraeth ddiwethaf Cymru,<sup>21</sup> ac wedi'u gwreiddio yn Rhaglen Lywodraethu'r weinyddiaeth bresennol 2021-26,<sup>22</sup> ac mewn cynllun gweithredu lefel uchel sydd bellach wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghori,<sup>23</sup> mae'n ymddangos y bydd agenda uchelgeisiol y Grŵp ar ddiwygio polisi a diwygio cyfreithiol yn sail i ymatebion digartrefedd Cymru yn y blynnyddoedd i ddod. Wedi dweud hynny, roedd rhywfaint o bryder yngylch agweddau Ailgartrefu Cyflym a Thai yn Gyntaf ar yr agenda hon yn amlwg ymysg rhai

awdurdodau lleol a'r prif hysbyswyr a gymerodd ran yn ein hymchwil, a oedd yn gysylltiedig â phryderon o ran adnoddau ond hefyd ag ymlyniad parhaus at fodelau darparu ar gyfer o leiaf rhai grwpiau digartref.

Mae argymhelliaid allweddol arall gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yn ymwneud â chael gwared ar rwystrau sy'n atal pobl ddigartref rhag cael gafaol ar dai a chymorth, gan gynnwys yr angen blaenoriaethol statudol, digartrefedd bwriadol a chysylltiad lleol.<sup>24</sup> Ar ôl ei 'ohirio' drwy gydol argywng COVID-19, o leiaf o ran pobl yn cysgu allan, ac yn dilyn adolygiad annibynnol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru,<sup>25</sup> mae'n ymddangos bod y momentwm ar gyfer diddymu'r maen prawf blaenoriaeth angen yn rhywbeth na ellir ei stopio.<sup>26</sup> Yn arbennig, roedd 15 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru a holwyd eleni'n ffafrio dileu'r maen prawf angen blaenoriaethol, er bod rhai yn pwysleisio bod hyn yn amodol ar adnoddau ychwanegol ategol. Roedd barn awdurdodau lleol yn fwy

rhanedig o lawer o ran dileu'r prawf digartrefedd bwriadol (wedi'i gefnogi gan 10, a'i wrthwynebu gan 9), er mai anaml iawn y caiff ei ddefnyddio'n ymarferol, tra bo cynghorau'n llwyr yn erbyn dileu cyfyngiadau ar gysylltiadau lleol (roedd 19 o'r 22 o gynrychiolwyr y cyngorau o'r farn na fyddai newid o'r fath yn fuddiol). Ar y pwynt olaf hwn, mae'n werth nodi bod hysbyswyr allweddol, er eu bod yn cydymdeimlo'n gyffredinol â dileu'r maen prawf ar gyfer cysylltiad lleol, yn cydnabod yr angen am ryw fath o fecanwaith ailddosbarthu i roi cysur i awdurdodau lleol dan sylw y gallent weld cynnydd net yn y galw am wasanaethau.

Ar hyn o bryd, mae pryderon yn canolbwytio ar y posibilrwydd o gynnwydd sydyn yn y mewnlif i ddigartrefedd wrth i ystod o fesurau diogelu sy'n benodol i COVID-19 ddod i ben. Ar lefel Llywodraeth y DU, mae hyn yn cynnwys dirwyn y cynllun ffyrlo swyddi i ben, tynnu'r atodiad wythnosol o £20 yn ôl ar gyfer y rheini sy'n hawlio Credyd Cynhwysol, a rhewi'r Lwfans Tai Lleol o'r newydd ar ôl iddo gael ei adfer dros dro i'r rhent 30ain canradd. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod awdurdodau lleol Cymru wedi nodi bod gwellianau i Daliadau Tai Dewisol a'r Gronfa Cymorth Dewisol, yn bwysicach fyth o ran lleihau digartrefedd yn eu hardaloedd yn ystod y pandemig.

Cafodd mesurau Llywodraeth Cymru i amddiffyn tenantiaid cymdeithasol a phreifat rhag cael eu troi allan yn ystod pandemig COVID-19 eu cydnabod yn gyffredinol bron fel rhai hanfodol i ymdrechion lliniaru digartrefedd yn 2020/21. Pryder mawr arall, felly, yw'r posibilrwydd o gynnwydd yn nifer y bobl sy'n cael eu troi allan wrth i'r mesurau goddefgarwch dros dro hyn ddod i ben,<sup>27</sup> er y gallai cyfyngiadau ar gapasiti'r llys a'r beiliaid arafu hyn. Ond gall cynnydd disgwyliedig mewn ôl-

ddyledion rhent yn y misoedd i ddod brofi ymrwymiad Llywodraeth Cymru a landordiaid cymdeithasol i roi diwedd ar droi pobl allan i ddigartrefedd, fel y trafodwyd uchod.

Mae hyn oll wedi ei wreiddio mewn cyd-destun economaidd a thai ehangach yng Nghymru, ble, yn y degawd cyn i argywng COVID-19 daro, roedd y bwlc rhwng cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru a gweddill y DU wedi lleihau, ond roedd safonau byw yn cael eu gwasgu gan dwf cyflog gwan, diwygiadau nawdd cymdeithasol a thwf mathau o waith â chyflogau is ac ansafonol. Yn ystod y degawd hefyd gwelwyd cynnydd yn y duedd i leihau tlodi a thlodi mewn gwaith, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o oedolion oed gweithio a phlant mewn tlodi, ar ôl costau tai, yn byw mewn cartrefi lle'r oedd un neu fwy o oedolion mewn gwaith cyflogedig.

Mae'r rhagolygon ar gyfer economi Cymru a'r farchnad lafur yn aneglur, ond mae'r pandemig wedi gweud niwed dirifol i gyllid cyhoeddus. Gyda Llywodraeth y DU yn ceisio cydbwyso'r gyllideb erbyn 2025, ansicrwydd parhaus yngylch disodli cyllid yr Undeb Ewropeaidd a'r cwmpas cyfyngedig i gynyddu refeniw o dreth incwm ddatganoledig, mae'n debygol y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i weithredu mewn amgylchedd o gyni. Mae angen edrych ar yr hwb i wariant sy'n benodol ar gyfer digartrefedd, a nodir uchod, yn y cyd-destun ehangach hwn sy'n peri gofid.

### Casgliad

Mae'r Monitor Digartrefedd hwn yng Nghymru wedi adlewyrchu cyfnod a ddominyddir gan drychneb COVID-19, yn ogystal â gweithgarwch polisi dwys ar ddigartrefedd yng Nghymru cyn ac ar ôl y pandemig. Mae wedi cofnodi perfformiad canmoladwy Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Landordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a

19 Llywodraeth Cymru (2019) *Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. [https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/strategaeth-ar-ddigartrefedd\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/strategaeth-ar-ddigartrefedd_0.pdf)

20 Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2019) *Atal Cysgu Allan yng Nghymru a'i leihau yn y Byrdymor: Adroddiad i Weinidogion Cymru gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd-adroddiad-hyref-2019.pdf>; Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) *Y fframwaith o bolisiau, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru'n ei olygu mewn gwirionedd)*: *Adroddiad gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar gyfer Llywodraeth Cymru*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. [https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd-adroddiad-mawrth-2020\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd-adroddiad-mawrth-2020_0.pdf); Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) *Atal digartrefedd, ei drechu a rhoi diwedd arno drwy ailgartrefu cyflym a phartneriethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol: Adroddiad i Weinidogion Cymru gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-11/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd-adroddiad-gorffennaf-2020.pdf>

21 Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb i COVID-19 – Digartrefedd a Phobl sy'n Cysgu ar y Stryd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-covid-19-digartrefedd-ar-rhai-syn-cysgu-allan>

22 Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021) Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-06/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026.pdf>

23 Llywodraeth Cymru (2021) *Rhoi diwedd ar ddigartrefedd: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel – 2021-2026*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-10/rhoi-terfyn-ar-ddigartrefedd-cynllun-gweithredu-lefel-uchel-2021-i-2026.pdf>

24 Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) *Y fframwaith o bolisiau, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru'n ei olygu mewn gwirionedd)*: *Adroddiad gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar gyfer Llywodraeth Cymru*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. [https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd-adroddiad-mawrth-2020\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd-adroddiad-mawrth-2020_0.pdf), p.43

25 Mackie, P., Gray, T., Hughes, C., Madoc-Jones, I., Mousteri, V., Pawson, H., Spyropoulos, N., Stirling, T., Taylor, H. & Watts, B. (2020). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru: Caerdydd: Llywodraeth Cymru*.

26 Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad Ysgrifenedig: Diweddarriad ar Atal Digartrefedd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diweddarriad-ar-atal-digartrefedd>

27 Thomas, N. (2021) *People Renting Homes in Wales Face Crisis as Eviction Ban End Looms*. 5 Mehefin. Ar-lein: *The National*. <https://www.thenational.wales/news/19350826.people-renting-homes-wales-face-crisis-eviction-ban-end-looms/>

phartneriaid yn y trydydd sector yn ystod argyfwng COVID-19, ac mae hefyd wedi amlinellu'r heriau sydd ar y gweill wrth i wahanol fesurau lles a thai gwarchodol ddod i ben. Bydd y diweddariad nesaf ar Fonitwr Digartrefedd Cymru yn ein galluogi i ymchwilio i effeithiau tymor hwy pandemig COVID-19 a newidiadau polisi ac ymarfer cysylltiedig, boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol, a dilyn gweithrediad rhaglen uchelgeisiol y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd o ran newid polisi a newid cyfreithiol. Byddwn hefyd yn dechrau asesu camau gweithredu swyddogol sy'n berthnasol i'r potensial i leihau digartrefedd a nodwyd yn ein dadansoddiad o'r amcanestyniadau.

# Cyflwyniad

## 1. Cyflwyniad

### 1.1 Cyflwyniad

Mae'r astudiaeth hon yn darparu dadansoddiad annibynnol o effaith datblygiadau economaidd a pholisi diweddar yng Nghymru ar ddigartrefedd. Mae'n ystyried effaith y diwygiadau lles a weithredwyd gan Lywodraeth y DU, yn ogystal ag effaith polisiau perthnasol Llywodraeth Cymru ar dai, digartrefedd a lles.

Mae'r pedwerydd adroddiad diweddar hwn yn rhoi adroddiad ar sefyllfa digartrefedd yng Nghymru yn 2021 (neu mor agos â 2021 ag y mae data ar gael), ac mae'n dadansoddi'r prif dueddiadau yn y cyfnod hyd at 2021. Mae'n canolbwytio ar yr hyn sydd wedi newid ers i ni gyhoeddi'r Monitor Digartrefedd diwethaf ar gyfer Cymru yn 2017 ac ar effeithiau pandemig COVID-19 ar ddigartrefedd ers mis Mawrth 2020. Rydym hefyd, am y tro cyntaf, yn darparu dadansoddiad sy'n targedu tueddiadau digartrefedd yng Nghymru i'r dyfodol, gan gadw'r cyd-destun presennol yn sefydlog a hefyd o dan amrywiaeth o senarios polisi. Dylai darllenwyr a hoffai gael

disgrifiad llawnach o hanes diweddar digartrefedd a pholisi cysylltiedig yng Nghymru ymgynghori â'r tri adroddiad blaenorol ar gyfer Cymru.<sup>28</sup> Mae Monitorau Digartrefedd Cyfochrog wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer rhannau eraill o'r DU.<sup>29</sup>

### 1.2 Cwmpas yr adroddiad

Mae llawer iawn o ddadlau ynghylch y diffiniad mwyaf priodol o ddigartrefedd, gyda rhanddeiliaid yn aml yn anghytuno'n gryf ynghylch ble y dylai'r ffin fod rhwng 'digartrefedd' a mathau eraill o anghenion tai.<sup>30</sup> Er mwyn i'r adroddiad hwn fod mor gynhwysfawr a chynhwysol â phosibl, rydym yn mabwysiadu ystod o ddiffiniadau neu 'safbwytiau' ar ddigartrefedd, gan ystyried effeithiau newidiadau polisi a newidiadau economaidd perthnasol ar y grwpiau canlynol (sy'n gorgyffwrdd yn rhannol):

28 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S., Watts, B & Wood, J. (2017) *Y monitor digartrefedd: Cymru 2017*. Llundain: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/media/238193/y-monitor-digartrefedd-cymru-2017.pdf>; Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. & Watts, B. (2015) *The Homelessness Monitor: Wales 2015*. London: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/wales/the-homelessness-monitor-wales-2015/>; Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. & Watts, B. (2012) *The Homelessness Monitor: Wales 2012*. London: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/wales/the-homelessness-monitor-wales-2012/>

29 Gweler <http://www.crisis.org.uk/pages/homelessnessmonitor.html>

30 Busch-Geertsema, V., Culhane, D., & Fitzpatrick, S. (2016) 'Developing a global framework for conceptualising and measuring homelessness', *Habitat International*, 55, 124–132.

- Pobl yn cysgu allan.
- Pobl sy'n profi 'digartrefedd craidd':<sup>31</sup> mae hyn yn cyfeirio at aelwydydd sydd ar hyn o bryd yn profi'r mathau mwyaf difrifol o ddigartrefedd neu sy'n byw mewn llety tymor byr neu anaddas. Mae'n cynnwys pobl yn y sefyllfaoedd canlynol: cysgu allan; cysgu mewn ceir, pebyll a thrafnidiaeth gyhoeddus, neu feddianu adeiladau dibreswyl; aros mewn hosteli, llochesi; byw mewn llety dros dro 'anaddas' (e.e. llety Gwely a Brecwast); syrffio soffas (h.y. aros gyda phobl nad ydynt yn deulu, am dymor byr, mewn amodau gorlawn).
- Aelwydydd digartref statudol – hynny yw, aelwydydd sy'n ceisio neu'n derbyn cymorth tai gan awdurdodau lleol ar y sail eu bod ar hyn o bryd heb lety, neu y byddant heb lety yn fuan.

### 1.3 Dulliau ymchwil

Mae pum dull wedi cael eu defnyddio yn yr astudiaeth hydredol hon.

- Yn gyntaf, mae llenyddiaeth, ymchwil a dogfennau polisi perthnasol wedi cael eu hadolygu.
- Yn ail, rydym wedi cynnal cyfweliadau manwl gyda sampl o hysbyswyr allweddol o bob rhan o'r sectorau statudol a gwirfoddol yng Nghymru. Roedd y sampl o'r 10 a gyfwelwyd yn cynnwys cynrychiolwyr o ddarparwyr gwasanaethau digartrefedd, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill a oedd â throsolwg cenedlaethol o feisydd polisi ac ymarfer perthnasol yng Nghymru (gweler Atodiad 1 am y canllaw pwnc sylfaenol a ddefnyddiwyd, er bod hwn wedi'i deliwra ar gyfer pob un a gyfwelwyd).

- Yn drydydd, rydym wedi cynnal dadansoddiad ystadegol o a) tueddiadau economaidd a chymdeithasol perthnasol yng Nghymru; a b) maint, natur a thueddiadau digartrefedd ymssg yr holl grwpiau digartrefedd a nodir uchod (i'r graddau y mae cyfyngiadau data yn caniatáu).
- Yn bedwerydd, am yr eildro, rydym wedi cynnal arolwg ar-lein pwrpasol o Awdurdodau Lleol Cymru (yn ystod haf 2021), gyda'r bwriad o gael eu safbwyt ar dueddiadau digartrefedd lleol a hefyd ar effeithiau amrywiaeth o ddatblygiadau polisi perthnasol. Roeddem wedi rhoi pwyslais penodol eleni ar sut roedd yr ymatebion i bolisiau sy'n ymwneud â thai, nawdd cymdeithasol, y farchnad lafur a COVID-19 eraill yn effeithio ar dueddiadau ac ymatebion digartrefedd ar lefel leol, ac ar y rhngweithio rhwng effeithiau pandemig COVID-19.

- Yn bumed, am y tro cyntaf ym Monitor Digartrefedd Cymru, rydym yn ymgorffori ymarfer modelu ystadegol sy'n amcangyfrif ffurfliau 'craidd' ar ddigartrefedd, ac sy'n rhagamcanu tueddiadau yn y mathau hyn o ddigartrefedd yn y dyfodol.

Ymatebodd pob un o 22 ALL Cymru i'n harolwg (cyfradd ymateb o 100%). Wrth ddadansoddi'r ymatebion, roedd yr awdurdodau a ymatebodd yn cael eu dosbarthu yn ôl y teipoleg canlynol yn seiliedig yn bennaf ar ddwysedd a phatrwm eu haneddiadau. Mae'r dosbarthiad hwn, fel y'i cyhoeddwyd gan Ystadegau Cymru,<sup>32</sup> yn grwpio'r 22 cyngor yn bedwar categori fel a ganlyn:

- Gwledig – y naw awdurdod gyda dwysedd poblogaeth is na chyfartaedd Cymru – 140 o bobl y ciomedr sgwâr: Ynys Môn,

31 Bramley, G. (2017) *Homelessness Projections: Core homelessness in Great Britain, Summary Report*. London: Crisis. [https://www.crisis.org.uk/media/237582/crisis\\_homelessness\\_projections\\_2017.pdf](https://www.crisis.org.uk/media/237582/crisis_homelessness_projections_2017.pdf)

32 Statistics Wales (2008) *A Statistical Focus on Rural Wales*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://llyw-cymru/ffocws-ystadegol-ar-gymru-gwledig-2008>

Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy.

- Y Cymoedd – y pum awdurdod yn Ne Cymru i'r gogledd o'r llain arfordirol: Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Tor-faen.
- Trefol - Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd.
- Eraill – Sir y Fflint, Wrecsam, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg.

### 1.4 Achosiad a digartrefedd

Mae pob un o'r Monitorau Digartrefedd yn seiliedig ar fframwaith cysyniadol ar ganfod digartrefedd a ddefnyddiwyd fel sail i'n dehongliad o effeithiau tebygol newid economaidd a newid polisi.<sup>33</sup>

Mae safbwytiau damcaniaethol, hanesyddol a rhngwladol yn dangos bod achosiad digartrefedd yn gymhleth, heb ddim un 'sbardun' sydd naill ai'n 'angenrheidiol' neu'n 'ddigonol' iddo ddigwydd. Mae ffactorau unigol, rhngbersonol a strwythurol i gyd yn chwarae rhan – ac yn rhngweithio â'i gilydd – ac mae cydbwysedd yr achosiadau yn amrywio dros amser, ar draws gwledydd, a rhwng grwpiau demograffig.

Gyda golwg ar y prif ffactorau strwythurol, mae ymchwil gymharol ryngwladol, a phrofiad dirwasgiadau blaenorol yn y DU, yn awgrymu mai tueddiadau a pholisiau'r farchnad dai sy'n cael yr effaith fwyaf uniongyrchol ar lefelau digartrefedd, gyda dylanwad newid yn y farchnad lafur yn fwy tebygol o fod yn aneglur ac yn wasgaredig, ac yn cael ei gyfryngu'n gryf gan drefniadau lles a ffactorau

cyd-destunol eraill. Mae'r rôl ganolog y mae tlodi'n ei chwarae o ran llywio risgiau digartrefedd yn y DU wedi hen ennill ei phlwyf erbyn hyn.<sup>34</sup>

Mae'r gwendidau unigol, yr anghenion cymorth a'r ymddygiad 'cymryd risg' sy'n gysylltiedig â digartrefedd rhai pobl eu hunain yn aml, er nad bob amser, wedi'u gwreiddio yn y pwysau sy'n gysylltiedig â thlodi a mathau eraill o anfantais strwythurol. Ar yr un pryd, gall 'angor' cysylltiadau cymdeithasol sy'n gallu gweithredu fel 'byffer' sylfaenol i ddigartrefedd, gael ei roi dan straen sylweddol oherwydd amgylchiadau ariannol anodd. Felly, gellid disgwyl hefyd i amgylchiadau economaidd sy'n gwaethyg yng Nghymru arwain at fwy o wendidau 'unigol' a 'rhngbersonol' mewn perthynas â digartrefedd dros amser.

Mae pandemig COVID-19 yn darparu deinameg ychwanegol nas gwelwyd o'r blaen sy'n berthnasol iawn i achosiad ac ymatebion digartrefedd. Mae'r pandemig ei hun a'r cyfngiadau symud cysylltiedig wedi creu effeithiau eang sy'n gysylltiedig â digartrefedd, gyda'r mechanweithiau allweddol yma yn cynnwys effaith uniongyrchol yr argyfwng iechyd cyhoeddus ar ymddygiad a dewisiadau unigolion, aelwydydd a sefydliadau (e.e. awdurdodau lleol a landlodiaid), canlyniadau i'r economi, ac effeithiau ar bolisiau San Steffan a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thai, digartrefedd a lles. Mae'r mechanweithiau hyn wedi effeithio'n wahanol ar aelwydydd mewn gwahanol amgylchiadau, gydag effeithiau cymhleth a gwrthbwysol weithiau ar ddigartrefedd, ac mae'r rhain i gyd yn cael eu harchwilio ymhellach yn yr adroddiad hwn.

33 I gael mwy o fanylion am y fframwaith cysyniadol hwn, edrychwrh ar Bennod 2 yn y Monitor Digartrefedd cyntaf ar gyfer yr Alban: Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G. & Wilcox, S. (2012) *The Homelessness Monitor: Scotland 2012*. London: Crisis.

34 Bramley, G. & Fitzpatrick, S. (2017) 'Homelessness in the UK: Who is most at risk?', *Housing Studies*, 33:1, 96-116.

### 1.5 Strwythur yr adroddiad

Mae Pennod 2 yn adolygu'r cyd-destun ehangach ar gyfer digartrefedd, gan gynnwys tueddiadau economaidd, tlodi a'r farchnad lafur, datblygiadau yn y farchnad dai, a newidiadau i bolisi lles – mae'r ymatebion i argyfwng COVID-19 wedi effeithio'n fawr ar hyn i gyd. Mae Pennod 3 yn newid y ffocws ar bolisiau ac arferion sy'n ymwneud yn benodol â digartrefedd ar lefel genedlaethol a lleol, gan gynnwys mewn ymateb uniongyrchol i'r pandemig. Mae Pennod 4 yn darparu dadansoddiad o'r data ystadegol swyddogol sydd ar gael ar raddfa bresennol a thueddiadau diweddar mewn digartrefedd statudol yng Nghymru; dylid nodi bod y data hwn wedi bod yn brin dros gyfnod COVID-19, ac mae'r bennod hon hefyd yn defnyddio arolwg yr All yn helaeth. Mae Pennod 5 yn darparu amcangyfrifon o faint cyfredol digartrefedd craidd yng Nghymru, ac yn rhagamcanu tueddiadau yn y mathau hyn o ddigartrefedd i'r dyfodol. Mae'r holl benodau hyn yn seiliedig ar y wybodaeth sy'n deillio o'n cyfweliadau manwl â hysbyswyr allweddol a gynhalwyd yn 2021, ac o'r wybodaeth ystadegol ac ansoddol a gafwyd o'r arolwg ar-lein o awdurdodau lleol eleni. Ym Mhennod 6 rydym yn dwyn ynghyd brif ganfyddiadau'r adroddiad hwn.

# Y cyd-destun

## 2. Y cyd-destun ar gyfer digartrefedd: ysgogiadau ehangach o ran economi, tai a lles

### 2.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn rhoi digartrefedd yn y cyd-destun polisi cymdeithasol, economaidd a thai ehangach. Mae'n ystyried ymatebion polisi i COVID-19 yn ogystal â datblygiadau cyn y pandemig sy'n debygol o dylanwadu ar y farchnad lafur a'r system dai wrth symud ymlaen. Mae Adran 2.2 yn rhoi trosolwg o gyflogaeth, enillion a tlodi wrth i Gymru fynd i'r argyfwng COVID-19, ymateb y Llywodraeth i'r argyfwng a rhagolygon y farchnad lafur i'r dyfodol. Mae Adran 2.3 yn edrych ar y farchnad dai a'r cyd-destun polisi tai, gan gynnwys y mesurau brys a fabwsiadwyd mewn ymateb i COVID-19. Mae Adran 2.4 yn canolbwytio ar nawdd cymdeithasol, ffyrlo a pholisiau eraill i gryfhau incwm aelwydydd mewn ymateb i'r argyfwng.

### 2.2 Y cyd-destun cymdeithasol ac economaidd

Cyn argyfwng COVID-19, roedd y DU wedi wynebu degawd o dwf economaidd gwan a chyni, gan


gynnwys cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus a oedd yn cael effaith niweidiol ar wasanaethau cyhoeddus a budd-daliadau nawdd cymdeithasol. Roedd ansicrwydd sy'n gysylltiedig â Brexit hefyd wedi lleihau buddsoddiad busnes, a oedd yn cael effaith bellach ar dwf mewn cynhyrchiant.<sup>35</sup>

Gwelodd Cymru welliannau sylweddol yn lefel y gyflogaeth yn y 10 mlynedd cyn argyfwng COVID-19, ond dyma oedd un o'r gwledydd a'r economiâu rhanbarthol a oedd yn perfformio waethaf yn y DU o ran cynhyrchiant, incwm aelwydydd a lefelau cyflog.<sup>36</sup> Er bod y cyflog amser llawn canolrifol ar gyfer Cymru wedi cynyddu ychydig yn gyflymach nag yn DU gyfan, cynyddodd enillion yn arafach na chwyddiant. Ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant, roedd y cyflog amser llawn canolrifol ar gyfer Cymru yn 2020 dri phwynt canran yn is na lefel cyflog 2007 (Ffigur 2.1). Ar £542, roedd hefyd yn dal yn is na'r cyflog canolrifol wythnosol o £586 yn y DU. Ochr yn

<sup>35</sup> Bank of England (2019) *Monetary Policy Report - November 2019- Section 4: In focus - Uncertainty and Brexit*. Ar-lein: Monetary Policy Committee, Bank of England. <https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-report/2019/november-2019/in-focus-uncertainty-and-brexit>

<sup>36</sup> Llywodraeth Cymru (2019) *Adroddiad y Prif Economegydd*, 2019. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [https://senedd.wales/ministerial%20statements%20documents/a%20budget%20to%20build%20a%20more%20prosperous,%20more%20equal%20and%20greener%20wales/chief%20economist's%20report%2019%20\(welsh\).pdf](https://senedd.wales/ministerial%20statements%20documents/a%20budget%20to%20build%20a%20more%20prosperous,%20more%20equal%20and%20greener%20wales/chief%20economist's%20report%202019%20(welsh).pdf)

**Ffigur 2.1: Tueddiadau mewn enillion amser llawn canolrif gwirioneddol ac enwol ar gyfer Cymru a'r DU, 2007-2019, (2007 =100)**



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020), 'Annual Survey of Hours and Earnings'. - enillion ar sail trigolion.


ochr â'r diffyg twf cyflog, gwelwyd tuedd o symud oddi wrth waith amser llawn 'confensiynol'<sup>37</sup> a thuag at waith rhan-amser, hunan-gyflogaeth a ffyrdd ansicr o weithio. Mae'r wasgfa ar safonau byw a ddeilliodd o hynny wedi llesteirio'r cynnydd o ran lleihau tlodi, sef y ffactor risg allweddol ar gyfer digartrefedd.<sup>38</sup>

### Tlodi

Yn gyffredinol, mesurir tlodi yn y DU ar sail gymharol ac mae'n tracio a yw incwm unigolion sy'n byw mewn aelwydydd tlotach yn cynyddu neu'n gostwng ar lefel debyg i incwm unigolion sy'n byw ar aelwydydd incwm canol. Mae tlodi cymharol felly'n cyfeirio at unigolion sy'n byw

mewn aelwyd sydd ag incwm sy'n is na 60 y cant o ganolrif y DU ar ôl addasu ar gyfer cyfansoddiad aelwydydd ("cyfrif cyfwerthedd"). Adroddir ar amcangyfrifon tlodi ar gyfer Cymru cyn (BHC) ac ar ôl (AHC) costau tai ac maent yn deillio o'r Arolwg o Adnoddau Teulu. Oherwydd y sampl cymharol fach ar gyfer Cymru, mae ystadegau'n seiliedig ar gyfartaeddau treigl tair blynedd neu bum mlynedd i leihau effaith y cyfeiliornad samplu.

**Ffigur 2.2: Tlodi cymharol ar ôl costau tai yng Nghymru, 2007/8-2009/10 i 2017/18 i 2019/20**



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2021) StatsCymru, Tablau data Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog ar gyfer Cymru, Tabl A

Yn y tair blynedd hyd at fis Mawrth 2020, roedd tua 20 y cant o bobl o bob oed yng Nghymru yn byw mewn cartrefi a oedd mewn tlodi BHC ac roedd 23 y cant yn byw mewn aelwydydd a oedd mewn tlodi AHC,<sup>39</sup> a oedd yn cyfateb i 710,000 o aelwydydd. Mae cyfraddau uwch o tlodi AHC yn adlewyrchu'r duedd i aelwydydd incwm isel wario cyfran uwch o'u hincwm ar dai nag aelwydydd incwm uwch.

Yn yr un modd â thueddiadau'r DU, mae cyfradd tlodi AHC ar gyfer Cymru

wedi aros yn weddol sefydlog dros y degawd diwethaf (gweler ffigur 2.2) ond mae hefyd wedi aros ychydig yn uwch na chyfradd tlodi AHC cymharol y DU gyfan, sef 22 y cant. Ar y llaw arall, mae'r 'bwlc'h' rhwng AHC a BHC yng Nghymru (3 pwynt canran) wedi aros yn llai nag ar gyfer y DU (5 pwynt canran).<sup>40</sup> Mae hyn yn awgrymu, o'i gymharu â'r DU gyfan, fod cyflogau isel a diffyg twf cyflog wedi cael mwy o effaith ar gyfraddau cyffredinol tlodi AHC yng Nghymru, tra bo costau tai wedi cael effaith fwyl cymedrol. Yn gyson â hyn, mae 62 y cant o'r holl

<sup>37</sup> Ibid.

<sup>38</sup> Bramley, G. & Fitzpatrick, S. (2018) 'Homelessness in the UK: who is most at risk?', *Housing Studies*, 33:1, 96-116. DOI: 10.1080/02673037.2017.1344957

<sup>39</sup> Llywodraeth Cymru (2021) StatsCymru, Tablau data Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog ar gyfer Cymru, 2007-08 i 2019-20. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://view.officeapps.live.com/op/view.aspx?src=https%3A%2F%2Fgov.wales%2Fsites%2Fdefault%2Ffiles%2Fstatistics-and-research%2F2021-03%2Fhouseholds-below-average-income-data-tables-for-wales-2007-08-to-2019-20-61-9.ods&wdOrigin=BROWSELINK>

<sup>40</sup> Ibid.

oedolion oed gweithio a 71 y cant o'r holl blant mewn tlodi AHC yng Nghymru yn byw mewn cartrefi lle mae un neu fwy o oedolion mewn gwaith.<sup>41</sup>

Yn y degawd hyd at 2017-20, bu i dwf yn y sector rhentu preifat (PRS) olygu bod cyfran yr holl bobl mewn tlodi AHC sy'n byw yn y sector hwn wedi cynyddu bedwar pwynt canran i 29 y cant, tra bod y gyfran sy'n byw yn y sector perchen-feddianwyr wedi gostwng dri phwynt canran i 39 y cant a'r gyfran sy'n byw yn y sector rhentu cymdeithasol wedi aros yr un fath i raddau helaeth, sef 32 y cant. Fodd bynnag, mae cyfran y bobl ym mhob deiliadaeth sy'n profi tlodi yn amrywio'n sylweddol. Yn 2017-20, roedd 41 y cant o'r holl bobl a oedd yn byw yn y sector rhentu preifat yng Nghymru mewn tlodi, sy'n uwch o lawer na'r gyfradd gymharol o 33 y cant ar gyfer y DU. I'r gwrrthwyneb, roedd cyfran y rhai a oedd yn byw yn y sector rhentu cymdeithasol (48 y cant) a'r sector perchen-feddianwyr (13%) a oedd yn byw mewn tlodi yn cyd-fynd yn fras â chyfraddau cymharol y DU.

Mae Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) yn dweud bod cynnydd sydyn wedi bod mewn tlodi mewn gwaith ymmsg rhentwyr cymdeithasol, sy'n cynyddu o 29 y cant o rentwyr cymdeithasol mewn gwaith yn 2012-15 i 39 y cant yn 2016-19.<sup>42</sup> Maent yn priodoli hyn yn rhannol i bolisi rhent Llywodraeth Cymru, a welodd rhenti cymdeithasol yn codi 8 y cant mewn termau real yn y pum mlynedd hyd at 2020 ac yn cyferbynnu hyn â'r polisi rhent yn Lloegr a welodd y rhenti cymdeithasol yn gostwng. Esboniad posibl arall yw bod mwy o rentwyr cymdeithasol o oedran gweithio wedi dechrau gweithio ar gyflog isel. Byddai hyn yn

gyson â'r ffaith nad yw nifer y rhentwyr cymdeithasol oed gweithio mewn tlodi AHC wedi newid fawr ddim dros y degawd diwethaf, ac roedd yn 130,00 yn 2017-20, sy'n cyfateb i 49 y cant o'r holl rentwyr cymdeithasol oed gweithio.

Dros y degawd, mae costau tai yn nodwediadol wedi cynyddu cyfraddau tlodi oedolion 4 y cant ac wedi lleihau cyfraddau tlodi pensiynwyr 4 y cant. Yn 2017-20 er enghraift, roedd cyfraddau tlodi pensiynwyr AHC a BHC yn 18 y cant a 22 y cant yn y drefn honno. Fodd bynnag, mae costau tai wedi cael effaith fwy dirifol a niweidiol ar gyfraddau tlodi plant. Yn 2017-20, roedd cyfradd tlodi plant AHC yn 31 y cant, tua 8 y cant yn uwch na chyfradd tlodi BHC. Mae'n ymddangos bod y cynnydd mewn tlodi plant AHC yn 2017-20 wedi cael effaith anghymesur ar blant sy'n byw mewn teuluoedd sydd ag un rhiant, sy'n derbyn budd-daliadau seiliedig ar incwm ac sydd â thri neu fwy o blant. Mae hyn yn awgrymu bod y Cap Budd-dal a'r terfyn dau blentyn ar gyfer y rheini sy'n hawlio Credyd Cynhwysol wedi dechrau cael effaith niweidiol ar tlodi plant yng Nghymru.<sup>43</sup>

Mae sefydlogrwydd y cyfraddau tlodi cymharol ers 2007-08 yn fwyaf tebygol o guddio'r realiti bod mesurau cyni a datblygiadau yn y farchnad lafur wedi cyfrannu at ddwysau dirifoldeb tlodi, a mwy o tlodi ymmsg y rheini sydd ar incwm eithriadol o isel. Nid yw amcangyfrifon ar gyfer tlodi dirifol yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru gan fod yr Arolwg o Adnoddau Teulu yn ei chael yn anodd cael gafaol ar y rheini sydd ar incwm isel iawn. Fodd bynnag, mae astudiaethau

olynol gan Brifysgol Heriot-Watt<sup>44 45</sup> yn tynnu sylw at broblem gynyddol amddifadedd, sy'n ymwneud yn bennaf â diffyg bwyd, dillad a phethau ymolchi sylfaenol. Dywedodd Banc Bwyd Ymddiriedolaeth Trussell, sydd â rhwydwaith o 117 o fanciau bwyd yng Nghymru, ei fod wedi rhoi 86,314 o barseli bwyd brys yn 2015-16, gan godi i 134,892 yn 2019-20 ac i 145,828 yn 2020-21.<sup>46</sup>

### COVID-19 a'r economi

Roedd COVID-19 a chyflwyno cyfyngiadau symud i reoli lledaeniad y feirws wedi achosi'r dirywiad cyflymaf a difrifol y mae'r DU wedi'i wynebu mewn 300 mlynedd.<sup>47</sup> Yn ystod y cyfnod clo cyntaf yn ail chwarter 2020, gwelwyd economi'r DU yn crebachu 19 y cant<sup>48</sup> ac economi Cymru yn crebachu 15 y cant.<sup>49</sup> Dechreuodd yr economi wella yn ystod yr haf wrth i'r cyfyngiadau lacio ac wrth i fusnesau ailagor, ond wrth i'r cyfyngiadau gael eu haislefylu wrth i'r Gaeaf agosáu, gwelwyd yr economi'n crebachu eto. At ei gilydd, gostyngodd economi'r DU 9.8 y cant yn 2020, oedd yn fwy o lawer na'r gostyngiad o 4.1 y cant mewn cynyrrch domestig gros yn 2009 yn sgil dirwasgiad yr Argyfwng Ariannol Byd-eang (GFC).<sup>50</sup>

Mae lefelau cymorth ariannol adeg heddwch na welwyd eu tebyg i gynnal swyddi, incwm aelwydydd a gweithgarwch economaidd wedi atal

cynnydd sylweddol mewn diweithdra a welwyd mewn dirwasgiadau blaenorol. Yn ôl yr Arolwg o'r Llafur (LFS), roedd y gyfradd diweithdra ar gyfer Cymru yn chwarter cyntaf 2021 yn 4.4 y cant, 1.2 pwynt canran yn is na blwyddyn ynghynt, ac nid oedd wedi newid ers y chwarter blaenorol.

Mae mesurau eraill yn y farchnad lafur yn creu darlun mwy pryerus. Rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2021, ychydig iawn o gynydd a welwyd yn nifer y gweithwyr sy'n cael gofal yng Nghymru, ac roedd y farchnad lafur mewn mannau eraill ym Mhrydain yn dangos arwyddion addawol o adferiad.<sup>51</sup> Yn yr un modd, mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau, sy'n mesur pobl sy'n ddi-waith neu sy'n ofynnol iddynt gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i chwilio am waith ychwanegol i gynyddu eu horiau neu enillion eithriadol o isel, wedi dyblu o 3.1 y cant i 6.2 y cant rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020. Er ei fod wedi gostwng ychydig yn ystod y cyfnod yn y canol, ym mis Ebrill 2021, roedd yna 110,067 o hawlwr yng Nghymru, sy'n 86 y cant yn uwch na phan dechreuodd argyfwng COVID-19.

Fel dirwasgiadau blaenorol, mae'r argyfwng wedi effeithio'n anghymesur ar y rheini sydd eisoes dan anfantais yn y farchnad lafur. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc, gweithwyr hŷn, y rheini sydd â llai o gymwysterau, y rheini

44 Bramley, G., Fitzpatrick, S., & Sosenko, F. (2020). *Destitution in the UK 2020: technical report*. Edinburgh: Heriot-Watt University. <https://researchportal.hw.ac.uk/en/publications/destitution-in-the-uk-2020-technical-report>

45 Bramley, G., Sosenko, F., & Fitzpatrick, S. (2018). *Destitution in the UK 2018: technical report*. Edinburgh: Heriot Watt University. <https://researchportal.hw.ac.uk/en/publications/destitution-in-the-uk-2018-technical-report>

46 Trussell Trust (2021) *End of Year Stats*. Ar-lein: Trussell Trust. <https://www.trusselltrust.org/news-and-blog/latest-stats/end-year-stats/>

47 Financial Times (2021) *UK suffers biggest drop in economic output in 300 years*. 12 Chwefror Ar-lein: Financial Times. <https://www.ft.com/content/96e19af3-88b3-4e8d-bc3e-a72bd1f60d3c>

48 Office for National Statistics (2021) *GDP Quarterly National Accounts UK: Oct-Dec 2020, March 2021*. Ar-lein: ONS. <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/quarterlynationalaccounts/octobertodecember2020>

49 Office for National Statistics (2021) *Quarterly Country and Regional GDP, May 2021*. Ar-lein: ONS. <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/datasets/quarterlycountryandregionalgdp>

50 Office for National Statistics (2021) *Gross Domestic Product: Year on Year growth*. Mawrth 2021. Ar-lein: ONS. <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/timeseries/ihyp/ukea>

51 Office for National Statistics (2021) *Earnings and Employment from PAYE Real Time Information, May 2021*. Ar-lein: ONS. <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/earningsandemploymentfrompayesayouearnrealtimeinformationuk/may2021/relateddata>

sydd mewn gwaith ar gyflog isel, y rheini sy'n perthyn i grŵp lleiafrifoedd ethnig a'r rheini sydd mewn swyddi ansicr.<sup>52</sup> Yn benodol, mae diweithdra tymor hir wedi dechrau cynyddu, wedi'i yrru gan bobl o dan 25 oed a phobl dros 50 oed. Mae'r argywng hefyd wedi cael mwy o effaith ar fenywod na dirwasgiadau blaenorol. Yn ystod y cyfyngiadau symud cychwynnol, roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o gael eu rhoi ar ffyrlo, ac roedd menywod yn 45 y cant o'r holl bobl a gafodd eu diswyddo, o'i gymharu ag oddeutu traean o'r bobl a gafodd eu diswyddo yn ystod dirwasgiad y GFC.<sup>53</sup>

Mae'n ymddangos bod y cynnydd mewn anghydraddoldeb o ganlyniad wedi'i waethyg ymhellach gan effaith yr argywng ar batrymau gwariant aelwydydd. Er bod aelwydydd incwm uwch fel arfer wedi gwario llai ar bethau fel teithio, lletygarwch a hamdden, mae teuluoedd ar incwm is gyda phlant gartref wedi gorfol gwario mwy ar fwyd, biliau ynni ac adloniant ar gyfer y plant.<sup>54</sup> O ganlyniad, mae teuluoedd ar incwm isel yn aml wedi gorfol defnyddio eu cynillion, troi at fenthyciadau anffurfiol gan deulu a ffrindiau a chynyddu dyled defnyddwyr drwy ddefnyddio cardiau credyd a gorddrafftiau.<sup>55</sup>

52 Llywodraeth Cymru (2020) *Adroddiad y Prif Economegydd*, 2020. <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-12/chief-economists-report-2020.pdf>

53 Chwarae Teg (2020) *Cynllun Adfer Economaidd Ffeministaidd i Gymru: Ailgodi'n gryfach ar ôl Covid-19*. Caerdydd: Chwarae Teg. <https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2020/08/Cynllun-Adfer-Economaidd-Ffeministaidd-i-Gymru.pdf>

54 Winding, C., Heathcote-Elliott, C. & Humphreys, C. (2021) *COVID-19 and Employment Changes in Wales: What we know about current and future impacts*. Ar-lein: Ymddiriedolaeth GIG lechyd Cyhoeddus Cymru <https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2020/08/Feminist-Economic-Recovery-plan-for-Wales.pdf>

55 Brewer, M. and Patrick, R. Pandemic (2021) *Pressures: Why families on a low income are spending more during Covid-19*. London: Resolution Foundation. <https://www.resolutionfoundation.org/app/uploads/2021/01/Pandemic-pressures.pdf>

56 Llywodraeth Cymru (2021) *Y Berthynas Newydd â'r UE: Beth mae hyn yn ei olygu i Gymru?* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/y-berthynas-newydd-ar-ue-beth-maen-ei-olygu-i-gymru.pdf>

57 Ymchwil y Senedd (2021) *Y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Codi'r Gwastad – yn cefnogi atebion lleol neu'n tanseilio pwerau datganoledig?* Caerdydd: Senedd Cymru <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/y-gronfa-ffyniant-gyffredin-a-r-gronfa-codi-r-gwastad-cefnogi-datrysiau-lleol-neu-n-sathru-ar-bwerau-datganoledig/>

58 Bydd y Gronfa Perchenogaeth Gymunedol 4 blynedd yn helpu cymunedau i fod yn berchen ar asedau lleol tra bydd y Gronfa Adnewyddol Gymunedol am flwyddyn yn pontio'r bwlcyn cyn cyflwyno'r Gronfa Ffyniant Gyffredin o 2022 ymlaen.

59 Gething, V. (2021) *Mae cynlluniau Llywodraeth y DU i ddisodli cronfeydd yr UE yn golled ariannol i Cymru ac yn ymosodiad bwriadol ac annerbyniol ar ddatganoli yng Nghymru – Datganiad i'r wasg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/mae-cynlluniau-llywodraeth-y-du-i-ddisodli-cronfeydd-yr-ue-yn-golled-ariannol-i-cymru-ac-yn>

## Rhagolygon polisi economaidd a chyllidol i'r dyfodol

Mae llwybr y pandemig a'r economi yn y dyfodol yn ansicr, ond mae sawl ffactor yn debygol o effeithio arno. Yn gyntaf, yr ymatebion polisi petai'r llwybr allan o'r cyfyngiadau symud gael eu bwrw oddi ar y trywydd oherwydd bod cyfraddau heintio'n cynyddu oherwydd bod y feirws wedi mwtnau a llai o effeithiolrwydd o ran brechlynnau. Yn ail, sut bydd gweithredu Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn effeithio ar fusnesau Cymru sy'n masnachu gyda'r UE.<sup>56</sup> Yn drydydd, agenda codi'r gwastad Llywodraeth y DU a'i heffaith ar ranbarthau mwy difreintiedig y DU.<sup>57</sup> Mae hyn yn cynnwys Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a fydd yn disodli Cronfa Strwythurol yr UE, yr oedd Cymru'n un o'r prif fuddiolwyr, Cronfa Lefelu'r DU a dwy gronfa gymunedol lai.<sup>58</sup> Nid yw manylion y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn hysbys eto. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ofni y bydd cyllid o'r pedair cronfa yn is o lawer na'r cyllid a gafodd gan yr UE ac na fydd yn cael fawr o lais yngylch sut y caiff y cronfeydd eu dyrannu, er eu bod wedi'u targedu at feysydd polisi datganoledig fel trafnidiaeth a datblygu economaidd.<sup>59</sup>

Yn y tymor hwy, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi dweud nad yw sefyllfa ariannol y DU yn gynaliadwy heb gynnydd sylweddol mewn treth na gostyngiad mewn rhwymedigaethau gwario.<sup>60</sup> Bydd sut y bydd Llywodraeth y DU yn ymateb i'r her hon yn effeithio ar wariant ar wasanaethau cyhoeddus a nawdd cymdeithasol ac felly'n siapio'r cyddestun ar gyfer digartrefedd dros y degawd nesaf. Fe wnaeth Llywodraeth y DU fenthyca £303 biliwn yn 2020/21 a gweld cynnydd yn y ddyled genedlaethol (y benthyca a gronnyd dros y blynnyddoedd) i 98 y cant o'r incwm cenedlaethol.<sup>61</sup> Mae cyfraddau llog isel iawn wedi golygu bod modd rheoli'r ddyled hon ac wedi creu lle i Lywodraeth y DU ddarparu ysgogiad ariannol pellach i gynnal adferiad ar gyfer 2021-22. Wedi hynny, mae cynlluniau gwario Llywodraeth y DU a'i nodau i gydbwysor gyllideb erbyn diwedd y senedd yn awgrymu y gellid dychwelyd at gyni a rhagor o godiadau treth.<sup>62</sup>

Mae Llywodraeth Cymru yn wynebu pwysau sylweddol iawn i ddiogelu a chynyddu gwariant ar wasanaethau i adfywi'r economi, i leihau'r ôl-groniad o driniaeth mewn ysbytai, ac i gefnogi darpariaeth ddysgu ychwanegol i ddisgyblion ysgol.<sup>63</sup> Ar ben hynny, er bod gwariant gofal cymdeithasol wedi cael ei ddiogelu rhag y gostyngiad o 7 y cant (real) yng ngwariant awdurdodau lleol ers 2013-14, mae wedi methu â chadw i fyny â'r twf mewn pobl hŷn sydd ag anghenion gofal cymhleth.<sup>64</sup>

60 Office for Budget Responsibility (2020) *Fiscal Sustainability Report – July 2020*. London: Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. <https://obr.uk/fsr/fiscal-sustainability-report-july-2020/>

61 Office for National Statistics (2021) *Public Sector Finances, UK: Mawrth 2021*. London: ONS. <https://www.ons.gov.uk/economy/governmentpublicsectorandtaxes/publicsectorfinance/bulletins/publicsectorfinances/march2021>


62 Wales Fiscal Analysis (2021) *UK Budget 2021: Implications for Wales and the Welsh budget*. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd. [https://www.cardiff.ac.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0007/2503816/WFA\\_UK\\_budget-analysis.pdf](https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0007/2503816/WFA_UK_budget-analysis.pdf)

63 Ibid.

64 Wales Fiscal Analysis (2020) *The Future of Care in Wales: Resourcing social care for older adults*. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd. [https://www.cardiff.ac.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0019/2427400/social-care\\_final2\\_aug20.pdf](https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0019/2427400/social-care_final2_aug20.pdf)

65 Llywodraeth Cymru (2020) *Adroddiad y Prif Economegydd*, 2020. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-12/2020-adroddiad-y-prif-economegydd.pdf>

**Ffigur 2.3: Twf blynnyddol ar gyfer yr holl werthiant tai preifat presennol a newydd yng Nghymru hyd at fis Rhagfyr 2020**



Ffynhonnell: Mynegai Prisiau Tai'r DU: llwytho data i lawr Chwefror 2021 (Cymru)

galw cynyddol a'r cynnydd dros dro ym mand cyfradd sero'r Dreth Trafodion Tir (LT) o £180,000 i £250,000. Ychydig iawn o effaith gafodd y cyfnod atal byr dilynol o 17 diwrnod yng Nghymru a ddechreuodd ar 23 Hydref a'r cyfnod clo ledled y DU a ddechreuodd o fis Ionawr 2021 ymlaen ar nifer y trafodion. Wedi dweud hynny, gwelwyd cynnydd sydyn yn y trafodion ar gyfer dros 6,200 o drafodion ym mis Mawrth 2021 er mwyn delio â'r dyddiad cau gwreiddiol ar gyfer gwyliau'r Dreth Trafodion Tir, a gafodd ei ymestyn i 30 Mehefin.<sup>66</sup>


Roedd y cyfyngiadau symud cychwynnol hefyd wedi atal adeiladu tai yn ystod ail chwarter 2020. Nid oes ystadegau adeiladu tai swyddogol ar gyfer 2020 ar gael ond mae data'r Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC)<sup>67</sup> a'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (NHBC)<sup>68</sup> yn dangos cyfeiriad y daith. Maen nhw'n awgrymu y gallai nifer y tai sy'n cael eu cwblhau fod wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig erbyn diwedd 2020. I'r gwrthwyneb, mae adennill caniatâd cynllunio a dechrau codi tai wedi bod yn wannach, a gallai hynny arafu'r cyflenwad tai newydd am gryn amser i ddod.

66 HM Revenue and Customs (2021) *Monthly Property Transactions Completed in the UK with Value of £40,000 or Above -tables: 21 Mai 2021*. <https://www.gov.uk/government/statistics/monthly-property-transactions-completed-in-the-uk-with-value-40000-or-above>

67 Ministry of Housing, Communities and Local Government (2021) *Energy Performance Building Certificates (EPC) in England and Wales - Table NB1 - at Q1 2021 (January to March)*. Ar-lein: Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/live-tables-on-energy-performance-of-buildings-certificates>

68 NHBC (2021) *New home statistics review, 2020*. Milton Keynes: NHBC. <https://www.nhbc.co.uk/binaries/content/assets/nhbc/media-centre/stats/2020-new-home-statistics-review.pdf>

**Ffigur 2.4: Cyfartaledd prisiau tai wedi'u haddasu yn ôl yr amrywiaeth o eiddo a fforddiadwyedd morgeisi, 2007 i 2020.**



Ffynhonnell: Mynegai Prisiau Tai'r DU (pris cyfartalog tai Cymru, wedi'i lawrlwytho ym mis Mehefin 2021); Arolwg Blynnyddol o Enillion yr Awr amser llawn canolrifol; a chyfraddau llog morgais Banc Lloegr (tabl 1.22) a'i gyfrifiadau ei hun. Sylwch: Mae'r pris geometrig cyfartalog yn fesur technegol a ddefnyddir i olrhain twf mewn prisiau ac mae'n cynhyrchu ffigurau sy'n nes at y canolrif na'r cymedr rhifyddol mwy cyffredin. Mae'r ffigurau wedi'u haddasu ar gyfer cymysgedd ac maent ar gyfer mis Rhagfyr bob blwyddyn. Mae costau ad-dalu morgais yn tybio blaendal o 10 y cant ac yn defnyddio'r gyfradd llog gyfredol ar gyfer y flwyddyn dan sylw.

Mae Ffigur 2.4 yn dangos bod pris tŷ cyfartalog Cymru wedi cynyddu 9.6 y cant i £182,349 yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2020, sef y cynnydd blynnyddol uchaf ers y GFC. Parhaodd y ffyniant hwn yn 2021, gyda'r pris cyfartalog yn codi 11 y cant yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2021 i £185,431, sy'n uwch na chyfradd y DU o 10.2 y cant. Mae'r ffyniant hwn wedi cael ei sbarduno gan y galw gormodol o'i gymharu â'r cyflenwad,<sup>69</sup> sy'n gysylltiedig â chyfraddau llog isel iawn, 'gwyliau' y Dreth Trafodion Tir, a mwy o alw gan aelwydydd mwy cefnog sydd wedi cynyddu eu cynillion yn ystod yr argyfwng.<sup>70</sup> Mae hyn yn cynnwys y galw am gartrefi mwy gyda gerddi, gyda'r pris cyfartalog ar gyfer cartrefi sengl yng Nghymru yn

cynyddu 12.4% yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2021 i £283,000.

Mae Ffigur 2.4 hefyd yn dangos bod fforddiadwyedd i brynwyr tai, wedi'i fesur fel cost morgais prynu eiddo â phris cyfartalog fel cyfran o enillion amser llawn gros canolrifol, wedi'u llacio ar ôl y GFC. Yna, arhosodd ar tua 28 y cant tan 2019 cyn codi yn 2020 mewn ymateb i gynnnydd mewn prisiau tai, ond arhosodd yn is na 30 y cant oherwydd cyfraddau llog isel iawn. Ar y llaw arall, daeth mynediad at berchnogaeth cartref yn fwy problemus i brynwyr am y tro cyntaf yn ystod 2020 wrth i fenthycwyr dynnu'n ôl y cynnyrch morgais benthyciadau uchel mewn cymhriaeth a gwerth. Roedd hyn, a'r

69 Savills (2021) *Welsh Housing Market and Supply Update, May 2021*. Caerdydd: Savills. <https://pdf.euro.savills.co.uk/residential---other/welsh-housing-market-update-h1-2021.pdf>

70 Inman, P. (2021) *Housing market on fire warns Bank of England chief economist*. 8 Mehefin. London: The Guardian <https://www.theguardian.com/business/2021/jun/08/uk-housing-market-is-on-fire-warns-bank-of-england-chief-economist>

ffaith bod y Dreth Trafodion Tir wedi bod o fudd i rai oedd yn symud tai yn bennaf, yn golygu bod mwy o bobl yn symud tai yn 2020 na phrynwyr tro cyntaf yng Nghymru am y tro cyntaf ers 2017.<sup>71</sup>

Fforddiadwyedd i brynwyr tai, wedi'i fesur fel cost morgais prynu eiddo â phris cyfartalog fel cyfran o enillion amser llawn gros canolrifol, wedi'u llacio ar ôl y GFC. Yna, arhosodd ar tua 28 y cant tan 2019 cyn codi yn 2020 mewn ymateb i gynnydd mewn prisiau tai, ond arhosodd yn is na 30 y cant oherwydd cyfraddau llog isel iawn. Ar y llaw arall, daeth mynediad at berchnogaeth cartref yn fwy problemus i brynwyr am y tro cyntaf yn ystod 2020 wrth i fenthycwyr dynnu'n ôl y cynnyrch morgais benthyciadau uchel mewn cymhariaeth â gwerth. Roedd hyn, a'r ffaith bod y Dreth Trafodion Tir wedi bod o fudd i rai oedd yn symud tai yn bennaf, yn golygu bod mwy o bobl yn symud tai yn 2020 na phrynwyr tro cyntaf yng Nghymru am y tro cyntaf ers 2017.<sup>72</sup>

#### Mynediad at dai rhent

Mae rhentu preifat yn cyfrif am oddeutu 14 y cant o stoc tai Cymru<sup>73</sup> ac yn darparu ar gyfer amrywiaeth o aelwydydd, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn gallu cael mynediad i'r sector rhentu cymdeithasol neu berchen-feddianwyr a'r rhai nad yw rhentu preifat yn ddewis tymor hir iddynt.<sup>74</sup> Yn 2019-20, y rhent preifat wythnosol canolrifol ar gyfer Cymru oedd £109.<sup>75</sup> Roedd hyn yn cyfateb i 20 y cant o

enillion canolrifol amser llawn gros a 27 y cant o enillion y chwarter isaf. Cyn y cyfnod clo cyntaf, roedd y twf rhent wedi bod yn fach. Rhwng mis Ionawr 2015 a mis Mawrth 2020, cynyddodd rhenti preifat 4.6 y cant, sy'n is o lawer na'r gyfradd ar gyfer Lloegr, sef 9.3 y cant.<sup>76</sup> Ers hynny, mae'n ymddangos bod rhenti wedi cynyddu'n gyflymach, gyda syrfewyr yn dweud bod y galw am dai preifat yng Nghymru yn fwy na'r cyflenwad ar hyn o bryd.<sup>77</sup> Mae hyn yn awgrymu y gallai rhenti preifat yng Nghymru barhau i gynyddu dros y misoedd nesaf, gan waethyg ymhellach y pryderon ynghylch fforddiadwyedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gwella ansawdd tai rhent preifat a safonau rheoli drwy drwyddedu a rheoleiddio landlordiaid, gwella diogelwch deiliadaeth, gwella'r amddiffyniad rhag troi allan dialgar a diddymu ffioedd gosod ar gyfer tenantiaethau newydd. Ar ôl ei ddeddfu, bydd diwygiadau diweddar i Ddeddf Rhentu Cartrefi 2016 yn cryfhau diogelwch tenantiaid ymhellach o wanwyn 2022 ymlaen. Mae'r rhain yn cynnwys ymestyn cyfnodau rhybudd ar gyfer troi allan 'dim bai' o ddu i chwe mis, cyfnod contract o 12 mis o leiaf, a chontractau tenantiaeth diwygiedig a fydd yn egluro hawliau a chyfrifoldebau tenantiaid a landlordiaid.

Ar y llaw arall, mae'n ymddangos bod gweithredu'r mesurau polisi a ddaeth i rym hyd yma wedi bod yn llai cadarn na'r hyn a oedd yn ofynnol. Mae

cyrff sy'n cynrychioli landlordiaid<sup>78</sup> a thenantiaid<sup>79</sup> yn dweud mai ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran cofrestru landlordiaid, mynd i'r afael â safonau gwael, a mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol ymysg landlordiaid. Mae cwestiynau wedi cael eu codi am lywodraethu Rhentu Doeth Cymru,<sup>80</sup> y corff trwyddedu ar gyfer landlordiaid, a'r capaciti a'r ewylls gwleidyddol o fewn awdurdodau lleol i orfodi safonau.<sup>81</sup>

Mae tai rhent cymdeithasol yn cyfrif am 16 y cant o stoc dai Cymru. Gydag 11 o'r 22 Awdurdod Lleol wedi trosglwyddo eu stoc, roedd 62 y cant o'r 229,900 o gartrefi rhent cymdeithasol ym mis Mawrth 2020 yn eiddo i gymdeithasau tai ac yn cael eu rheoli ganddynt.<sup>82</sup> Bryd hynny, yr oedd y rhent cymdeithasol wythnosol cyfartalog oddeutu £94,<sup>83</sup> sy'n cyfateb i 17 y cant o enillion amser llawn canolrifol a 24 y cant o enillion y chwarter isaf. Rhwng 2015-16 a 2019-20, cynyddodd rhenti cymdeithasol bron i 15 y cant.<sup>84</sup> Roedd hyn yn cyfynd yn fras â thwf mewn enillion ond yn uwch na chwyddiant (12 y cant) a'r twf mewn rhenti preifat.

Mae amcangyfrifon stoc yn awgrymu bod yna o leiaf 5,300 o ychwanegiadau net wedi bod i'r gronfa o gartrefi rent cymdeithasol yn y pedair blynedd hyd at fis Mawrth 2020, sy'n adlewyrchu'n bennaf diddymu Hawl i Brynu yn

2019 a'r cynnydd yn y ddarpariaeth o dai cymdeithasol ychwanegol. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd 19,000 o dai fforddiadwy eu darparu drwy gymysgedd o dai newydd sy'n cael eu hadeiladu, eu prynu, eu caffaer, eu prydlesu neu eu trosi i gefnogi targed Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o dai fforddiadwy yn 2016-2021.<sup>85</sup> Roedd hyn yn cynnwys 8,131 o gartrefi rhent cymdeithasol (gan gynnwys 255 o gartrefi ar brydles blwyddyn neu fwy i letya aelwydydd digartref) a 1,287 o gartrefi ar gyfer rhent canolradd. Yn gyffredinol, roedd y 9,584 o unedau a oedd yn weddill ar gyfer perchentyaeth fforddiadwy, ac roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn gartrefi newydd a brynwyd gyda chymorth y cynllun Help i Brynu. Cafodd hyd at 4,000 o dai fforddiadwy eu cynllunio ar gyfer 2020-21 ond mae'r arafu o ran codi tai preifat newydd yn 2020-21 wedi lleihau nifer y tai fforddiadwy sy'n cael eu darparu drwy rwymedigaethau cynllunio, ac mae'n bosibl y bydd hyn yn parhau am gryn amser.

Mae gwaith i weithredu argymhellion Adolygiad Tai Fforddiadwy Annibynnol 2018-19 hefyd wedi mynd rhagddo. Cafodd polisi rhent cymdeithasol pum mlynedd wedi'i addasu ei gadarnhau ym mis Rhagfyr 2019, a sefydlwyd Is-adran Tir Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2019 i ddatgloi tir sy'n eiddo cyhoeddus i gefnogi datblygiad tai cymdeithasol. Dylai

78 National Residential Landlords Association (2021) *Rent Smart Wales: The Accountability Gap*. Caerdydd: National Residential Landlords Association. <https://www.nrla.org.uk/news-Rent-Smart-Wales-fails-accountability-tests>

79 Kindersley, N. (2021) *Rent Smart Wales: A Watchdog in Need of Sharper Teeth*. Caerdydd: IWA <https://www.iwa.wales/agenda/2021/01/rent-smart-wales-a-watchdog-in-need-of-sharper-teeth/>

80 National Residential Landlords Association (2021) *Rent Smart Wales: The Accountability Gap*. Caerdydd: NLRA. <https://www.nrla.org.uk/news-Rent-Smart-Wales-fails-accountability-tests>

81 Smith, B. (2020) *How can local authorities improve compliance in the private rented sector? A Wales Perspective*. 4 Tachwedd Ar-lein: CaCHE Blog. <https://housingevidence.ac.uk/how-can-local-authorities-improve-compliance-in-the-private-rented-sector-a-wales-perspective/>

82 Smith, B. (2018) *Social Housing in Wales*. Glasgow: CaCHE. <https://housingevidence.ac.uk/publications/social-housing-in-wales/>

83 Department of Work and Pensions (2021) *Family Resources Survey: financial year 2019 to 2020, tenure tables*: (tabl 3.8). Ar-lein: DWP. <https://www.gov.uk/government/statistics/family-resources-survey-financial-year-2019-to-2020>

84 Llywodraeth Cymru (2019) *Stoc Tai Cymdeithasol a Rhenti: Rhenti wythnosol cyfartalog mewn stoc hunangynhwysol yn ôl math o ddarparwr a blwyddyn – cyrchwyd Mehefin 2021*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Social-Housing-Stock-and-Rents/averageweeklyrentsinselfcontainedstocksatsocialrent-by-providertype-year>

85 Darpariaeth Tai Fforddiadwy Llywodraeth Cymru (2021): *Ebrill 2019 - Mawrth 2020 Caerdydd: Llywodraeth Cymru*. <https://llyw.cymru/darpariaeth-tai-fforddiadwy>

fframwaith diwygiedig ar gyfer grant tai fforddiadwy fod ar waith rhwng 2022-23 ac mae newidiadau i reolau benthyca awdurdodau lleol wedi dechrau ysgogi adeiladu a chaffael tai cyngor, gyda'r niferoedd yn cynyddu o 69 i 393 rhwng 2015-16 a 2019-20. Mae gwaith wedi dechrau hefyd ar weithredu strategaeth dulliau adeiladu modern 2020.

Gan edrych ymlaen, mae rhoi hwb i dai cymdeithasol wedi dod yn flaenoriaeth uchel i Llywodraeth Cymru. Mae ei hamcangyfrif canolog o anghenion tai yn awgrymu y bydd angen tua 7,400 o unedau tai ychwanegol ar gyfer pob un o'r pum mlynedd o 2019/20 ymlaen, sy'n cynnwys 3,900 o dai fforddiadwy sy'n canolbwytio ar y farchnad a 3,500 o dai fforddiadwy, gan gynnwys rhent cymdeithasol a rhent canolradd.<sup>86</sup> Ar ben hynny, nid yw'r cynnydd diweddar yn nifer y cartrefi cymdeithasol sy'n cael eu rhentu wedi arwain at gynnnydd yn nifer y tai sy'n cael eu gosod i denantiaid newydd oherwydd y gostyngiad yn y trosiant, gyda'r tai cymdeithasol sy'n cael eu gosod wedi aros yn weddol sefydlog ers 2011-12, gydag oddeutu 16,600 yn cael eu gosod bob blwyddyn. Felly, ym mis Mehefin 2021, cadarnhaodd Llywodraeth newydd Cymru darged 5 mlynedd i ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel. Bydd y rhain yn cynnwys cartrefi sy'n cael eu rhentu gan landlordiaid cymdeithasol yn unig, gan gynnwys cartrefi cymdeithasol ar rent, tai canolradd ar rent ac anheddau rhanberchnogaeth.<sup>87</sup>

Fel y trafodir ymhellach ym Mhennod 4, roedd ALLau yn tueddu i briodoli anawsterau o ran cael gafael ar dai cymdeithasol ar gyfer aelwydydd digartref statudol i ddiffygion yn y cyflenwad, yn enwedig tai un ystafell wely, yn hytrach na pholisiau dyranu di-fudd neu eithriedig

ar ran landlordiaid cymdeithasol Cymru. Mae ystadegau swyddogol yn dangos bod o leiaf 22 y cant o'r holl dai cymdeithasol newydd sy'n cael eu gosod yng Nghymru (19 y cant o gartrefi cymdeithasau tai a 31 y cant o gartrefi awdurdodau lleol) yn 2018-19, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer, yn aelwydydd statudol ddigartref sydd ag angen blaenoriaethol. Fodd bynnag, beirniadodd nifer o hysbyswyr allweddol yr ystadegau hyn ar y sail nad oedd y sail dros eu llunio wedi cael ei diweddar i ystyried newidiadau yn y ddeddfwriaeth digartrefedd ar ôl pasio Deddf Tai (Cymru) 2014 (gweler Pennod 3):

**"Mae'r data dyraniadau presennol... yn cyfeirio at dai cymdeithasol sy'n cael eu gosod, ac yna tai gosod ar sail blaenoriaeth oherwydd digartrefedd. Does neb wir yn gwybod beth mae'r ail categori yn ei olygu, ac mae'n mynd yn ôl i 1996, gyda Deddf Tai '96, ac nid yw'r fetholeg wedi newid ers hynny. Yn amlwg, gyda Tai (Cymru).. Rydw i'n meddwl ei bod hi'n bwysig iawn alinio'r ddau beth hyn gyda'i gilydd... rydych chi'n edrych ar fwy na dyblu...cyfran y tai gosod sy'n cael eu gosod, naill ai i liniaru digartrefedd...neu i atal hynny o fewn 56 diwrnod, sydd wedyn yn creu darlun gwahanol iawn."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector annibynnol)

#### Amddiffyn rhag troi allan ac adfeddiannu

Mae'r cyfyngiadau symud cyntaf wedi arwain at ofnau yngylch colli swyddi'n eang, ôl-ddyledion, troi allan, a digartrefedd ac wedi arwain Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gymryd y cam digynsail o gyflwyno cymorth dros dro, ond

gorfodol, ar ran landlordiaid a benthycwyr.

Ym mis Mawrth 2020, cyflwynodd Llywodraeth y DU, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a benthycwyr morgeisi fesurau i helpu perchnogion tai a landlordiaid preifat i osgoi adfeddiannu. Roedd hyn yn cynnwys moratoriwm tri mis ar adfeddiannu, a gafodd ei ymestyn wedyn yng Nghymru tan 30 Mehefin 2021. Yn ogystal, roedd gan fenthycwyr hawl i wneud cais am ohiriad taliad morgais tri mis, er y byddai llog yn parhau i gronni. Ym mis Mehefin 2020, gallai benthycwyr wneud cais am ail ohiriad o dri mis ac ym mis Tachwedd cadarnhawyd y gallai benthycwyr wneud cais am doriad mewn taliadau hyd at fis Gorffennaf 2021 ar yr amod eu bod yn gwneud cais cyn mis Ebrill 2021 ac nad oedd cyfanswm eu gwyliau talu yn fwy na chwe mis. Yn 2020-21, roedd 64 o hawliadau yng Nghymru am adfeddiannu eiddo dan forgais o'i gymharu â 1,115 yn 2019-20. Dros yr un cyfnod, gostyngodd gorchmylion meddiannu o 789 i 21.<sup>88</sup>

I rentwyr, mae goddefgarwch wedi canolbwytio ar ohirio achosion cyfreithiol a chamau gorfodi. Ar ddechrau'r pandemig, cafodd achosion llys ar gyfer hysbysiadau a gyflwynwyd rhwng 27 Mawrth a 23 Gorffennaf 2020 eu hatal am 3 mis. O ganlyniad, cafodd achosion llys ar gyfer hysbysiadau a gyflwynwyd i denantiaid cymdeithasau tai a phreifat rhwng 24 Gorffennaf 2020 a 28 Medi 2020 eu hatal am 6 mis ar wahân i hysbysiadau sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) a oedd yn dal i fod yn destun gwaharddiad o 3 mis. Ers 29 Medi 2020, mae gan y rhan fwyaf o denantiaid cymdeithasol a phreifat hawl i 6 mis o rybudd cyn y gall eu landlord ddechrau achos llys ar gyfer eu troi allan, a bydd y ddarpariaeth hon yn awr yn rhedeg tan 30 Medi 2021. Y ddau brif eithriad

yw ar gyfer achosion sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a cham-drin domestig, lle mae'r sefyllfa'n berthnasol i'r gyfraith cyn darpariaethau pandemig yr argyfwng.

Roedd ataliad dros dro ar achosion llys ar gyfer meddiannu ar waith rhwng mis Mawrth 2020 a 20 Medi. Er bod achosion llys wedyn wedi cael eu hail-gychwyn ar gyfer achosion lle'r oedd y cyfnod rhybudd gofynnol wedi mynd heibio, ysgrifennodd yr Arglwydd Ganghellor at Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys yn annog pobl i beidio â chael eu troi allan a chyhoeddwyd canllawiau yn cadarnhau hyn i feiliod y llysoedd sirol. Ar 11 Rhagfyr 2020, cafodd troi allan drwy orfodaeth beiliad eu gohirio am fis, ond roedd estyniadau dilynol yn golygu mai dim ar ôl 30 Mehefin 2021 yr aildechreuodd troi allan o'r fath yng Nghymru (ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig, fel achosion sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a cham-drin domestig).


Mae Ffigur 2.5 yn dangos effaith ddramatig y mesurau hyn. Roedd cyfanswm yr hawliadau wedi disgyn o 1,339 yn chwarter cyntaf 2019 i lawr o 71 yn ail chwarter 2020. O'r 569 hawliad a gyhoeddwyd yn 2020-21, cafodd 231 eu cyhoeddi gan landlordiaid preifat a 109 gan landlordiaid cymdeithasol, a'r olaf i lawr o 2,301 yn 2019-20. Priodolwyd 229 o hawliadau pellach i'r "drefn gyflym", sy'n tueddu i gael ei defnyddio pan fydd prydlesi'n dod i ben a phan na ellir adnabod y math o landlord. Yn yr un modd, gostyngodd gorchmylion meddiannu o 2,860 yn 2019-20 i 282 yn 2020-21 tra gostyngodd gwarantau o 1,524 i 140.

Yn ddiddorol, nodwyd nad oedd y cyfyngiadau hyn ar droi tenantiaid allan wedi cael fawr o effaith ar ymddygiad tenantiaid:

86 Llywodraeth Cymru (2021) Amcangyfrif o'r Angen am Dai: seiliedig ar 2019. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/amcangyfrifon-or-angen-am-dai-sail-2019>

87 Llywodraeth Cymru (2021) Datganiad Ysgrifenedig: Tai Cymdeithasol yng Nghymru - Julie James AS, y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-tai-cymdeithasol-ying-nghymru>

**Ffigur 2.5: Hawliadau meddiant landlordiaid ar gyfer Cymru, o chwarter cyntaf 2019 i chwarter cyntaf 2021**



Ffynhonnell: Ministry of Justice, Mortgage and Landlord Possession Statistics Quarterly, Tabl 9.

Sylwch: Ffigurau dros dro yw ffigurau Ch1 2021

**"Credaf fod ofn mewn rhai cylchoedd ... [gyda] y cyfnod rhybudd estynedig, neu mewn rhai cyfnodau, ei bod mewn gwirionedd yn amhosibl i rywun gael ei droi allan oherwydd ôl-ddyledion rhent, y byddem yn gweld cydymffurfiad rhent is nag yr oeddem wedi'i weld. A dweud y gwir, doedden ni ddim yn gweld hynny o gwbl. Roedd hi'n amlwg bod rhai wedi wynebu anawsterau ariannol o ganlyniad i'r pandemig ac, felly, wedi cael problemau talu eu rhent, mae hynny i'w ddisgwyl, ond doedden ni ddim yn gweld**

**unrhyw nifer sylweddol o bobl yn chwarae'r system na dim byd felly."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector annibynnol)

Adeg ein gwaith maes, cafwyd cryn gyffro o ganlyniad i ymrwymiad cyn COVID-19 gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â sefydliadau cynrychioladol, i roi diwedd ar bob achos o droi allan i ddigartrefedd o dai cymdeithasol,<sup>89</sup> gyda Shelter Cymru yn cynhyrchu adroddiad wedi'i groesawu ar weithredu'r polisi hwn yn ymarferol.<sup>90</sup> Roedd profiadau yn ystod

COVID-19 hefyd fel petaent wedi rhoi hwb pellach i'r agenda hon:

**"Rydyn ni wedi bod yn cael sgyrsiau gwych gyda landlordiaid cymdeithasol ynghylch rhoi diwedd ar droi pobl allan i ddigartrefedd ac rydyn ni wedi gwneud cynydd gwych yn hynny o beth... Mae'n bwnc llosg sylweddol yng Nghymru... Wrth edrych ar ystadegau eiddo'r Weinyddiaeth Gyflawnnder cyn i COVID ddod, roedd gostyngiad mawr mewn camau meddiannu gan landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru - roedd yn enfawr, rhywbeth fel gostyngiad o 40 y cant dros gyfnod o flwyddyn."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

**"Rydyn ni'n gwneud llawer o waith... o ran goblygiadau ymarferol [rhoi terfyn ar droi pobl allan i ddigartrefedd] a sut rydyn ni'n ei gyflawni ar lawr gwlad. Mae popeth yn mynd yn dda iawn. Mae gennym nifer o gymdeithasau tai sydd... ar flaen y gad... y gostyngiad enfawr mewn troi allan a'r defnydd o hysbysiadau sy'n ceisio meddiant yr ydym wedi'u gweld dros y 15 mis diwethaf, sydd wir wedi rhoi gweledigaeth i bobl o beth, mewn gwirionedd, ydych chi'n gwybod beth? Mae'n debyg y gallwn ni wneud hyn."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector annibynnol)

Un pryder mawr yw'r posibilrwydd o gynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu troi allan pan ddaw'r mesurau atal dros dro i ben, yn enwedig gan fod ôl-ddyledion rhent blaenorol yn gallu bod yn rhwystr i gael gafael ar lety sefydlog:<sup>91</sup>

**"...mae ôl-ddyledion tenantiaid blaenorol yn ddrwm rydyn ni wedi bod yn ei daro ers blynnyddoedd gyda chanlyniadau amrywiol, ond mae'n wirioneddol .. Yn rhwystr sy'n cadw rhai pobl yn gaeth i lety dros dro. Os yw'n ddull cyffredinol, dydych chi ddim yn ystyried yr amgylchiadau lle caffodd yr ôl-ddyledion eu croni, gallu pobl i'w dalu'n ôl – y pethau hyn i gyd... Mae rhai o'r polisiau hynny heb gael eu diweddar ers blynnyddoedd lawer. Mae'n sicr yn amser edrych ar yr un yna."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

Yn ystod y pum mlynedd cyn 2017-18 yn gynhwysol, ar gyfartaedd roedd gan 2 y cant o denantiaid cymdeithasol yng Nghymru ôl-ddyledion rhent difrifol sy'n cyfateb i rent 13 wythnos neu fwy, sy'n cyfateb i tua 4,400 o denantiaid bob blwyddyn. Yn 2018-19, y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer, roedd gan 5,541 o denantiaid cymdeithasol ôl-ddyledion difrifol, gyda diwygiadau nawdd cymdeithasol a chyflwyno CC yn cael eu nodi fel gyrrwr allweddol.<sup>92</sup>

89 The Welsh Agenda (2019) *Ending Evictions into Homelessness in Wales*. 3 Rhagfyr Ar-lein: IWA <https://www.iwa.wales/agenda/2019/12/ending-evictions-into-homelessness-in-wales/>

90 Shelter Cymru (2021) *Working Together to End Homelessness from Social Housing*. Caerdydd: Shelter Cymru [https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/Working-together-to-end-homelessness-from-social-housing\\_Report-1.pdf](https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/Working-together-to-end-homelessness-from-social-housing_Report-1.pdf)

Mae JRF<sup>93</sup> a'r Resolution Foundation<sup>94</sup> ill dau yn dweud bod ôl-ddyledion ymisiad rhentwyr cymdeithasol a phreifat yn y DU wedi cynyddu ers dechrau'r pandemig. Ar sail arolwg ar-lein YouGov, amcangyfrifodd y Resolution Foundation fod gan 9 y cant o rentwyr cymdeithasol ôl-ddyledion ym mis Ionawr 2021, i fyny o 4 y cant cyn i'r argyfwng ddechrau. Yn yr un modd, roedd cyfran y rhentwyr preifat mewn ôl-ddyledion wedi dyblu i 6 y cant. Yn nes at adref, mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn amcangyfrif bod oddeutu 280,000 o bobl wedi croni dyled ers mis Mawrth 2020, gyda'r ffynonellau dyled mwyaf yn cynnwys rhent a'r dreth gyngor.<sup>95</sup> Mae Shelter Cymru hefyd yn amcangyfrif bod 78,000 o rentwyr preifat yn poeni y gallent golli eu cartref unwaith y bydd mesurau goddefgarwch yn dod i ben.<sup>96</sup>

#### **2.4 Mesurau sy'n ymwneud â ffyrlo a nawdd cymdeithasol**

Mae'r adran hon yn edrych ar y mesurau a gymerwyd i ddiogelu diogelwch ariannol aelwydydd yn ystod argyfwng COVID-19. Mae'n trafod cynllun ffyrlo Llywodraeth y DU a mesurau cysylltiedig, addasiadau dros dro i Gredyd Cynhwysol a'r Lwfans Tai Lleol (LHA), a mesurau penodol a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru.

#### **Cynlluniau Ffyrlo a Hunangyflogaeth**

Cyflwynwyd y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) ym mis Ebrill 2020 ac mae'n rhoi

grant i gyflogwyr dalu 80 y cant o'u cyflogau ar ffyrlo i hyd at £2,500 y mis. Mae'r CJRS wedi cael ei ymestyn sawl gwaith, er ei fod yn cynnwys amodau grant diwygiedig. O fis Gorffennaf 2020 ymlaen, roedd staff ar ffyrlo yn cael gweithio'n rhan amser ac o fis Awst ymlaen, roedd yn rhaid i gyflogwyr dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiwn y cyflogwr ar gyfer staff ar ffyrlo. Bydd y CJRS yn cael ei ddirwyn i ben erbyn 30 Medi 2021, a fydd yn golygu bod y gyfradd grant yn gostwng o 75 y cant i 70 y cant o'r cyflogau ym mis Gorffennaf a 60 y cant ym mis Awst, gyda gofyn i gyflogwyr ychwanegu at y 10-20 y cant arall.

Roedd y CJRS wedi cefnogi cyfanswm cronus o 11.5 miliwn o swyddi gweithwyr, gan gynnwys 468,100 o swyddi yng Nghymru erbyn mis Mai 2021, ar gost o £64 biliwn.<sup>97</sup> Mae nifer y swyddi ar ffyrlo yng Nghymru wedi amrywio wrth i gyfyngiadau COVID-19 lacio a thynhau, gan gyrraedd uchafbwynt o 247,300 o swyddi ddechrau mis Gorffennaf, sy'n cyfateb i 20 y cant o'r holl swyddi sy'n gymwys o ran Talu Wrth Ennill. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod 131,900 o swyddi yng Nghymru yn dal ar ffyrlo ar 30 Ebrill. Mae pryderon bod gweithwyr iau, gweithwyr â thâl is a gweithwyr rhan amser ar ffyrlo yn wynebu'r perygl mwyaf o ddod yn ddi-waith ar ôl i'r CJRS ddod i ben.<sup>98</sup>

Mae'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEWISS) wedi cyd-

fynd â'r Cynllun hwn ar gyfer unig fasnachwyr sydd â busnes sefydledig ac elw blynnyddol o lai na £50,000. Mae'n darparu grant trethadwy, gyda thri o'r pum cyfran grant yn cael eu talu yn 2020-21 ar gost gros o £19.7 biliwn. Hawliodd dros 110,000 o bobl yng Nghymru grant SEISS 1 ond mae nifer y bobl wedi gostwng gyda phob cyfran ddilynol.<sup>99</sup> Ym mis Mai 2020, mae tua 66,000 o bobl wedi hawlio grant SEISS 4 ac roedd 32 y cant o'r rheini yn gweithio ym maes adeiladu.<sup>100</sup>

Mae'r ddua gynllun wedi cadw swyddi ac incwm. Fodd bynnag, cafwyd beirniadaeth mai dim ond ar ôl cadarnhau ail gyfyngiadau symud yn Lloegr y cadarnhawyd estyniad i CRJS yn hwyr ym mis Hydref, ac nid pan gadarnhawyd y cyfnod atal byr yng Nghymru. Hefyd, mae'r methiant i addasu'r cynlluniau i dargedu'n well y rhai sy'n ennill llai o incwm wedi cael ei feirniadu. Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn amcangyfrif bod 2.1 miliwn o oedolion hunangyflogedig yn y DU wedi colli incwm,<sup>101</sup> ond effalai fod hyd at 1.5 miliwn ohonynt wedi bod yn anghymwys ar gyfer SEISS.<sup>102</sup>

Er hynny i gyd, dywedodd bron pob Awdurdod Lleol yng Nghymru (19 allan o 22) fod y cynllun ffyrlo wedi bod yn bwysig o ran helpu i leihau effaith COVID-19 ar ddigartrefedd (Gweler Tabl A.7). Nodwyd bod dod â'r cynllun hwn i ben ym mis Medi 2021 hefyd yn risg fawr o ran ôl-ddyledion rhent:

#### **"Rwy'n credu mai diweddu y cynllun ffyrlo, fydd ym mis Medi nawr rwy'n meddwl, yw'r pryer mwyaf**

**i ni, a hynny o grym dipyn."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector annibynnol)

#### **Credyd Cynhwysol**

Credyd Cynhwysol yw'r prif opsiwn erbyn hyn i bobl o oedran gweithio sy'n gwneud cais newydd am gymorth ariannol ar sail prawf modd ac mae wedi bod yn brif rwyd ddiogelwch i bobl sydd wedi colli eu swyddi neu sydd wedi cael gostyngiad mewn enillion ers i'r argyfwng ddechrau. Mae Ffigur 2.6 yn dangos bod nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yng Nghymru wedi cynyddu ym mis Mawrth-Mehefin 2020. Er bod cyfradd y twf wedi arafu wedyn, ym mis Ebrill 2021, roedd tua 279,134 o bobl yn hawlio Credyd Cynhwysol, 85 y cant yn uwch nag ym mis Chwefror 2020, pan oedd 150,527 o bobl yn hawlio Credyd Cynhwysol.

Bu rhai newidiadau yng nghyfansoddiad hawlwr CC ers dechrau'r argyfwng. Rhwng mis Chwefror a mis Rhagfyr 2020, bu cynnydd o 112 y cant yn nifer y bobl mewn gwaith ond yn hawlio Credyd Cynhwysol ledled Cymru, tra bu cynnydd o 69 y cant yn y dosbarth 'di-waith' yn yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r cynnydd mwy amlwg yn nifer y bobl mewn gwaith sy'n hawlio Credyd Cynhwysol wedi cael ei sbarduno gan ostyngiad yn enillion pobl, boed ar ffyrlo ai peidio, a newidiadau dros dro i Gredyd Cynhwysol sydd wedi ymestyn yr hawl i Gredyd Cynhwysol ymhellach i fyny'r raddfa enillion. Mae'r rhain yn cynnwys y codiad wythnosol o £20, y cynnydd yn y Lwfans Tai Lleol

93 Baxter, D., Casey, R. & Earwaker, R. (2020) *Struggling Renters need a Lifeline this Winter: A briefing*. 16 Tachwedd Ar-lein: Sefydliad Joseph Rowntree <https://www.jrf.org.uk/report/struggling-renters-need-lifeline-winter>

94 Judge, L. (2021) *Getting Ahead on Falling Behind: Tackling the UK's Building Arrears Crisis*. London: Resolution Foundation. <https://www.resolutionfoundation.org/app/uploads/2021/02/Getting-ahead-on-falling-behind.pdf>


95 Citizens Advice Cymru (2020) *Coronavirus Debts: Estimating the Size of Lockdown Arrears in Wales*. Caerdydd: Cyngor ar Bopeth <https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/Wales/Coronavirus-Debt-Wales.pdf>

96 Thomas, N. (2021) *People Renting Homes in Wales Face Crisis as Eviction Ban End Looms*. 5 Mehefin. Ar-lein: The National. <https://www.thenational.wales/news/19350826.people-renting-homes-wales-face-crisis-eviction-ban-end-looms/>

97 HM Revenue and Customs (2021) *Coronavirus Job Retention Scheme Statistics: 3 Mehefin 2021*. Ar-lein: HMRC. <https://www.gov.uk/government/statistics/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-3-june-2021>

98 Resolution Foundation (2021) *Labour Market Outlook Q2 2021*. London: Resolution Foundation. <https://www.resolutionfoundation.org/app/uploads/2021/06/Labour-Market-Outlook-Q2-2021.pdf>

**Ffigur 2.6: Nifer yr hawlwyd Credyd Cynhwysol yng Nghymru yn ôl statws cyflogaeth rhwng mis Chwefror 2020 a mis Ebrill 2021**



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau Stat-Xplore, Tablau Credyd Cynhwysol

a gohirio'r lsafswm Llawr Incwm ar gyfer pobl hunangflogedig. Yn ôl y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, roedd y mesurau hyn wedi rhoi hwb o £8.3 biliwn i incwm aelwydydd y DU yn 2020-21.<sup>103</sup>

Mae data'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Cymru yn dangos bod y rhan fwyaf o hawlidiadau newydd wedi dod gan bobl sengl ers dechrau'r pandemig, ond mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer yr

aelwydydd cwpl sydd â phlant neu heb blant. Nid oedd gan dros hanner yr hawlidiadau newydd hawl i gael tŷ chwaith. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â chanfyddiadau prosiect *Welfare at a (Social) Distance* ledled Prydain.<sup>104</sup> O'i gymharu â phobl sydd eisoes yn hawlio Credyd Cynhwysol cyn yr argyfwng, canfu fod hawlwyd newydd yn fwy tebygol o fod yn berchnogion tai, yn iau (dan 40), yn meddu ar sgiliau uwch ac wedi eu haddysgu'n well.<sup>105</sup>

103 Office for Budget Responsibility (2020) *Economic and Fiscal Outlook: Tachwedd 2020*. London: Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. <https://obr.uk/efo/economic-and-fiscal-outlook-november-2020/>

104 Ingold, J., Scullion, L. et al (2021) *Public Accounts Select Committee inquiry: DWP Employment Support - Written Evidence from the Welfare at a (Social) Distance research project*. Manceinion: Prifysgol Salford. <https://committees.parliament.uk/writtenevidence/19002/pdf/>

105 Gweler hefyd: Summers, K., Scullion, L., Baumberg Geiger, B., Robertshaw, D., Edmiston, D., Gibbons, A., Karagiannaki, E., De Vries, R. & Ingold, J. (2021) *Claimants' Experiences of the Social Security System During the First Wave of COVID-19*. Salford: Prifysgol Salford. Welfare at a (Social) Distance Project <https://www.distantwelfare.co.uk/winter-report>

Roedd y cynnydd mewn hawlidiadau Credyd Cynhwysol a budd-daliadau eraill wedi rhoi pwysau gweithredol enfawr ar yr Adran Gwaith a Phensiynau, gyda bron i 10,000 o staff yn cael eu hadleoli o'r Adran Gwaith a Phensiynau neu o adrannau eraill y Llywodraeth i helpu i brosesu hawlidiadau. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cael canmoliaeth am ei hymateb prydlon, a welodd 96 y cant o hawlidiadau Credyd Cynhwysol newydd ym mis Ebrill 2020 yn cael eu taliad cyntaf llawn mewn pryd.<sup>106</sup> Mae'n ymddangos bod y newid i ddull 'peidiwch â'n ffonio ni, byddwn yn eich ffonio chi' hefyd wedi gwella profiad llawer o ymgeiswyr UC.<sup>107</sup> Ar y llaw arall, mae'n ymddangos hefyd bod y nifer nad ydynt yn manteisio ar fudd-daliadau nawdd cymdeithasol wedi cynyddu yn ystod yr argyfwng, sydd wedi cyfrannu at aelwydydd yn mynd ar ei hôl hi gyda'u taliadau tai a biliau eraill.<sup>108</sup>

#### Addasu cyfraddau budd-daliadau

Mae atodiad wythnosol £20 Llywodraeth y DU i Gredyd Credyd Cynhwysol a Chredydau Treth Gwaith ar gyfer 2020-21 yn costio tua £6.1 biliwn<sup>109</sup> ac mae bellach wedi ymestyn i fis Medi 2021. Mae'r cynnydd hwn wedi lleihau caledi ariannol i lawer o bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol.<sup>110</sup>

106 Mackley, A. (2021) *Coronavirus: Universal Credit During the Crisis: Briefing paper 8999*. London: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. <https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-8999/CBP-8999.pdf>

107 Wilson, H. & Finch, D. (2021) *Unemployment and Mental Health - Why both require action for our COVID-19 Recovery*. London: Y Sefydliad Iechyd. <https://www.health.org.uk/publications/long-reads/unemployment-and-mental-health>

108 Baumberg, B., Scullion, L., Summers, K., Martin, P., Lawler, C., Edmiston, D., Gibbons, A., Ingold, J., Robertshaw D., & de Vries, R. (2021) *Non-take-up of Benefits at the Start of the COVID-19 Pandemic*. Salford: Prifysgol Salford. Welfare at a (Social) Distance Project. <https://www.distantwelfare.co.uk/take-up>

109 Office for Budget Responsibility (2020) *Economic and Fiscal Outlook: Tachwedd 2020*. London: Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. <https://obr.uk/efo/economic-and-fiscal-outlook-november-2020/>

110 Weekes, T., Spoor, E., & Weal, R. (2021) *Dignity or Destitution? The Case for Keeping the Universal Credit Lifeline*. London: The Trussell Trust. <https://www.trusselltrust.org/wp-content/uploads/sites/2/2021/02/dignity-or-destitution-UC-standard-allowance-report-final.pdf>

111 All-Party Parliamentary Group on Poverty (2021) *The Impact on Poverty of not Maintaining the £20 Uplift in Universal Credit and Working Tax Credits, and of not Extending the Uplift to Legacy and Related Benefits*. London: All-Party Parliamentary Group on Poverty. <http://www.appgo poverty.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/APPG-on-Poverty-20-uplift-report-FINAL.docx.pdf>

112 House of Lords Economic Affairs Committee (2020) *Universal Credit isn't Working: Proposals for reform*. London: Tŷ'r Arglywyddi. <https://publications.parliament.uk/pa/ld5801/ldselect/ldeconaf/105/105.pdf>

113 Collins, E. & Bristow, D. (2020) *Administering Social Security in Wales: Evidence on Potential Reforms*. Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2020/01/200110-Administering-social-security-in-Wales-evidence-on-potential-reforms.pdf>

114 Bevan Foundation (2020) *A Welsh Benefits System: How it can help solve poverty*. Ar-lein: Sefydliad Bevan Merthyr Tudful. <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2020/09/Welsh-Benefits-System-Final-Report-1.pdf>

Fodd bynnag, ni chafodd llawer o ofalwyr, pobl anabl, rhieni sengl, ac eraill sy'n parhau i dderbyn budd-daliadau cyfrannol a budd-daliadau gwaddol yr ychwanegiad hwn nac unrhyw gymorth ariannol ychwanegol arall i ymdopi â chostau byw cynyddol drwy'r argyfwng. Galwodd y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Dlodi am ymestyn y codiad o £20 i'r holl fudd-daliadau gwaddol yng Nghyllideb mis Mawrth, ond ni ddigwyddodd hyn.<sup>111</sup>

Yn fwy cyffredinol, mae'r codiad o £20 wedi tynnu sylw at y cyfraddau isel o fudd-daliadau newydd i bobl o oedran gweithio o'i gymharu â llawer o Ewrop, gan arwain at alw ar Lywodraeth y DU i greu system nawdd cymdeithasol decach a mwy cydlynol.<sup>112</sup> Mae galw cynyddol hefyd am ddatganoli rhannau o'r system nawdd cymdeithasol i Gymru.<sup>113</sup> Hefyd, mae Sefydliad Bevan wedi cynnig 'System Budd i Gymru' i weithredu ochr yn ochr â'r system nawdd cymdeithasol.<sup>114</sup> Yn y bôn, byddai hyn yn dod ag ystod o gymorth ariannol ac ymarferol a weinyddir gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol at ei gilydd i ddarparu un pwynt mynediad i bobl ar incwm isel.

Yn y cyfnod cyn etholiad Senedd Cymru ar 6 Mai 2021, rhybuddiod Lywodraeth Cymru nad y pandemig

oedd yr adeg iawn efallai i edrych ar newidiadau tymor hir i nawdd cymdeithasol.<sup>115</sup> Felly, fe wnaeth Llywodraeth Cymru synnu rhai pan gyhoeddodd yn fuan ar ôl yr etholiad ei bod am dreialu Incwm Sylfaenol Cyffredinol. Mae manylion yngylch beth allai hyn ei olygu yn annelwig, ond awgrymwyd y gallai ganolbwytio ar grŵp bychan, wedi'i dargeddu, fel pobl ifanc sy'n gadael gofal.<sup>116</sup>

### Sancsiynau a didynnu budd-daliadau

Cafodd sancsiynau budd-daliadau ac ymrwymiadau hawlwyd ar gyfer pobl sy'n gwneud hawliad newydd eu hatal dros dro yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf. Ers mis Gorffennaf, pan ddechreudd y moratoriwm gael ei ddiddymu'n raddol, mae nifer y penderfyniadau yngylch sancsiynau CC wedi cynyddu. Fodd bynnag, maent yn dal yn isel, yn bennaf oherwydd bod yn rhaid i bobl gael ymrwymiad gan hawlydd sydd wedi cael ei roi ar waith neu ei ddiwygio ers mis Mawrth 2020 cyn y gellir gosod sancsiwn. Ym mis Ionawr 2021, roedd yna 489 o benderfyniadau i wahardd pobl rhag hawlio Credyd Cynhwysol (gwasanaeth llawn) ym Mhrydain, i lawr o 18,466 ym mis Ionawr 2020.<sup>117</sup> Nid oedd y moratoriwm yn berthnasol i bobl yr oedd eu budd-daliadau eisoes wedi cael eu sancsiynu cyn y cyfyngiadau symud. O ganlyniad, roedd tua 2,700 o'r 4,038 o bobl a oedd yn hawlio Credyd Cynhwysol (Gwasanaeth Llawn) a oedd wedi cael ei sancsiynu ym mis Ionawr wedi gweld gostyngiad yn eu budd-daliadau drwy gydol yr argyfwng.<sup>118</sup>

<sup>115</sup> Johnson, H. (2020) *A oes angen i Gymru fod â mwy o reolaeth dros y system fudd-daliadau?* 11 Medi. Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru. <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/a-oes-angen-i-gymru-fod-a-mwy-o-reolaeth-dros-y-system-fudd-daliadau/>

<sup>116</sup> Thomas, G., Morgan L. & Worthington, P. (2021) *What Might a Universal Basic Income mean for Wales?* 17 Mehefin. Ar-lein: Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru, <https://research.senedd.wales/research-articles/what-might-a-universal-basic-income-mean-for-wales/>

<sup>117</sup> Department for Work and Pensions (2021) *Benefit Sanctions Statistics*. London: DWP. <https://www.gov.uk/government/collections/jobseekers-allocation-sanctions>

<sup>118</sup> Webster, D. (2021) *Child Poverty Action Group Briefing - Benefit Sanctions Statistics May 2021*. Glasgow: Glows University. <http://www.cpag.org.uk/david-webster>

<sup>119</sup> Fitzpatrick, S., Bramley, G., Blenkinsopp, J., Wood, J., Sosenko, F., Littlewood, M., Johnsen, S., Watts, B., Treanor, M. & McIntyre, J. (2020) *Destitution in the UK 2020*. York: Sefydliad Joseph Rowntree. <https://www.jrf.org.uk/report/destitution-uk-2020>


Cafodd didyniadau uniongyrchol ar gyfer gordaliadau budd-daliadau a dyledion trydydd parti eu hatal dros dro am gyfnod byr ar ddechrau'r argyfwng ond nid oedd hyn yn cynnwys didyniadau ar gyfer taliadau ymlaen llaw i dalu'r isafswm o bum wythnos o aros am y taliad Credyd Cynhwysol cyntaf er bod y didyniadau hyn yn gallu bod yn un o'r prif bethau sy'n sbarduno amddifadedd.<sup>119</sup> O fis Ebrill 2021 ymlaen, fodd bynnag, cafodd y cyfnod ar gyfer adfer blaendaliadau Credyd Cynhwysol ei gynyddu o 12 i 24 mis a chaffod y gyfradd uchaf o ddidyniadau ei gostwng o 30 y cant i 25 y cant o lwfans safonol y Credyd Cynhwysol.

### Lwfans Tai Lleol a'r Cap Budd-dal

Mae'r Lwfans Tai Lleol yn gosod terfyn ar y rhent a ddefnyddir i gyfrifo cymorth tai ar sail prawf modd ar gyfer tenantiaid yn y sector preifat. Cafodd cyfraddau LHA eu gostwng o 50 y cant i 30 y cant o'r rhent canolrifol ar gyfer ardal ddaearyddol benodol yn 2011 ac yna eu cyfyngu i gynnydd blynnyddol o 1 y cant tan 2016-17, pan gafodd y cyfraddau eu rhewi am bedair blynnydd. Cafodd cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol ar gyfer 2020-21 eu hailosod i 30ain canradd rhenti'r farchnad ar gyfer pob ardal benodol, ond maent eto wedi cael eu rhewi ar y gyfradd hon ar gyfer 2021-22.

Bydd y rhewi diweddaraf hwn yn ehangu'r bwlc rhwng y rhent sy'n daladwy a'r rhent sy'n cael ei asesu ar gyfer hawl i fudd-daliadau ac yn cynyddu nifer y rhentwyr preifat sy'n cael trafferth talu eu rhent, sy'n wynebu ôl-ddyledion ac sydd mewn

**Ffigur 2.7: Aelwydydd sy'n destun y Cap Budd-daliadau yng Nghymru, Ionawr 2020 i Chwefror 2021**



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Data pwynt mewn amser cap budd-daliadau Stats-Xplore, cyrchiwyd Mehefin 2021

cerygl o fod yn ddigartref. Gallai'r broblem fod yn ddifrifol iawn i bobl sengl dan 35 oed sydd ond yn gallu hawlio'r Lwfans Tai Lleol am lety a rennir, gyda Sefydliad Bevan yn awgrymu y gallent wynebu diffyg o hyd at £7 yr wythnos os yw eu rhent oddeutu y 30ain canradd.<sup>120</sup>

Pryder cysylltiedig yw sut mae'r ychwanegiad o £20 a'r ychwanegiad i'r Lwfans Tai Lleol yn rhwngweithio â chyfanswm y cap ar fudd-daliadau sy'n cyfyngu ar y taliadau budd-dal y gall aelwydydd oed gweithio y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn eu dosbarthu fel rhai "di-waith" eu cael. Fel y dangosir yn ffigur 2.7, roedd tua 3,400 o aelwydydd yng Nghymru yn destun y cap budd-daliadau cyn mis Ebrill 2020. Cynyddodd y niferoedd i 5,040

ym mis Ebrill pan ddaeth y ddau fesur hyn i rym ac yna amrywiodd rhwng 5,400 a 5,500 tan ddiweddu y flwyddyn. Yna, neidiodd i tua 6,000 yn ystod dau fis cyntaf 2021, sef pan ddaeth pobl a oedd wedi bod yn gweithio cyn hawlio Credyd Cynhwysol ar ddechrau'r argyfwng yn destun y cap budd-daliadau.

### Taliadau Tai Dewisol

Cyflwynwyd Taliadau Tai Dewisol (DHP) yn 2001, a dyma'r prif gyfrwng i helpu pobl sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u costau tai ac i liniaru'r toriadau i Fudd-dal Tai ac elfen tai CC. Mae'r Senedd<sup>121</sup> wedi galw am ddatganoli DHP, ond am nawr mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn parhau i bennu'r rheolau a'r rheoliadau sy'n rheoli DHP yng Nghymru a Lloegr, sy'n

<sup>120</sup> Kocan, H. (2021) *The freeze in local housing allowance could increase homelessness in Wales*. 12 Mai. Ar-lein: Sefydliad Bevan. <https://www.bevanfoundation.org/views/housing-allowance-homelessness/>

<sup>121</sup> Senedd Cymru (2019) *Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld12832/cr-ld12832%20-w.pdf>

cael eu gweinyddu drwy awdurdodau lleol.

£139.5 miliwn oedd y cyllid DHP ar gyfer Cymru a Lloegr ar gyfer 2019-20. Cynyddodd hyn i £179.5 miliwn yn 2020-21, a dyrannwyd £8.3 miliwn ohono i Gymru. Dywedodd canllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau bod y £40 miliwn ychwanegol ar gyfer adlewyrchu pwysau fforddiadwyedd yn y sector rhentu preifat ond ni chyfeiriodd at yr argyfwng.<sup>122</sup> Mae diffyg cynnydd penodol yn y cyllid ar gyfer COVID-19 wedi cael ei ategu gan feirniadaeth<sup>123</sup> o gyngor Llywodraeth y DU y dylid annog landlordiaid a thenantiaid i gytuno ar gynlluniau ad-dalu ac y dylid gofyn i landlordiaid drosglwyddo unrhyw 'wyliau' morgais i denantiaid ar ffurf lleihau rhent neu wyliau.<sup>124</sup>

Gostyngodd cyllideb DHP ar gyfer 2021-22 i £140 miliwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn darparu £4.1 miliwn o gyllid i awdurdodau lleol i helpu i ddiwallu anghenion heb eu diwallu ac atal digartrefedd.<sup>125</sup> Er hynny, mae'r gyllideb DHP yn ymddangos yn is o lawer na'r hyn sy'n ofynnol, ac mae JRF yn awgrymu bod angen o leiaf £400 miliwn ar gyfer Cymru a Lloegr.<sup>126</sup> Mae dosbarthu a gweinyddu DHP yng Nghymru a Lloegr hefyd wedi

cael ei ddisgrifio fel 'loteri cod post', gyda mynediad yn tueddu i ddibynnu ar yr ardal lle mae person yn byw yn hytrach na'i amgylchiadau personol.<sup>127</sup>

### Cronfa Cymorth Dewisol

Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn cynnig Taliadau Cymorth Brys i bobl sy'n wynebu argyfwng ariannol a Thaliadau Cymorth Unigol i helpu pobl i fyw'n annibynnol. Yn ogystal â chynnyddu cyllideb y Gronfa Cymorth Dewisol, fe wnaeth Llywodraeth Cymru lacio'r rheolau i'w gwneud hi'n haws i bobl sy'n wynebu caledi o ganlyniad uniongyrchol i argyfwng COVID-19 wneud cais. Yn fwyaf arwyddocaol, roedd pobl yn cael gwneud hyd at bum cais mewn cyfnod o 12 mis, i fyny o dri. Rhwng 18 Mawrth 2020 a 20 Mai 2021, roedd bron i 209,000 o Daliadau Cymorth Brys cysylltiedig â COVID-19, a oedd yn dod i gyfanswm o £13.94 miliwn, wedi cael eu gwneud. Roedd hyn yn cymharu â 45,291 o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng 'arferol' am gyfanswm cost o tua £2.9 miliwn ar gyfer yr un cyfnod.<sup>128</sup> Mae Sefydliad Bevan wedi cynnig disodli'r Gronfa Cymorth Dewisol â Chronfa Argyfwng Cymru sy'n seiliedig ar hawliau a fyddai'n gwarantu grant ariannol iaelwyd y mae eu hincwm yn disgyn yn annisgwyl i lefelau sy'n is

na CC ac nad oes ganddynt ddigon o gynillion.<sup>129</sup>

### Cymorth ariannol arall yng Nghymru

Yn dilyn diddymu Budd-dal y Dreth Gyngor, sefydlwyd Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer Cymru gyfan yn 2013-14. Darparodd gymorth ariannol i 275,000 o aelwyd yd yn 2019-20, gan gynnwys 217,000 nad oeddent yn talu treth gyngor, ar gost o tua £272 miliwn.<sup>130</sup> Roedd tua 85 y cant o'r rheini a oedd yn hawlio Gostyngiad yn y Dreth Gyngor yn byw mewn annedd ym Mandiau A-C ac roedd 22 y cant hefyd yn hawlio Credyd Cynhwysol, er y bydd y gyfran hon wedi cynyddu'n sylweddol ers hynny.

Ers dechrau'r argyfwng, mae Cyngor Ar Bopeth Cymru wedi amcangyfrif bod 64,000 o aelwyd yd wedi wynebu ôl-ddyledion treth gyngor.<sup>131</sup> Ategir hyn gan ganfyddiadau interim o astudiaeth sy'n olrhain effaith COVID-19 ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.<sup>132</sup> Gallai hyn roi hwb pellach i'r Gweithgor Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol, sydd ar hyn o bryd yn archwilio sut y gellid gwneud treth eiddo lleol yn decach, yn fwy blaengar ac yn symmach i'w gweinyddu a gwneud cais amdani.

Sefydliwyd Cynllun Benthyciadau Arbedion Tenantiaid gwerth £8 miliwn Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2020 ac fe'i gweinyddwyd gan Undebau Credyd. Cynigiodd fenthyciadau i denantiaid preifat, a oedd yn cael eu talu'n uniongyrchol i

landlordiaid i dalu am neu i leihau ôl-ddyledion rhent a thrwy hynny leihau'r risg o gael eu troi allan. Mae hwn yn gynllun a fwriedir i helpu tenantiaid a oedd wedi profi newid dros dro yn eu hincwm oherwydd COVID-19, ac nad oeddent yn cael budd-daliadau tai, a barnwyd bod y cynllun hwn yn llawn bwriadau da ond yn anghyson ag anghenion pobl:

**"...roedd hynny'n gwneud y cymhwysedd yn gyfyngedig eithriadol oherwydd na allech chi fod ar unrhyw fudd-daliadau i wneud cais... Felly rydych chi'n edrych ar garfan wirioneddol fychan o bobl, onid ydych, a oedd ag ôl-ddyledion rhent difrifol o ganlyniad i COVID ond nad ydynt yn hawlio unrhyw fudd-daliadau! Mae hynny'n gyfran fach iawn o bobl."**

(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

Rhwng mis Hydref 2020 a mis Ebrill 2021, cyfanswm y benthyciadau cymeradwy oedd 41. Ym mis Mehefin 2021, disodlwyd y Cynllun hwn gan y Cynllun Grant Caledi i Denantiaid.<sup>133</sup> Er y gallai cynnig grantiau yn hytrach na benthyciadau ad-daladwy wneud y cynllun newydd ychydig yn fwy deniadol na'i ragflaenydd, efallai y bydd cyfyngu'r mein prawf cymhwysedd yn dal i gyfyngu ar ei effaith.

Darparwyd cyllid hefyd i Gyngor Ar Bopeth Cymru i gyflwyno Cynllun Rhybudd Cynnar i rentwyr preifat i'w cefnogi i reoli ôl-ddyledion rhent a

122 Department for Work and Pensions (2020) *Guidance: S2/2020: 2020-21 Discretionary Housing Payments Government Contribution for English and Welsh Local Authorities, Updated 26 November 2020*. London: DWP. <https://www.gov.uk/government/publications/housing-benefit-subsidy-circulars-2020/s22020-2020-21-discretionary-housing-payments-government-contribution-for-english-and-welsh-local-authorities>

123 Gweler er enghraift, llythyr at Robert Jenrick o London Renters' Union, 31 Mawrth 2020. <https://twitter.com/LDNRentersUnion/status/1244921356334108672/photo/1>

124 Ministry for Housing, Communities and Local Government (2020) *Press Release: Complete Ban on Evictions and Additional Protection for Renters* (18 March). London: MHCLG; gweler hefyd UK Finance (2020) *Support for Commercial Landlords*. London: UK Finance and Welsh Government (2020) *Coronavirus (COVID-19): Guidance for Landlords and Managing Agents in the Private Rented Sector – March 2020*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.


125 The Guardian (2021) *Cut of £40m in help for tenants will 'drive up homelessness'*. 6 Mehefin. Ar-lein: The Guardian. <https://www.theguardian.com/money/2021/jun/06/cut-of-40m-in-help-for-tenants-will-drive-up-homelessness>

126 Joseph Rowntree Foundation (2021) *JRF Spring Budget 2021 Analysis*. York: JRF. <https://www.jrf.org.uk/report/jrf-spring-budget-2021-analysis>

127 Wilson, W. (2020) *Discretionary Housing Payments: Briefing Paper*, 6899. London: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. <https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN06899/SN06899.pdf>

128 Welsh Government (2021) *Data cryno am coronafeirws (COVID-19) a'r ymateb iddo*: 26 Mai 2021. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/data-cryno-am-coronafeirws-covid-19-ar-ymateb-iddo-26-mai-2021-html>

**Figur 2.8: Pwysigrwydd tybiedig newidiadau i fudd-daliadau lles wedi'u cymell gan y pandemig wrth atal neu leihau digartrefedd (nifer yr awdurdodau lleol)**



Ffynhonnell: Arolwg yr awduron

dyledion cartref eraill, gan gynnwys sefydlu cynlluniau ad-dalu fforddiadwy gyda'u landlord neu asiant gosod.

#### Barn awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol am fesurau lles sydd wedi'u hanelu at liniaru effeithiau'r pandemig

Fel y mae Ffigur 2.8 yn dangos, roedd yr holl newidiadau i fudd-daliadau lles a nodwyd yn cael eu hystyried yn bwysig yn gyffredinol gan awdurdodau lleol wrth helpu i gyfyngu ar ganlyniadau digartrefedd y pandemig yn eu hardal.

Roedd hyn yn arbennig o wir am DHP a chronfeydd Cymorth Dewisol, gyda 15 ac 14 o'r 22 ALL yn ôl eu trefn yn ystyried y gwelliannau hyn yn 'bwysig iawn' i ymdrechion i leihau digartrefedd. Roedd y cynnydd mewn CC bron yr un mor debygol o gael ei ystyried yn bwysig i liniaru digartrefedd gan Awdurdodau Lleol Cymru, yn ogystal ag atal sancsiynau a didyniadau budd-daliadau. Ar ben arall y sbectwm, cafwyd ymateb llawer mwy amwys i oedi cyflwyno CC, gyda bron i hanner cynghorau Cymru yn dweud nad oeddent yn gwybod a oedd hyn wedi gwneud gwahaniaeth i lefelau digartrefedd yn eu hardal.

Yn ddiddorol, dim ond 10 awdurdod lleol yng Nghymru oedd yn ystyried bod codi uchafswm yr awdurdod tai lleol i'r 30ain canradd yn 'bwysig iawn' i liniaru effeithiau COVID-19 ar ddigartrefedd yn eu hardal (gweler Pennod 5). Yn gwbl groes i hynny, roedd rhai hysbyswyr allweddol wedi rhoi'r mesur hwn ar frig eu rhestr, ochr yn ochr â'r codiad mewn Credyd Cynhwysol. Mae'n ymddangos bod yr esboniad am y gwahaniaeth ymddangosiadol hwn yn y safbwytiau i'w weld yn effeithiau anghyfartal daearyddol gwelliant yr LHA:

**"Wel, roedd pawb yn teimlo'n gyffrous iawn am ddychwelyd i'r 30ain canradd gyda'r LHA...ac mae wedi gwneud gwahaniaeth i rai pobl, ond mae wedi bod yn eithaf ymylol mewn rhannau eraill o Gymru. Roedd croeso mawr i'r arian ychwanegol i Gredyd Cynhwysol a...fe allech chi weld hynny'n gwneud gwahaniaeth i bobl."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

Mae ymatebion penagored gan awdurdodau lleol yn ein harolwg yn cadarnhau'r dehongliad hwn, gyda llawer o gynghorau'n nodi bod y newid yn lefel yr awdurdodau tai lleol yn rhy fach i gael effaith sylweddol yn eu hardal:

**"Mae rhenti'r farchnad yn yr ardal yn llawer mwy na chyfraddau'r LHA felly nid yw cynnydd bychan wedi dileu'r problemau yngylch argaeedd tai fforddiadwy."**  
(Awdurdod Lleol Trefol)

**"Er bod codi'r LHA i'r 30ain canradd yn cyfrannu rhywfaint at helpu pobl o ran PRS, mae'n dal yn bell iawn o fodloni rhent y farchnad ac mae angen i ni fynd ymhellach os ydym am ddefnyddio'r PRS i'r eithaf."**  
(Awdurdod Lleol arall)

#### 2.5 Pwyntiau allweddol

- Yn y degawd cyn i argyfwng COVID-19 daro, mae'r bwlc rhwng cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru a gweddill y DU wedi lleihau, ond roedd safonau byw yn cael eu gwasgu gan dwf cyflog gwan, diwygiadau nawdd cymdeithasol a thwf mathau o waith â chyflogau is ac ansafonol.
- Yn ystod y degawd hefyd gwelwyd cynnydd yn y duedd i leihau tlodi a thodi mewn gwaith, sy'n golygu bod y mwyafrif helaeth o oedolion oed gweithio a phlant mewn tlodi AHC ar drothwy argyfwng COVID-19 yn byw mewn aelwydydd lle'r oedd un neu fwy o oedolion mewn gwaith cyflogedig.
- Mae cynlluniau ffyrlo a hunangyflogaeth cysylltiedig Llywodraeth y DU wedi diogelu swyddi ac incwm aelwydydd, ond wrth iddynt ddirwyn i ben, mae mwy o bobl yn debygol o brofi diweithdra a cholli incwm, gan gynyddu'r risg o gynnydd mewn tlodi, troi allan, a digartrefedd.
- Mae'r rhagolygon ar gyfer economi Cymru a'r farchnad lafur yn aneglur, ond mae'r pandemig wedi gwneud niwed difrifol i gyllid cyhoeddus. Gyda Llywodraeth y DU yn anelu at fantoli'r gyllideb erbyn 2025, ansicrywydd parhaus yngylch disodli cyllid yr UE a'r cwmpas cyfyngedig i gynyddu refeniw o dreth incwm ddatganoledig, mae'n debygol y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i weithredu mewn amgylchedd o gyni.
- Mae rhoi hwb i dai cymdeithasol wedi dod yn flaenoriaeth uchel, gyda Llywodraeth Cymru eisai gweld 20,000 o dai cymdeithasol carbon isel yn cael eu darparu erbyn 2026. Mae hyn yn adlewyrchu ei amcangyfrif canolog o anghenion tai, sy'n awgrymu y bydd angen tua 7,400 o unedau tai ychwanegol ar gyfer pob un o'r pum mlynedd o

2019/20 ymlaen, gan gynnwys 3,500 o dai fforddiadwy ar gyfer rhent cymdeithasol a rhent canolradd. Mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r cynnydd diweddar mewn tai cymdeithasol ar rent wedi troi'n gynnnydd mewn gosod tai i denantiaid newydd oherwydd y gostyngiad mewn trosiant, gyda gosod tai cymdeithasol wedi aros yn weddol sefydlog ers 2011-12, gydag oddeutu 16,600 eiddo'n cael eu gosod bob blwyddyn.

- Roedd Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'n gyflym i amddiffyn tenantiaid cymdeithasol a phreifat rhag cael eu troi allan drwy ymestyn cyfnodau rhybudd troi allan, a gwahardd gorfodi troi allan dros dro, ond gallai lefelau cynyddol o ôl-ddyledion rhent arwain at gynnnydd yn nifer y bobl a fydd yn cael eu troi allan yn y misoedd i ddod. Bydd hyn yn profi ymrwymiad diweddar Llywodraeth Cymru i roi diwedd ar droi tenantiaid allan i ddigartrefedd gan landlordiaid cymdeithasol.
- Roedd yr ychwanegiad wythnosol dros dro o £20 i'r rheini sy'n hawlio Credyd Cynhwysol a Chredydau Treth Gwaith ynghyd ag adfer yr LHA dros dro i'r rhent 30ain canradd yn cael eu croesawu'n eang, ond mae dod â'r ddau fesur i ben yn debygol o gynyddwr risg o dlodi a digartrefedd a rhoi straen ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus a banciau bwyd.
- O blith y gwahanol fesurau polisi a gyflwynwyd mewn ymateb i'r pandemig, nodwyd mai gwelliannau i DHP a'r Gronfa Cymorth Dewisol oedd y newid polisi pwysicaf o ran atal a lleihau digartrefedd gan awdurdodau lleol.

# Polisiau digartrefedd

## 3. Polisiau digartrefedd

### 3.1. Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn adolygu esblygiad ac effaith polisiau sy'n benodol i ddigartrefedd yng Nghymru. Rydym yn dechrau drwy ystyried yr ymateb brys i COVID-19 a'i waddol posibl. Symudwn ymlaen wedyn i integreiddio'r drafodaeth hon gan ystyried datblygiadau polisi ehangach a thymor hwy o dan nawdd Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd Llywodraeth Cymru, ac yn enwedig ei ffocws ar hyrwyddo Ailgartrefu Cyflym a Thai yn Gyntaf. Yn olaf, rydym yn ystyried safbwytiau ar weithrediad presennol y ddeddfwriaeth digartrefedd yng Nghymru, nawr bod Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 wedi bod mewn grym ers dros chwe blynedd, a'r rhagolygon a'r awydd am ragor o ddiwygiadau cyfreithiol.

### 3.2 Ymateb i COVID-19 a'i waddol

Ochr yn ochr â'r newidiadau i fudd-daliadau lles brys a'r moratoriwm ar droi allan a drafodwyd ym Mhennod 2, roedd ymateb i argyfwng pandemig COVID-19 yn golygu newidiadau ysgubol i bolisi, deddfwriaeth a chyllid digartrefedd yng Nghymru, fel y gwnaeth mewn mannau eraill ar draws Prydain Fawr.<sup>134</sup> Cafwyd datganiadau Gweinidogol clir gan Lywodraeth Cymru o fis Mawrth 2020 ymlaen y dylid darparu ar gyfer pawb sy'n cysgu allan, gan gynnwys y rheini sydd heb fynediad at arian cyhoeddus.<sup>135</sup> Roedd canllawiau dilynol ar statws Angen Blaenoraiethol pobl sy'n cysgu allan, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020, yn datgan, dros gyfnod y pandemig, y dylai pobl sy'n cysgu allan gael eu hystyried yn 'agored i niwed' ac felly 'mewn angen blaenoraiethol' a bod ganddynt hawl i lety.<sup>136</sup> Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar hunanyngus

<sup>134</sup> Fitzpatrick, S., Watts, B., Pawson, H., Bramley, G., Wood, J., Stephens, M. & Blenkinsopp, J. (2021) *The Homelessness Monitor: England 2021*. London: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/media/244702/crisis-england-monitor-2021.pdf>; Fitzpatrick, S., Mackie, P., Pawson, H., Watts, B. & Wood, J. (2021) *The COVID-19 Crisis Response to Homelessness in Great Britain: Interim Report*. Ar-lein: CaCHE. [https://housingevidence.ac.uk/wp-content/uploads/2021/02/12544\\_UoG\\_CaCHE\\_Covid\\_Homelessness\\_Report-Final.pdf](https://housingevidence.ac.uk/wp-content/uploads/2021/02/12544_UoG_CaCHE_Covid_Homelessness_Report-Final.pdf)

<sup>135</sup> Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb i COVID-19 – Digartrefedd a Phobl sy'n Cysgu ar y Stryd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-covid-19-digartrefedd-ar-rhai-syn-cysgu-allan>

<sup>136</sup> Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau i awdurdodau lleol ar gefnogi pobl sy'n cysgu allan – argyfwng Covid-19*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. [https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/canllawiau-i-awdurdodau-lleol-ar-gefnogi-pobl-syn-cysgu-allan-argyfwng-covid-19\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/canllawiau-i-awdurdodau-lleol-ar-gefnogi-pobl-syn-cysgu-allan-argyfwng-covid-19_0.pdf)

mewn hostel, lloches nos neu lety â chymorth, wedi'u diweddu o bryd i'w gilydd drwy'r pandemig.<sup>137</sup>

Roedd ymrwymiadau cyllid ychwanegol sylweddol yn cyd-fynd â'r datganiadau polisi a'r canllawiau hyn. Ar 20 Mawrth 2020, pecyn cyllid gwerth £10m ar gyfer llety brys i bobl sy'n cysgu allan/mewn llochesi brys.<sup>138</sup> Yn ddiweddarach, cafodd hyn ei alw'n gyllid 'Cam 1'. Ar 28 Mai 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £20m o gyllid 'Cam 2' i gefnogi atebion tai tymor hwy (gan gynnwys y £10 miliwn cychwynnol), i gynnwys cyfuniad o gyllid cyfalaf a refeniw.<sup>139</sup> Ar 3 Mehefin 2020, cyhoeddwyd canllawiau yn gwahodd awdurdodau lleol i baratoi cynllun 'Cam 2' i ffurfio sail i gais am gyllid ar gyfer y gronfa Cam 2 hon.<sup>140</sup> Bwriad y cynlluniau hyn oedd nodi sut mae pob Awdurdod Lleol yn "ymrwymo i sicrhau bod pob person sy'n byw mewn llety dros dro yng Nghymru ar hyn o bryd yn cael ei adsefydlu yn y tymor hir, a'r rheini sy'n dal i gyflwyno i adrannau digartrefedd awdurdodau lleol, a'r cynnydd a ddisgwylir mewn digartrefedd wrth i fesurau'r cyfyngiadau symud gael eu llacio." Ar 28 Gorffennaf, cafodd gwerth y gronfa Cam 2 hon ei newid yn sylweddol i £50m, gan gynnwys amlen gwariant cyfalaf sylweddol uwch o £40m.<sup>141</sup> Ar ben hynny, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i dalu costau lletya pobl sydd mewn perygl o gysgu allan dros dro yn barhaus, gan gynnwys y rheini sydd â NRPF, ar gost fisol gyfartalog o £1.6 miliwn.<sup>142</sup>

Yng ngweddill yr adran hon rydym yn adolygu safbwytiau'r prif hysbysydd a'r ALL ar yr ymateb i COVID-19 gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill, ac yn pwysa a mesur ei waddol bosibl.

### Llywodraeth Cymru

Cafwyd canmoliaeth aruthrol gan randdeiliaid allweddol am y dull gweithredu a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i lliniaru effeithiau pandemig COVID-19 ar bobl sydd mewn perygl o gysgu allan. Ystyriwyd bod y cyfuniad o ganllawiau prydlon a diamwys, ynghyd ag adnoddau ychwanegol sylweddol, yn hanfodol:

**"Symud yn gyflym i gyfarwyddo awdurdodau lleol i ddiystyr a  
angen blaenoriaethol, a  
chyoeddi'r canllawiau hynny.  
Gwnaethpwyd hynny mewn  
ffordd amserol a...maen nhw wedi  
darparu llawer o adnoddau hefyd.  
... mae'r symiau'n enfawr...mae'n  
debyg iawn i'r math o symiau  
rodden ni'n arfer edrych arnynt  
cyn COVID o ran digartrefedd."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

**"Credaf fod y canllawiau gan  
Llywodraeth Cymru yn glir iawn.  
Dywedwyd, 'Dyma beth sydd i'w  
gyflawni. Rydych chi i gael pawb  
i mewn. Dydy o ddim i fod ... Yn  
ofod awyr a rennir. Mae'n rhaid  
iddo fod yn hunan-gynhaliol  
lle bynnag y bo'n bosibl,' ac  
ati. Roedd hynny'n glir iawn, a**

**"Dyma'r arian i wneud  
iddo ddigwydd."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector annibynnol)

Yn ôl pob sôn, roedd ymrwymiad gwleidyddol lefel uchel gan Weinidog dros Dai a Llywodraeth Leol eithriadol o effeithiol hefyd yn allweddol:

**"Mae Julie James<sup>143</sup>... wedi bod  
yn wych yn gyrru'r agenda  
yn ei blaen... yn fwy felly nag  
unrhyw Weinidog sydd wedi ei  
rhagflaenu... Dyna sut mae ei  
hymrwymiad, ei chymhelliant a'i  
gallu i wneud i bethau ddigwydd  
wedi creu argraff arnaf."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector annibynnol)

Cafodd maint a chyflymder y cyllid a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru i lliniaru effeithiau COVID-19 ar ddigartrefedd ei groesawu'n eang. Roedd pedwar ar bymtheg o'r 22 ymatebydd o'r farn bod y cyllid 'Cam 1', a ddarparwyd ar gyfer lleoliadau llety brys, yn 'bwysig iawn' o ran lleihau digartrefedd yn eu hardal, a dywedodd 18 o'r 22 yr un peth mewn perthynas â'r cyllid 'Cam 2' ar gyfer atebion tai tymor hwy (gweler Tabl A.7).

Roedd natur barhaus cyllid Cam 1 hefyd yn golygu nad oedd yn ymddangos bod ansawdd yr amddiffyniad a roddir i bobl mewn perygl o gysgu ar y stryd wedi dirywio rhwng y cyfnod clo cyntaf a'r ail gyfnod clo (fel y gwelwyd yn Lloegr, er enghraifft):<sup>144</sup>

**"Rwy'n credu bod y neges glir  
hon a ddaeth gan Lywodraeth  
Cymru, a gafodd ei hailadrodd  
dro ar ôl tro, nad oedd Cam 1  
wedi dod i ben, bod Cam 1 yn dal  
ar agor a bod cyllid Cam 1... yn  
dal ar gael. Rwy'n meddwl bod  
hynny'n arwydd cryf iawn ac**

**roedd hynny'n golygu na welsoch  
chi gynnydd dramatig na newid  
dramatig yn yr ail gyfnod clo  
rydych chi wedi'i weld mewn  
mannau eraill."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

O ran cyllid mwy sylweddol Cam 2, roedd ymdeimlad cryf bod swm gyffredinol yr adnoddau'n briodol, hyd yn oed yn hael. Ar ben hynny, roedd y ffaith bod ei wreiddiau mewn gweledigaeth strategol, tymor hwy ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd, fel y'i crisialwyd yng ngwaith yr HAG (gweler ymhellach isod), wedi'i gymeradwyd gan gadarnhaol gan randdeiliaid:

**"...yr oedd y canllawiau Cam 2  
a oedd yn ymwneud â chyllido  
atebion tai...yn rhan o hynny,  
roedd disgwyl y byddai'r cyllid yn  
cael ei ddefnyddio lle bynnag y bo  
modd i yrru a hyrwyddo atebion  
parhaol, ac nid dim ond ehangu  
hosteli a phethau fel hynny....  
gan ddefnyddio'r foment honno i  
ddangos rhai pwyntiau tymor hwy  
pwysig iawn hefyd."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

Wedi dweud hynny, wynebwyd heriau o ran cyflawni gwariant cyfalaf yn effeithiol ar y cyflymder sy'n ofynnol gan raglen Cam 2, ynghyd â phryderon yngylch cynaliadwyedd y gwariant refeniw:

**"Bu'n anodd gwario'r cyllid  
cyfalaf mewn cyfnod mor fyr,  
oherwydd pan fyddwch chi'n sôn  
am ddatblygu, rwy'n meddwl  
bod pawb yn gwybod, mewn  
gwirionedd, nad oeddech chi'n  
mynd i ddatblygu unrhyw fath o  
gynllun mewn chwe mis. Fodd  
bynag, fe wnaeth pobl roi cynnig  
go iawn arni, partneriaid yn dod o**

137 Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau Byw â Chymorth: Coronafeirws Ar-lein*: Llywodraeth Cymru. <https://gov.wales/supported-living-guidance-coronavirus#section-55008>

138 Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb i COVID-19 – Digartrefedd a Phobl sy'n Cysgu ar y Stryd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-covid-19-digartrefedd-ar-rhai-syn-cysgu-allan> Ar yr un pryd derbyniodd y Gweinidog argymhellion ail adroddiad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd mewn egwyddor, fel y trafodir isod.

139 Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad Ysgrifenedig: Cam 2 Cynllun Digartrefedd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cam-2-or-cynllun-digartrefedd>

140 Llywodraeth Cymru (2020) *Cam 2 – Canllawiau Cynllunio i Wasanaethau Digartrefedd a Chymorth sy'n Gysylltiedig â Thai*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/canllawiau-cynllunio-wasanaethau-digartrefedd-chymorth-gysylltiedig-a-thai.pdf>

141 Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad Ysgrifenedig: Cam 2 Diweddu a Phobl sy'n Cysgu ar y Stryd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diweddariad-cam-2-digartrefedd>

142 Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad Ysgrifenedig: Diweddu a Phobl sy'n Cysgu ar y Stryd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diweddariad-ar-atal-digartrefedd>

amgylch y bwrdd, cymdeithasau tai yn dod â'u harbenigedd i weithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol, yn dod â phethau oddi ar y silff, yn sicrhau cymeradwyaeth yn gyflym a phethau fel hynny, ond mae'n anodd iawn eu datblygu."  
(Y prif hysbysydd, y sector statudol)

"Rwy'n meddwl bod awdurdodau lleol wedi tueddu i ganolbwytio ar geisio cael cymaint o wariant cyfalaf ag y gallent o hynny oherwydd yr ansicrwydd hwnnw yngylch a fyddai unrhyw allu i barhau â gwariant refeniw ar ôl iddo ddod i ben. Felly mae llawer o arloesi wedi bod o ran ceisio cael unedau newydd i mewn i ardaloedd, sy'n wych, ond dwi'n gwybod bod rhywfaint o danwario hefyd oherwydd natur mynd am geisiadau cyfalaf, mae yn anodd iawn eu cyflawni yn brydon onid ydi?"  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r angen i 'ddiogelu buddsoddiadau i'r dyfodol' drwy, er enghraifft, ddylunio llety newydd neu lety wedi'i adnewyddu fel y gellir eu 'newid' yn rhwydd i dai anghenion cyffredinol. Serch hynny, roedd pryder yngylch sut roedd awdurdodau lleol yn defnyddio rhywfaint o'r gwariant cyfalaf hwn:

**...nid oedd digon o graffu cyhoeddus ar y cynlluniau Cam 2 hynny. A dweud y gwir, nid oedd fawr ddim... Roedd ymlyniad amrywiol at egwyddorion ailgartrefu cyflym yn y cynlluniau hynny ac roedd rhai ohonynt**

<sup>145</sup> Llywodraeth Cymru (2021) Canllawiau Grant Cymorth Tai: *Canllawiau Ymarfer ar gyfer Awdurdodau Lleol o fis Ebrill 2020 ymlaen: Diweddarwyd Mawrth 2021 Ar-lein: Llywodraeth Cymru.* <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-04/housing-support-grant-practice-guidance.pdf>

<sup>146</sup> Fitzpatrick, S. & Bramley, G. (2021) *The Ruling Parties' Record on Homelessness and Complex Needs (May 2015 to pre-COVID 2020).* SPDO research paper 9. Ar-lein: The London School of Economics and Political Science. <https://sticerd.lse.ac.uk/dps/case/spdo/spdorp09.pdf>

<sup>147</sup> Llywodraeth Cymru (2021) *Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth i Denantiaid drwy Bandemig Covid-19.* Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cymorth-i-denantiaid-drwy-bandemig-covid-19>

yn edrych ar ehangu TA ar raddfa fawr, er enghraift, ac yn sefydliadu dibyniaeth drom ar TA cronnol ar raddfa fawr."  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

"...mewn rhai ardaloedd roedd penderfyniadau mawr yn cael eu gwneud yn gyflym iawn heb ymgynghori da, ac a oeddent yn gwneud y penderfyniadau iawn ac yn defnyddio swm enfawr o arian a allai fod wedi cael ei ddefnyddio'n well efallai... mae'r amserlenni tynn a Bennwyd gan Lywodraeth Cymru, sydd wedyn yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdodau lleol, felly mae eu gallu i ymgynghori'n briodol yn amlwg yn gyfyngedig iawn gan ei fod yn fater o'i ddefnyddio neu ei golli mewn gwirionedd."  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

Perthnasol iawn yma hefyd yw'r warchodaeth gymharol sydd wedi'i rhoi i olynydd (sydd wedi'i neilltu'n ôl) cyllid refeniw prif lif 'Cefnogi Pobl' yng Nghymru, a elwir bellach yn Grant Cymorth Tai.<sup>145</sup> O'i gymharu a'r crebachu sydyn yn y cyllid hwn a welwyd yn Lloegr, ac i raddau llai yn yr Alban, dros y degawd diwethaf fwy neu lai, mae'r toriadau yng Nghymru wedi bod yn fychan.<sup>146</sup> Ar ben hynny, yn y flwyddyn ariannol bresennol, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y ffrwd refeniw hon, o £120 miliwn i £166 miliwn ar gyfer 2021/22,<sup>147</sup> gan ddileu effaith toriadau sy'n gysylltiedig â chyni ar y cronfeydd hyn i bob pwrras. Gwelwyd bod y cam hwn wedi rhoi hwb i hyder yn ogystal ag adnoddau'r sector digartrefedd yng Nghymru ar ôl COVID-19:

"Mae'r Grant Cymorth Tai... wedi gweld cynnydd o £40 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon, sy'n mynd ag ef yn ôl i, rwy'n credu, hyd yn oed os ydych yn ystyried chwyddiant, lle'r oedd yn ôl yn 2011.. Er mai dim ond setliad cylido blwyddyn yw hwn o hyd, mae wedi rhoi'r hyder hnwnnw i bobl feddwl, o'r gorau, rydych chi wedi taflu'r £50 miliwn o gyllid pontio i mewn, ond gallwn hefyd weld eich bod chi o ddifri oherwydd eich bod wedi cynyddu'r ffrwd refeniw sefydlog... wedi gwneud penderfyniadau da iawn o ran hynny, ac wedi gwneud defnydd da o'r arian ychwanegol sydd wedi dod dros y ffin o ganlyniad i wariant ychwanegol yn Lloegr."  
(Hysbysydd allweddol, y sector annibynnol)

Cafodd y rhan fwyaf o'r canllawiau gweithredol ar ddigartrefedd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod COVID-19 dderbyniad gwresog, gyda'r Canllawiau Gweinidogol ar Angen Blaenoriaethol, er enghraifft, yn cael eu barnu gan 16 o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru fel rhai 'pwysig iawn' o ran lleihau digartrefedd yn eu hardal (gweler Tabl A.7). Yr un maes lle cafodd y Llywodraeth ei beirniadu'n halt gan gyfranogwyr yn y sector gwirfoddol a'r sector statudol oedd y canllawiau a gyhoeddwyd ar reoli (ASB) mewn lleoliadau preswyl yn ystod COVID-19:<sup>148</sup>

**"Roeddech chi'n dweud wrthym ni beth rydyn ni'n ei wybod yn barod, ac mewn gwirionedd dydych chi ddim yn rhoi unrhyw atebion newydd i ni, nac unrhyw adnoddau i ddelio â hyn ac i reoli hyn, a dim dannedd...Yr hyn sy'n drist yw mai dyma sy'n cael ei gofio'n aml, ac nid rhai o'r pethau da a defnyddiol sydd gennym o**

ran cadw pellter cymdeithasol, a chyfarpar diogelu personol, a grwpio, a gofod hunangynhwysol a hynny i gyd. Roedd yna rai pethau da iawn ond... mae pawb yn meddwl am y canllawiau ASB hynny..."  
(Y prif hysbysydd, y sector statudol)

#### **Cyfraniad awdurdodau lleol, darparwyr trydydd sector a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig**

Dywedwyd bod yr ymateb i COVID-19 yng Nghymru yn cael ei nodweddu gan gydweithio traws-sector cadarnhaol rhwng Awdurdodau Lleol, darparwyr gwasanaethau digartrefedd, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a Llywodraeth Cymru:

**"... awdurdodau lleol, mewn cydweithrediad da iawn â'r trydydd sector. Rwy'n meddwl nad oes modd gwadu bod ôl-troed Cymorth Cymru ar yr ymateb yn fewnol iawn. ...Roedden nhw'n gweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth Cymru i arwain a llywio a gwneud yn siŵr bod y sector yn dod yn ei flaen."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector annibynnol)

Cafwyd cefnogaeth arbennig o gryf gan bron pob hysbysydd allweddol yngylch ymateb Awdurdodau Lleol Cymru yn ystod yr argyfwng:

**"Rwy'n meddwl bod y camau gweithredu gan awdurdodau lleol yn dda... roeddent yn llythrennol wedi gwneud i bethau ddigwydd yn gyffredinol. Roedd yn braf, oherwydd roedd yn fater o egwyddorion, dyma beth sydd i'w gyflawni, mae gennych chi'r hyblygrwydd i gyflawni hynny fel rydych chi'n ei ddymuno. Roedd gwahanol awdurdodau lleol yn defnyddio'r llety oedd ar gael iddynt, felly mewn llefydd**

<sup>148</sup> Welsh Government (2020) *COVID 19: Guidance for Local Authorities and Providers; Managing Safety and Risk in Temporary Accommodation Where an Individual Displays Challenging and Anti-social Behaviour.*

**fel [dinas] lle mae yna lawer o lety gwely a brecwast, roeddent yn defnyddio'r lety gwely a brecwast. Mewn llefydd fel [dinas], roedd rhywfaint o ddefnydd o lety prifysgol, ac ati, felly gwneud popeth o fewn eich gallu gyda'r lety sydd ar gael.**  
(Hysbysydd allweddol, y sector annibynnol)

Mae hyn yn fwy trawiadol o ystyried bod cymharol ychydig o Allau Cymru (5 i gyd allan o 22) yn credu eu bod wedi paratoi'n dda ar gyfer Gorchymyn Cam 1 Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020 (ond dim ond llond llaw, 4, y rhan fwyaf ohonynt yn wledig, yn teimlo eu bod wedi cael eu paratoi'n wael) (gweler Tabl A.5). Gellir cael rhywfaint o wybodaeth am yr her enfawr y mae awdurdodau lleol yn ei hwynebu wrth ymateb i Orchymyn Cam 1 o ymatebion agored y rhai sy'n cymryd rhan yn yr arolwg i'r arolwg, gyda'r gwaith o gaffael llety priodol, a rheoli anghenion cymorth yn ymestyn eu hadnoddau a'u harbenigedd:

**"Roedd yn her enfawr dod o hyd i ddigon o lety dros dro ar gyfer y nifer fawr o bobl sengl a oedd yn ddigartref, yn enwedig yng ngoleuni'r anghenion cymhleth y mae llawer yn eu hwynebu. Gwaethygwyd hyn pan fethodd y lleoliadau, yn bennaf oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau ar y safle."**  
(Awdurdod Lleol y Cymoedd)

**"Doedd dim llety dros dro ar gael i'n galluogi ni i ganiatáu i bobl hunanynysu, roedd gan yr hostel rodden ni'n ei ddefnyddio yr holl gyfleusterau a oedd yn cael eu rhannu. Hefyd, nid oeddem yn disgwyl lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y llety gwely a brecwast, nac mewn argyfwng."**  
(Awdurdod Lleol Gwledig)

Roedd hysbyswyr allweddol y sector gwirfoddol a statudol yn cydnabod nad oedd Allau Cymru, yn wyneb y gyfres hon o heriau digynsail, mewn gwirionedd yn llwyddo i ddarparu ar gyfer pawb sydd mewn perygl o gysgu allan bob amser, gyda rhestrau aros ar gyfer cymorth brys yn cael eu gweithredu mewn rhai mannau:

**"...bu'n rhaid i chi gydnabod yr ymdrech anhygoel a wnaed gan awdurdodau lleol a'r gwasanaethau allgymorth, a'u bod mor brysur yn y dyddiau cynnar hynny ac yn wyneb heriau anhygoel...ar yr un pryd nid oeddym yn gyfforddus pan fyddai pobl yn... [dweud] 'Rydym yn helpu pawb. Rydyn ni'n rhoi lle i bawb,' – oherwydd dydyn nhw ddim! ..... A bod yn deg â'r cynghorau...yr oeddent yn cydnabod ac yn dweud, 'Ydym, rydym yn gwybod bod gennym ddyletswydd tuag atoch. Rydyn ni'n gwybod bod yn rhaid i ni ddarparu ar eich cyfer chi. Does gennym ni unman i'ch rhoi chi. Mae'n rhaid i chi aros yn y ciw."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

**"Cael pawb i mewn yn gyflym iawn – doedd pawb ddim yn gwneud nac yn gallu gwneud hynny, a chael y lefel gywir o TA, ac rwy'n meddwl bod hynny wedi bod yn anodd ac mae cwpl o awdurdodau wedi cael trafferth dod o hyd i lety i bawb. Yr oedd ganddynt bobl yn dal ar y strydoedd, yr oedd ganddynt bobl y tu allan i'r sir, roedd ganddynt bobl mewn llety amhriodol oherwydd eu bod, mewn gwirionedd, yn ei chael yn anodd cael gwestai neu ddod o hyd i'r llety iawn. Roedd hynny'n anodd, ac yn anodd i'w swyddogion fod yn ymwybodol ein bod ni'n rhyw fath o fethu yn hyn o beth, mewn gwirionedd. Heb ddim bai arnom ni ein hunain, allwn ni ddim cael yr**

**adnoddau i wneud yr hyn rydyn ni'n gwybod y mae angen i ni ei wneud."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector statudol)

Roedd yr ymdrechion eithriadol a wnaed gan ddarparwyr gwasanaethau digartrefedd yn ystod argyfwng COVID-19 hefyd yn cael eu canmol yn eang, fel y nodwyd uchod eisoes, gan neilltu o'r rôl gref a chwaraewyd gan y corff ymbarél, Cymorth Cymru, am ganoliaeth arbennig:

**"Roedd Cymorth Cymru... yn gyfrwng da iawn rhwng yr sector a Llywodraeth Cymru... roedd llawer o bethau roedden ni'n gallu eu codi drwy Cymorth lle nad oedd pethau'n gweithio'n dda iawn ar adegau a oedd yn cael eu newid yn eithaf gyflym."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r prif hysbyswyr fod y dull gweithredu'n amrywio ymyst darparwyr trydydd sector ac awdurdodau lleol yn ystod yr argyfwng, yn enwedig o ran ymgysylltu wyneb yn wyneb:

**"...roedd gennych ddarparwyr a oedd yn warchodol, yn amddiffyn staff, yn tynnu eu hunain o'r rheng flaen, ac yna'r darparwyr a oedd – a gallent fod wedi bod yr un sefydliad mewn gwahanol leoedd – yn torchi llewys ac yn gwneud yr hyn a allent. Hyd yn oed pan oedden nhw'n newid i gymorth dros y ffôn, fe wnaethon nhw ail-drefnu ac ailstrwythuro eu staff i newid eu darpariaeth a chefnogi pobl mewn ffordd wahanol a phethau fel hynny... gwneud yr hyn roedd angen ei wneud, mewn gwirionedd, i helpu, a phobl yn**

**mynd y filltir ychwanegol, ie, yn bendant."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector statudol)

Tra, fel mewn mannau eraill yn y DU<sup>149</sup>, bod y dyraniadau tai cymdeithasol wedi arafu'n ddifrifol ar ddechrau'r cyfngiadau symud, roedd yn ymddangos bod llawer o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru wedyn yn dod atynt eu hunain ac yn symud yn gyflym tuag at ymdrechion glew i ddarparu llety i bobl ddigartref yn ystod yr argyfwng:

**"...roedd y cymdeithasau tai, yn fy marn i, braidd yn amharod i ddechrau, ond mewn gwirionedd fe wnaethon nhw helpu ac fe welsom lawer o enwebiadau, polisiau dyrannu'n newid, un ai'n cael eu rhwygo neu eu hailsgrifennu i ganolbwytio ar enwebiadau digartrefedd, ac roedd hynny'n beth da iawn. I fod yn deg, maen nhw wedi cymryd rhai risgiau gyda thai i unigolion ac maen nhw wir wedi helpu. Rwy'n credu y byddwch yn dod o hyd i ymarfer da, ac ymarfer gwael, yn gyffredinol yn hynny i gyd, ond roedd rhywfaint o ymarfer da iawn ac ymatebion da iawn."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector statudol)

**Gwasanaethau iechyd**  
Thema galonogol arall a ddaeth i'r amlwg o'n gwaith maes oedd gwaith aml-asiantaeth gwell gyda chydweithwyr iechyd yng Nghymru yn ystod argyfwng COVID-19, er bod rhai pryderon y gallai hyn fod yn lleihau nawr wrth i ni ddod allan o'r argyfwng pandemig:

149 Fitzpatrick, S., Watts, B., Pawson, H., Bramley, G., Wood, J., Stephens, M. & Blenkinsopp, J. (2021) *The Homelessness Monitor: England 2021*. London: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/media/244702/crisis-england-monitor-2021.pdf>; Watts, B., Bramley, G., Fitzpatrick, S., Pawson, H., & Young, G. (2021, forthcoming) *The Homelessness Monitor: Scotland 2021*. London: Crisis.

“...roedd asesiadau iechyd meddwl yn cael eu rhuthro drwodd, roeddent yn cael eu rhoi ar lwybr carlam, y math yna o beth, felly roedd hynny'n dda, ac roedd yn dangos yr hyn y gellid ei wneud pan oeddem yn gweithio gyda'n gilydd. Rydyn ni'n mynd ychydig yn ôl i fusnes fel arfer nawr ac rydyn ni'n colli rhywfaint o hynny, ac mae'n drueni, oherwydd rydw i'n meddwl bod llawer y gallwn ni ei ddysgu o hynny.”  
(Hysbysydd allweddol, y sector statudol)

Fel yr adroddwyd yn yr Alban hefyd,<sup>150</sup> mae'n ymddangos bod y cyfle wedi cael ei gymryd yn ystod cyfnod clo COVID-19 i fynd i'r afael â phroblemau cyffuriau hirsefydlog ymmsg pobl sengl ddigartref sydd ag anghenion cymhleth, gyda nifer o hysbyswyr allweddol yn rhoi sylwadau cadarnhaol ar fenter Buvidal Llywodraeth Cymru:

“...oherwydd tarfwyd ar lwybrau cyflenwi cyffuriau anghyfreithlon, gwelsom bobl naill ai'n mynd i roi'r gorau iddi neu'n sylweddoli eu bod yn mynd i roi'r gorau iddi ac yna'n cymryd rhan mewn triniaeth am eu bod eisaiu osgoi'r boen o fynd drwy hynny .... Mae Buvidal... yn rhyddhau meddyginaeth fel y gall pobl roi'r gorau i gymryd opiadau, yn union fel y byddent yn achos methadon neu rywbeth fel hynny, ond does dim rhaid i chi fynd i'r fferyllfa bob dydd. Cafodd hynny ei gyflwyno er mwyn i bobl allu aros yn ddiogel ac er mwyn i ni beidio â gorfol symud pobl o gwmpas ym mhob man, gan eu hamlygu i COVID, dim ond er mwyn cael eu meddyginaeth. Roedd hynny'n gwneud byd o wahaniaeth.”  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

### **Ymfudwyr a phobl nad ydynt yn gallu cael arian cyhoeddus**

Ystyriwyd bod amrywiol fesurau argyfwng sy'n ymwneud â COVID-19 sy'n ymwneud â gwladolion o'r tu allan i'r DU (e.e. atal troi allan o lety lloches, a chymorth brys i'r rheini sydd â NRPF a mewnfudwyr o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd nad ydynt mewn gwaith) yn bwysig o ran lliniaru pwysau digartrefedd yn eu hardal gan ddim ond hanner neu lai o awdurdodau lleol Cymru a arolygyd (Tabl A.7). Yn yr un modd, dim ond llond llaw o awdurdodau lleol yng Nghymru oedd yn disgwyl y byddai digartrefedd ymmsg mudwyr nad oedd ganddynt fynediad at fudd-daliadau yn cynyddu yn eu hardal leol wrth i bandemig COVID-19 ddod i'r amlwg (Tabl A.4).

Gellir egluro'r canfyddiadau hyn drwy'r crynodiad daearyddol o ddinasyddion o'r tu allan i'r DU sydd mewn perygl o fod yn ddigartref mewn rhannau penodol (trefol) o Gymru. Roedd hyn yn golygu bod mesurau fel atal ac yna ailddechrau troi pobl allan o lety'r Gwasanaeth Cynnal Ceiswyr Lloches Cenedlaethol (NASS) wedi cael effeithiau sylweddol mewn ardaloedd penodol:

“Mae atal troi allan o'r Gwasanaeth Cefnogi Lloches Cenedlaethol a throi allan o'r sector rhentu preifat / tai cymdeithasol wedi cael effaith gadarnhaol ar unwaith ar reoli niferoedd drwy'r drws, ond mae [wedi] gohirio pryder tymor hwy. Yn enwedig mewn perthynas ag achosion y Gwasanaeth Cefnogi Lloches Cenedlaethol, creodd y Swyddfa Gartref ôl-groniad mor fawr o achosion yr oedd angen iddi eu clirio, fel yn y pen draw, roedd yn golygu bod 20 a mwy o bobl wedi cael eu troi allan o'r Gwasanaeth Cefnogi Lloches Cenedlaethol bob wythnos, ac roedd hynny'n anodd ei reoli yn ystod pandemig.”  
(Awdurdod Lleol Trefol)

### **Gwaddol**

Roedd effaith bosibl tymor hwy COVID-19, ar y cyd â gwaith yr HAG a drafodir isod, yn ymddangos fel pe bai'n symud oddi wrth lochesi cymunedol ac, i ryw raddau o leiaf, ffurfiau mwy traddodiadol o ddarpariaeth hostel:

“...roedd yn ysgogi set gyfan o feddwl a gweithredu ynghylch pa fath o lety? Derbyniwyd bod llochesi nos, mannau cysgu, yr holl bethau hynny wedi eu darparu am reswm da, ond nad ydynt mewn gwirionedd yn llety diogel, urddasol i bobl. Unwaith eto, mae rhywfaint o arian yn cael ei fuddsoddi a rhywfaint o weithgarwch yn ymwneud â mathau gwell o ddarpariaeth. Boed hynny yn y sector ffydd o ran Cyflawnder Tai Cymru, neu yn yr awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.”  
(Hysbysydd allweddol, y sector annibynnol)

Wedi dweud hynny, nid oedd pawb a gymerodd ran yn yr ymchwil yn argyhoedddegig bod y newid hwn yn digwydd mor bendant ag yr oedd angen:

“...mae llawer o rethreg gref am [symud oddi wrth ddefnyddio lloches]. Dydw i ddim yn siŵr... gallwn weld tystiolaeth amlwg o hynny yng Nghymru eto.”  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

Cyfeiriwyd yn eang hefyd at y pwyslais parhaus ar fwy o weithio digidol, yn enwedig o ystyried yr heriau logistaidd yng Nghymru wledig, er bod hynny ar y cyd â dull gweithredu 'cyfunol' a oedd yn cydnabod yr angen am rywfaint o ymgysylltu wyneb yn wyneb parhaus:

“Roedd ein darpariaeth cwnsela, er enghraifft, yn mynd ar-lein... dydy hynny ddim bob amser yn addas i bawb. Rydyn ni eisaiu

cael perthynas â'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi o hyd, ond mewn gwirionedd pan fyddwn ni'n gwasanaethu Cymru gyfan a llawer o'r ardaloedd hynny'n wledig, mae hyn yn rhoi mwy o gyfle i ni ymgysylltu a dod â chymorth gan gymheiriaid i mewn. Yn hytrach na chael rhywun yn cael tri bws i fynd o gwmpas mynydd, gallwn ddeialu i mewn a gallwn ddod â gwasanaethau i bobl yn haws. Mae wedi ein hannog ni i ddatblygu dull mwy cyfunol o ran sut rydyn ni'n darparu gwasanaethau... rydw i'n meddwl bod ymgysylltu digidol yn gynaliadwy.”  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

“Rwy'n rhywun sy'n wirioneddol hoff o ryngweithio wyneb yn wyneb, ond does dim dianc rhag y ffaith ei fod wedi gwneud cwrdd a siarad â phartneriaid yn llawer haws ac yn llawer cyflymach. Byddai'n rhaid i bobl fynd i ganolbarth Cymru i gyfarfod, sy'n daith ddwy awr a hanner i bawb, ac yn ychydig o hunllef o ran trefnu cyfarfodydd; ac roedd hynny'n golygu nad oeddent yn digwydd mor gyflym nac mor aml ag y dymunech. Bydden ni eisaiu dal gafael ar y digidol oherwydd mae'n golygu ein bod ni wedi gallu siarad yn llawer cyflymach â rhanddeiliaid ac maen nhw wedi gallu adrodd yn ôl i mewn...amser real; heriau, problemau, ac ati.”  
(Hysbysydd allweddol, sector statudol)

Yn olaf, mynegwyd gobaith hefyd, gan ddarparwyr gwasanaethau digartrefedd, y gellid cadw rhai o'r dulliau mwy hyblyg o gomisiynu a weithredwyd yn ystod COVID-19:

“...yn ystod y 12 mis diwethaf neu'n sicr yn ystod y cyfnod clo cyntaf, roedd ein comisiynwyr All wedi caniatáu i ni fwrw ymlaen

**a gwneud yr hyn roedd angen i ni ei wneud ac ymddiried ynom ni. Cyn hynny, roedd llawer o ficro-reoli yn digwydd ... gan fod pawb yn ceisio peidio â mynd i banig a gwneud i bethau ddigwydd, anghofiwyd am ficro-reoli. Byddwn yn hoffi gweld yr ymddiriedaeth honno'n parhau ac yn caniatáu i ni wneud – yn amlwg mae'n rhaid i ni ddangos tystiolaeth o'r gwaith rydyn ni'n ei wneud... ond gadael i ni wneud yr hyn sydd angen i ni ei wneud gyda'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi oherwydd rydyn ni'n eu hadnabod yn dda."**

(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

### 3.3 Polisi cyn COVID-19 a'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd

Roedd digartrefedd, ac yn enwedig cysgu allan, eisoes yn flaenoriaeth wleidyddol yng Nghymru cyn COVID-19, gyda strategaeth genedlaethol lefel uchel wedi'i chyhoeddi ym mis Hydref 2019.<sup>151</sup> Roedd y ddogfen gymharol fyr hon yn brin o fanylion, ond roedd ganddi agwedd ataliol gref a oedd yn cael ei harwain gan dai, ac roedd yn amlinellu cyfres o egwyddorion sy'n gyson â datblygiadau polisi dilynol.

Yn ystod haf 2019, sefydlodd Llywodraeth Cymru 'Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd' annibynnol gyda chylch gwaith i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, gan

ganolbwytio'n benodol ar gamau gweithredu cynnar i leihau a dileu cysgu allan.<sup>152</sup> Mae'r HAG hwn wedi'i fodol mewn sawl ffordd ar y Gweithgor Digartrefedd a Chysgu ar y Stryd<sup>153</sup> cynharach yn yr Alban, gyda'r ddua Grŵp yn cael eu cadeirio gan Brif Weithredwr Crisis, Jon Sparkes.

Cynhyrchodd yr HAG dri adroddiad i gyd. Roedd y cyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, yn canolbwytio ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â chysgu ar y stryd cyn gaeaf 2019, a hefyd yn cyflwyno cyfres o flaenoriaethau ar gyfer atal cysgu allan rhag digwydd yn y lle cyntaf.<sup>154</sup> Roedd yr ail adroddiad HAG, a'r un mwyaf cynhwysfawr, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020, ychydig cyn cyfnod clo cyntaf COVID-19, yn cynnwys amrywiaeth o argymhellion sylweddol, wedi'u fframio yn y "disgwyliad clir" bod rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru yn golygu y dylai'r profiad hwn fod yn "brin, cryno, ac unigol".<sup>155</sup> Roedd yr 'prin' i gael ei gyflawni drwy fesurau cyffredinol, yn gynharach yn y broses ac thrwy fesurau atal argyfwng,<sup>156</sup> ac ymdriniwyd â'r elfen 'gryno' a'r 'unigol' drwy agenda 'newid systemau' diweddarach ble mae Ailgartrefu Cyflym, Tai yn Gyntaf a chynyddu'r cyflenwad tai cymdeithasol yn amlwg iawn. Bu i'r grŵp ailymgynnll ym mis Mai 2020 ac mae eu trydydd adroddiad a'u hadroddiad terfynol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020, yn canolbwytio ar strwythurau gweithio mewn

partneriaeth leol a datblygu dulliau Ailgartrefu Cyflym.<sup>157</sup>

Cafodd yr argymhellion ym mhob un o'r tri adroddiad eu derbyn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru ar y pryd, gydag argymhellion yr ail (prif) adroddiad yn cael eu cadarnhau mewn datganiad Gweinidogol a oedd yn cyd-fynd â chyhoeddi cyllid Cam 1 a drafodwyd uchod.<sup>158</sup> Mae Rhaglen Lywodraethu Cymru y weinyddiaeth newydd 2021-26 yn addo "diwygio gwasanaethau digartrefedd yn ariannol" er mwyn canolbwytio ar atal ac Ailgartrefu Cyflym.<sup>159</sup> Mae Bwrdd Cyngori Cenedlaethol ar Gymorth Tai, gydag aelodaeth ehangu o randdeiliaid na'r HAG,<sup>160</sup> bellach wedi cael ei sefydlu i oruchwyliau a rhoi cyngor ar faterion strategol. Mae Cynllun Gweithredu lefel uchel i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, yn seiliedig ar Strategaeth 2019 ac argymhellion HAG, wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru.<sup>161</sup>

Roedd hysbyswyr allweddol, rhai ohonynt wedi cymryd rhan yn yr HAG, yn croesawu ei argymhellion yn frwd, a'r unig amod bach oedd pryder yngylch ehander ei uchelgais:

**"Does dim byd ynddynt y bydden ni'n mynd i'r afael ag ef. Dwi'n meddwl bod rhai pwytiau – gan ei fod mor eang, mae'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd a'r argymhellion yn enfawr, mae rhai ohonyn nhw jest... Rydych chi'n meddwl, mewn difri, sut ydyn ni'n**

**mynd i roi hynny ar waith?"**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

**"Rydym yn cefnogi'r holl argymhellion. Yr wyf yn credu mai fy mhryder mwyaf yw nifer yr argymhellion a'u blaenorriaethu. Mae gennym bellach y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol ar Gymorth Tai...sy'n delio â llawer o'r argymhellion a wnaeth y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd. Mae'n ceisio eu blaenorriaethu, ond mae'n debyg mai dyna un o'r pethau anoddaf, mewn gwirionedd, yw dweud, wel, beth ydyn ni'n mynd i ganolbwytio arno?"**

(Hysbysydd allweddol, y sector annibynnol)

Roedd gwaith HAG yn cynnwys ffocws cryf ar ddatblygu a chefnogi'r gweithlu, ac effalai bod hynny yn beth unigryw mewn datblygiadau polisi digartrefedd diweddar yn y DU, ac fe'i cefnogwyd yn gryf gan y rhai a gyfwelwyd gennym:

**"... rydyn ni'n gweld mwy o adnoddau ar gael ar gyfer uwchsgilio er mwyn i ni allu darparu'r gwasanaethau arloesol gorau ledled Cymru. Hefyd, er mwyn i ni allu talu pobl yn iawn, fel nad ydyn ni'n parhau â'r tlodi rydyn ni'n ceisio ei ddatrys."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

151 Llywodraeth Cymru (2019) *Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. [https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/strategaeth-ar-ddigartrefedd\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/strategaeth-ar-ddigartrefedd_0.pdf)

152 <https://llyw.cymru/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd>

153 Watts, B., Bramley, G., Fitzpatrick, S., Pawson, H., & Young, G. (2021) *The Homelessness Monitor: Scotland 2021*. London: Crisis.

154 Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2019) *Atal Cysgu Allan yng Nghymru a'i leihau yn y Byrdymor: Adroddiad i Weinidogion Cymru gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd-adroddiad-hydref-2019.pdf>

155 Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) *Y fframwaith o bolisiau, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru'n ei olygu mewn gwirionedd): Adroddiad gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar gyfer Llywodraeth Cymru*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. [https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd-adroddiad-mawrth-2020\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd-adroddiad-mawrth-2020_0.pdf)

156 Fitzpatrick, S., Mackie, P., and Wood, J. (2019) *Homelessness Prevention in the UK – Policy Briefing*. Ar-lein: CaCHE. <https://housingevidence.ac.uk/wp-content/uploads/2019/07/Homelessness-Prevention-in-the-UK-Policy-Brief-July-2019-final.pdf>

**"Rydw i'n meddwl bod y stwff am y gweithlu yn amserol iawn, mae angen i ni gael hynny'n iawn... rydw i'n sicr yn derbyn yn gyffredinol bod hynny'n angenrheidiol, bod angen i ni dalu pobl yn iawn a'u gwerthfawrogi fel staff cymorth a staff gweithiwr achos, ac mae angen rhyw fath o gysondeb a rhyw safon, efallai, ar draws y sector. Sut mae cyflawni hynny, ni wñ..."**  
(Hysbysydd allweddol, sector statudol)

Roedd cefnogaeth eang hefyd ymysg y rhai a gyfwelwyd i argymhellion blaenllaw HAG ar Ailgartrefu Cyflym, a ddiffiniwyd yn gryno gan un hysbysydd allweddol fel "lleihau'r amser nad yw pobl yn ei dreulio mewn tai prif ffrwd a thai sefydlog", a chynyddu'r ddarpariaeth 'Tai yn Gyntaf' ar gyfer pobl ddigartref sydd ag anghenion cymorth cymhleth.<sup>162</sup> Wedi dweud hynny, roedd rhywfaint o bryder hefyd yn amlwg ymysg rhai cyfranogwyr, a oedd yn gysylltiedig â thri phwynt allweddol. Yn gyntaf, yr oedd rhai hysbyswyr allweddol yn pryderu, fel y gellid disgwyl, am y cyflenwad tai a materion eraill sy'n ymwneud ag adnoddau:

**"Dwi'n meddwl nad ydyn ni mewn sefyllfa i fynd i lawr y llwybr Ailgartrefu Cyflym o ran niferoedd mawr neu ddyfnder ar y funud, achos does gennym ni ddim y stoc, does gennym ni ddim staff achos, a does gennym ni ddim staff cymorth."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector statudol)

Yn ail, tynnwyd sylw at gyfaddawd posibl rhwng cyflymder a phriodoldeb ailgartrefu gan rai:

**"...Mater sylweddol i ni yw sicrhau bod pobl yn cael eu gosod yn y cartrefi priodol yn y lle priodol..."**

yr hyn yr ydym yn ei boeni fwyaf amdano yw'r pwysau i, mae cartref ar gael, mae gennym rywun sy'n ddigartref, ac mae'n rhaid i ni eu rhoi yno oherwydd Ailgartrefu Cyflym. Yna, mewn gwirionedd, chwe mis yn ddiweddarach, maen nhw'n ei gasáu gan eu bod filltiroedd i ffwrdd o ysgol eu plentyn, maen nhw'n methu cael gwaith, y math yna o bethau. Dyma sut rydyn ni'n cydbwyso cynaliadwyedd ar gyfer y tenantiaid yn erbyn y brys o ran eu cartrefu."

(Hysbysydd allweddol, y sector annibynnol)

Yn drydydd, ac yn fwy sylfaenol, roedd ymrwymiad parhaus i fodolau darparu mwy cydlynol, o leiaf ar gyfer rhai grwpiau o bobl ddigartref, yn amlwg ymysg rhai hysbyswyr allweddol:

**"Fy unig bryder i gyda [Tai yn Gyntaf] yw nad yw'n fwled arian; nid y Ffindir ydyn ni ac mae rhai pobl mewn gwirionedd yn dewis byw mewn llety sy'n cael ei rannu. Nid oes a wnelo hyn â chael eich cegin a'ch ystafell ymolchi eich hun, oherwydd mewn gwirionedd, mae rhai tai cymunedol, yn enwedig ar gyfer... yfwyr stryd tymor hir, yn gweithio'n dda iawn. Rydw i'n meddwl, ie, gadewch i ni gofleidio'r dulliau newydd, cofleidio'r dystiolaeth, ond gadewch i ni beidio â diystyru dewis, oherwydd nid yw pawb eisiau byw felly."**

(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

**"...rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ailgartrefu'n gyflym a hynny yn brin, cryno ac unigol. Ond, mewn gwirionedd, mae cydnabod bod pobl ifanc ychydig yn wahanol a'u bod angen math gwahanol. Nid yw symud person ifanc sydd**

**heb rwydwaith cymorth yn sydyn i'w fflat ei hun heb y cymorth i adeiladu'r rhwydwaith honno yn ddefnyddiol oherwydd os bydd yn gadael y fflat honno, mae hynny yn creu cylch... mae yna bobl ifanc sy'n elwa'n wirioneddol o'r llety â chymorth 24-awr mwy traddodiadol."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

Dywedodd bron pob un o'r ymatebwyr Awdurdod Lleol eu bod o leiaf ychydig yn gyfarwydd ag argymhellion yr HAG. Credai hanner yr ymatebwyr hyn (n=11) y gallai rhai o'r cynigion weithio'n dda yn eu hardal eu hunain, gyda bron pob un o'r llell yn methu gwneud sylwadau. Er bod ychydig o ALLau wedi darparu llawer o fanylion am yr hyn a fyddai'n gweithio'n dda yn eu barn nhw, roedd ychydig o sylwadau trawiadol yn cynnwys y canlynol:

**"Yn gyffredinol gefnogol i'r argymhellion. Yn benodol, rwy'n teimlo bod cydnabod staff a 'phroffesiynoli' staff yn y sector yn hanfodol er mwyn gwella ansawdd reciriwtio, cadw staff ac, yn y pen draw, gwella'r gwasanaeth a ddarperir i unigolion agored i niwed."**  
(Awdurdod Lleol arall).

**"...mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn adroddiad HAG sydd o fewn ein rheolaeth eisoes wedi'u gwreiddio yn ein ffordd o weithio ac mae llawer o'r argymhellion eraill i'w croesawu. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod adnoddau'n dal i fod yn gyfyngedig ac felly mae rhai o'r argymhellion yn uchelgeisiol wrth weithio o fewn ein dulliau presennol. Byddem yn croesawu'n arbenig y ffith bod mwy o gyfrifoldeb yn cael ei ysgwyddo gan bartneriaid statudol eraill megis iechyd a rhai meysydd gwasanaethau cymdeithasol."**  
(Awdurdod Lleol arall).

Roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr ALL (18 allan o 22) yn cynnig cefnogaeth mewn egwyddor i roi Ailgartrefu Cyflym ar waith yn eu hardal. Ond roedd hyn yn aml yn amodol ar ddarparu'r adnoddau angenrheidiol, ac yn enwedig y cyflenwad tai hirdymor, yn enwedig unedau un ystafell wely (gweler Pennod 2) hefyd:

**"Rydym yn croesawu'r syniad a'r bwriad [o Ailgartrefu Cyflym]. Gwyddom i gyd pa mor drawmatig a chythryblus y gall cyfnodau hir mewn llety dros dro fod, ac mae pob un ohonom am weld pobl mewn cartrefi sefydlog yn gyflym a chael gwared ar gynifer o rwystrau ag y gallwn i wireddu hynny. Fodd bynnag, mae gennym bryderon yngylch y cyflenwad llety i wneud i hyn ddigwydd. Nid yw'r model llety dros dro presennol yn bodoli oherwydd ein bod yn credu ei fod yn wych ac yn fforddiadwy, rydym yn gwybod ei fod yn ddrud ac y gallai fod yn drawmatig, ond mae'n gynnyrch marchnadoedd lleol presennol a'r cyflenwad cyfyngedig o dai cymdeithasol a rhentu preifat fforddiadwy. Mae angen rhoi sylw i hyn/buddsoddi ynddo er mwyn i ni gyflawni'r nod hwn."**  
(Awdurdod Lleol Gwledig)

Yn yr un modd, ymysg yr ymatebwyr hynny o awdurdodau lleol a oedd o'r farn y byddai'n anodd gweithredu rhai o argymhellion yr HAG yn eu hardal (12 i gyd), roedd yr ymhelaethu mewn testun agored yn tuedd i nodi y byddai dyheadau ar gyfer Ailgartrefu Cyflym yn ymestyn adnoddau presennol ymhellach:

**"...mae'r lefelau stoc o ran RSL a PRS fforddiadwy yn golygu bod mabwysiadu protocol ailgartrefu cyflym a llawn yn heriol iawn."**  
(Awdurdod Lleol arall)

**"Mae ailgartrefu cyflym yn her, yn enwedig heb stoc wrth gefn. Mae cael cyflenwad o lety fforddiadwy yn anodd i ni."**  
(Awdurdod Lleol Gwledig)

Yn yr un modd â hysbyswyr allweddol, roedd yn ymddangos hefyd, ymssg o leiaf rhai ALLau, fod rhywfaint o ansicrwydd yngylch egwyddorion sylfaenol Ailgartrefu Cyflym, yn enwedig pan fydd hyn yn cyfuno ag agenda Tai yn Gyntaf:

**"Rwy'n cefnogi'r egwyddor, foddy bynnag, rwy'n teimlo bod angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol, er mwyn gwneud RRP llawn yn hyfyw. Rwyf hefyd yn teimlo bod angen i ni gydnabod bod angen i dai â chymorth barhau i chwarae rhan gan ein bod yn ymwybodol bod yna nifer cymharol fach o unigolion cymhleth iawn nad ydynt yn gallu rheoli tenantiaeth, hyd yn oed gyda chefnogaeth ddwys. Mae dewisiadau unigolion o ran sylweddau, ymddygiad ac awydd i ymgysylltu yr un mor allweddol i hyn, â'r cymorth priodol sydd ar gael."**  
(Awdurdod Lleol arall)

Roedd y sylwadau cyfunol hyn gan ALL a hysbyswyr allweddol yn tueddu, felly, i gefnogi'r asesiad o un prif hysbysydd:

**"...mae llawer mwy o waith i'w wneud yng Nghymru i gael consensws, pan ddwedwn mai Ailgartrefu Cyflym a'i holl elfennau amrywiol yw'r ateb i bawb, ein bod, mewn gwirionedd, yn golygu pawb. Gallai gymryd mwy o amser, gallai olygu cael mwy o gefnogaeth, a gallai fod yn fwy cymhleth i rai pobl nag i eraill... Credaf, mewn ffordd,**

**fod yna ddadl ddiwylliannol o fath i'w hennill o ran mai dyna'r ffordd iawn o wneud pethau... credaf fod angen cynnal y sgwrs genedlaethol honno am Tai yn Gyntaf ac Ailgartrefu'n Gyflym."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

### 3.4 Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 a diwygio deddfwriaethol yn y dyfodol

Yn seiliedig ar argymhellion adolygiad a noddwyd gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2012,<sup>163</sup> daeth Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) i rym ym mis Ebrill 2015, gan ailwampio deddfwriaeth digartrefedd Cymru mewn modd radical. Roedd Deddf 2014 yn rhoi pwyslais ar ymyriadau 'ataliol' cynharach ar gyfer aelwyd yd sy'n 'wynebu bygythiad o ddigartrefedd', yn ogystal â dyletswyddau 'lliniaru' digartrefedd, sy'n berthnasol beth bynnag fo'r angen blaenoriaethol. Fodd bynnag, os bydd yr ymdrechion atal a lleddfu hyn yn methu, mae'n dal yn wir mai dim ond aelwyd yd sydd ag angen blaenoriaethol sydd â'r hawl i gael tai wedi'u sichau gan yr awdurdod tai lleol. Efallai na fydd ymgeiswyr ag angen blaenoriaethol sy'n 'methu cydweithredu'n afresymol' â'r cymorth atal neu liniaru, neu wrthod cynnig addas o lety, yn symud ymlaen i'r ddyletswydd statudol derfynol hon. Mae newidiadau cyfreithiol dilynol, ym mis Rhagfyr 2019, yn golygu, mewn perthynas â'r rhan fwyaf o deuluoedd digartref gyda phlant a phobl ifanc dan 21 oed, na all awdurdodau lleol Cymru ddefnyddio'r prawf 'bwriadoldeb' i gyfyngu ar fynediad at dai sefydlog.

O'r cychwyn cyntaf, roedd yr arwyddion yn awgrymu bod y fframwaith newydd o dan Ddeddf 2014 wedi cael cryn dipyn o gefnogaeth ac ewyllys da ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol.<sup>164</sup> Ochr yn ochr ag ailgyfeirio gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol tuag at fodel mwy rhagweithiol ac ataliol, dywedwyd bod pobl sengl ddigartref yn benodol wedi cael ymateb llawer gwell i'r gwasanaeth. Roedd beirniadaethau o'r drefn ddigartrefedd newydd yn tueddu i fod yn rhai yn ymwneud â gweithredu yn hytrach nag egwyddor, gan ganolbwytio ar faterion megis gormod o waith papur yn gysylltiedig â'r broses ymgeisio aml-gam, ac anghysondeb yn yr ymatebion i'r gwasanaeth.<sup>165</sup> Yn fuan ar ôl cyhoeddi Monitor Digartrefedd diwethaf Cymru, a bron i dair blynedd ar ôl i ddeddfwriaeth newydd Cymru ddod i rym, canfu gwerthusiad annibynnol mai'r "consensws pendant" oedd bod y fframwaith statudol newydd wedi arwain at ddull mwy ataliol sy'n canolbwytio ar yr unigolyn, sydd wedi arwain at ymateb llawer gwell i fynd i'r afael â digartrefedd.<sup>166</sup>

Fodd bynnag, cydnabuwyd bod grwpiau sylweddol yn bodoli o hyd lle mae'r system ddiwygiedig hon ar gyfer digartrefedd yng Nghymru yn dal i fethu â chyflawni ateb boddhaol, yn fwyaf arbennig aelwyd yd un person 'nad ydynt yn flaenoriaeth' lle mae ymdrechion i gael cymorth yn aflwyddiannus, ac nad ydynt wedyn yn gymwys ar gyfer y ddyletswydd ailgartrefu terfynol.<sup>167</sup> O ran y pwynt olaf hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol y llynedd ar opsiynau ar gyfer diwygio'r prawf angen blaenoriaethol neu ei ddiddymu'n gyfan gwbl.<sup>168</sup> Yn dilyn hynny, cofnodwyd bod y Gweinidog, Julie James, ar sawl achlysur cyhoeddus yn ymrwymo i ddileu'r maen prawf angen blaenoriaethol, a fyddai wedyn yn ymestyn hawliau tai dros dro a sefydlog i bobl sengl nad yw eu digartrefedd wedi'i atal.<sup>169</sup> Mae'r HAG wedi argymhell dileu rhwystrau cyfreithiol sydd ar hyn o bryd yn atal pobl rhag cael gafael ar dai a chymorth, gan gynnwys yr angen blaenoriaethol statudol, profion bwriadoldeb a chysylltiad lleol,<sup>170</sup> ac mae'r Cynllun Gweithredu lefel uchel a gyhoeddwyd ar hyn o bryd ar gyfer

164 Mackie, P. (2014) 'The Welsh Homelessness Legislation Review: Delivering Universal Access to Appropriate Assistance?', *Contemporary Wales*, 27(1), 1-20; Shelter Cymru (2015) *A Brand New Start: Homelessness and the Housing (Wales) Act*. Caerdydd: Shelter Cymru; Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S., Watts, B & Wood, J. (2017) *Y monitor digartrefedd: Cymru 2017*. London: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/media/238193/y-monitor-digartrefedd-cymru-2017.pdf>; Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. & Watts, B. (2015) *The Homelessness Monitor: Wales 2015*. London: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/wales/the-homelessness-monitor-wales-2015/>

165 Shelter Cymru (2016) *Reasonable Steps: Experiences of Homelessness Services Under the Housing (Wales) Act 2014*. Caerdydd: Shelter Cymru; Mackie, P., Thomas, I. & Bibbings, J. (2017) 'Homelessness prevention: reflecting on a year of pioneering Welsh legislation in practice', *European Journal of Homelessness*, 11(1), 81-107.

166 Ahmed, A., Wilding, M., Gibbons, A., Jones, K., Rogers, M., & Madoc-Jones, I. (2018). *Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru; gweler hefyd, Ahmed, A. & Madoc-Jones, I. (2020) 'Homelessness Prevention Policy in an International Context: The Housing Act (Wales) 2014', *Social Policy and Society*, 19(1), 95-108. doi:10.1017/S147474641900037X

167 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S., Watts, B & Wood, J. (2017) *Y monitor digartrefedd: Cymru 2017*. London: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/media/238193/y-monitor-digartrefedd-cymru-2017.pdf>; gweler Mackie, P., Gray, T., Hughes, C., Madoc-Jones, I., Mousteri, V., Pawson, H., Spyropoulos, N., Stirling, T., Taylor, H. & Watts, B. (2020). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

168 Mackie, P., Gray, T., Hughes, C., Madoc-Jones, I., Mousteri, V., Pawson, H., Spyropoulos, N., Stirling, T., Taylor, H. & Watts, B. (2020) *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

169 <https://www.facebook.com/watch/?v=327417072382539>

170 Grwp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) *Y fframwaith o bolisiau, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru* (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru'n ei olygu mewn gwirionedd): *Adroddiad gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar gyfer Llywodraeth Cymru*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. [https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd-adroddiad-mawrth-2020\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd-adroddiad-mawrth-2020_0.pdf), p. 43

ymgyngħori hefyd yn ymrwymo i adolygu'r fframwaith deddfwriaethol.<sup>171</sup>

Yn arolwg yr ALL eleni, roedd rheolwyr opsiynau digartrefedd/tai, ar y cyfan, yn gadarnhaol iawn yn eu hasesiad cyffredinol o'r diwygiadau deddfwriaethol a ddaeth i rym yn 2014. Roedd dau ar bymtheg (o 22) yn teimlo ei fod yn fuddiol, gyda'r rhan fwyaf o'r rhain yn ei ystyried yn 'fuddiol iawn' o ran atal a lliniaru digartrefedd yn eu hardal, er bod ymatebion awdurdodau gwledig yn tueddu i fod ychydig yn fwy cymysg (gweler Tabl A.13). Roedd sylwadau penagored oedd yn ategu asesiad cadarnhaol cyffredinol o'r deddfwriaeth yn cynnwys:

**"Mae cyfrifoldeb statudol i ddarparu cyngor, gwybodaeth a chamau gweithredu i atal digartrefedd ac i asiantaethau fod â dyletswydd gyfreithiol i gydweithredu wedi bod yn gatalydd ar gyfer strategaethau, polisiau a chynlluniau gweithredu sy'n canolbwytio ar atal neu leddfu digartrefedd"**  
(Awdurdod Lleol Trefol).

**"Gweithgarwch atal llawer mwy cadarnhaol a gwaith cydgysylltiedig gyda phartneriaid i atal digartrefedd. Mwy o ffocws ar anghenion cleientiaid ac nid dim ond y rhai mewn Angen Blaenoriaethol. Mwy o newid diwylliannol o fewn y tîm digartrefedd a phartneriaid estynedig"**  
(Awdurdod Lleol arall).

Ar yr un pryd, mynegwyd rhai safbwytiau mwy beirniadol gan Awdurdodau Lleol hefyd:

**"Mae'r deddfwriaeth mor gyfarwyddol fel nad yw'n rhoi llawer o le i feddwl y tu allan i'r bocs o ran cefnogaeth. Mae'n fiwrocataidd ac yn cynnwys**

**gormod o gamau hysbysu y mae swyddogion yn rhoi pobl drwyddynt gan nad ydynt yn gallu gweithio'n effeithiol gyda nhw yn ystod y pandemig"**  
(Awdurdod Lleol Gwledig).

Er bod bron pob hysbysydd allweddol hefyd wedi cytuno'n gryf ar rinweddau fframwaith 2014, roedd yna thema gyson hefyd mai pobl sy'n cysgu allan a/neu sydd ag anghenion cymhleth wedi elwa leiaf o'r newidiadau blaengar yr oedd wedi'u gwneud:

**"...pobl sy'n cysgu allan yw'r grŵp sydd wedi cael y cam mwyaf, sy'n cael y cam mwyaf, oherwydd eu bod yn ddigartref, a does dim ond dyletswydd arnoch chi i gymryd camau rhesymol i helpu i dod o hyd i rywle, ond ar yr adeg honno, does gennych chi ddim dyletswydd i ddarparu llety dros dro iddyn nhw, oni bai eich bod chi'n meddwl y byddan nhw'n ag angen blaenoriaethol."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector annibynnol)

Yn rhannol oherwydd y rhngweithio anghyfforddus braidd rhwng yr ymateb brys i COVID-19 a'r fframwaith statudol presennol, a'r drefn tenantiaeth breifat newydd (gweler Pennod 2), ond sydd hefyd wedi'i wreiddio mewn cynigion tymor hwy ar gyfer diwygio, roedd galwadau am ailedrych ar Ddeddf 2014 yn eang:

**"Mae gennym ni hefyd lawer o bobl sy'n cael llety nad oes dyletswydd ffurfiol yn ddyledus iddynt ar hyn o bryd, a does ganddyn nhw ddim hawl i gael eu hadolygu os bydden nhw'n cael eu troi allan, er enghraifft. Mae bron fel...Dydyn ni ddim wedi rhoi'r deddfwriaeth o'r neilltu'n llwyr ond mae ei heffaith wedi cael ei gwanhau drwy gydol y broses hon ac rwy'n meddwl am y dyfodol... yna allwn**

**ni ddim dibynnu ar ganllawiau COVID am byth. Mae angen i hynny gael ei adlewyrchu yn y gyfraith onid oes?"**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

**"Rwy'n credu ei bod yn eithaf clir bod angen uwchraddio a thaenu'r dyletswyddau atal ar draws gwasanaethau cyhoeddus, lleihau'r amser y mae dyletswydd atal yn ddyledus i bobl, a'r maebs hwnnw o leihau'r rhwystrau...Mae cyfle, yn fy marn i, i dderbyn holl argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, a gwneud yn siŵr bod popeth sy'n gofyn am newid deddfwriaethol yn cael sylw nawr... rhoi sylw i'r holl rhwystrau hynny, yn enwedig yr angen blaenoriaethol, ond hefyd i roi terfyn ar y cysylltiad a'r bwriad lleol... Mae'n bryd ei ailagor...Dyd y hynny ddim yn feirniadol mewn unrhyw ffordd oherwydd roedd yn arloesol ar y pryd."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

**"...pan ddaw'r drefn tenantiaeth newydd i rym, o bosibl yn ystod gwanwyn y flwyddyn nesaf, bydd ein cyfnod rhybudd ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli Adran 21, yn mynd hyd at chwe mis yn y rhan fwyaf o amgylchiadau... Rwy'n meddwl bod llawer o bryder ynghylch pobl yn cael rhybudd, yn mynd i'w hawdurdod lleol, a'u hawdurdod lleol yn dweud, 'Wel, byddwn yn eich helpu pan fyddwch chi o fewn 56 diwrnod', a hynny ychydig yn wrthgynhyrchiol ac mewn gwirionedd bron yn mynd yn groes i'r pwyt o ymestyn y cyfnod rhybudd yn y lle cyntaf."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector statudol)

Un o ganfyddiadau pwysig arolwg yr ALL eleni oedd bod mwyafrif clir o'r ymatebwyr (15 o 22) yn credu y byddai dileu'r prawf angen blaenoriaethol o ddeddfwriaeth digartrefedd Cymru yn fuddiol, a dim ond chwech oedd yn anghytuno (gweler Tabl A.14).<sup>172</sup> Efallai y bydd y momentwm tuag at ddiddymu a ddeilliodd o'i ddatgymhwys o drwy gydol pandemig COVID-19 yn egluro hyn yn rhannol:

**"Rwy'n credu bod y ffaith nad yw wedi cael ei ddefnyddio am gyfnod mor hir, wedi golygu bod y dadleuon dros beidio â'i wneud yn llawer gwannach. Rydw i'n gallu gweld rhywbeth yn digwydd yno, gyda chynllun yn cael ei roi at ei gilydd i greu llai o rwystro'r rhag cael mynediad at wasanaethau digartrefedd."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector annibynnol)

Wedi dweud hynny, roedd ymatebwyr yn aml yn tymheru hyn mewn cefnogaeth yn bennaf i ddileu angen blaenoriaethol drwy bwysleisio ei fod yn amodol ar gyllid ychwanegol neu adnoddau eraill:

**"Byddai'n rhaid rheoli lefelau uchel o lwythi achosion yn y dyfodol, sy'n anghynaladwy heb gyllid trosiannol ac adnoddau ychwanegol. Byddai'n gwneud tai'n fwy o fater o hawliau dynol gan y byddai llai o feini prawf yn cael eu defnyddio ar gyfer darparu gwasanaethau statudol. Byddai angen cynyddu'r cyflenwad tai yn sylweddol er mwyn sicrhau y gellid symud ymlaen."**  
(Awdurdod Lleol Trefol)

Roedd barn yr ALL yn llawer mwy rhanedig ar ddiddymu'r prawf digartrefedd bwriadol (wedi'i gefnogi gan 10, a'i wrthwnebu gan 9). Roedd sylwadau penagored yn tueddu i

<sup>171</sup> Llywodraeth Cymru (2021) *Rhoi diwedd ar ddigartrefedd: Cynllun gweithredu lefel uchel – 2021-2026*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-10/rhoi-terfyn-ar-ddigartrefedd-cynllun-gweithredu-lefel-uchel-2021-i-2026.pdf>

<sup>172</sup> Mackie, P., Gray, T., Hughes, C., Madoc-Jones, I., Mousteri, V., Pawson, H., Spyropoulos, N., Stirling, T., Taylor, H. & Watts, B. (2020). *Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

bwysleisio bod y ffaith fod prinder penderfyniadau 'digartref yn fwriadol' yn ymarferol, yn enwedig gan fod y newidiadau a roddwyd ar waith yn 2019 wedi cwtogi'n sylweddol ar ei gwmpas perthnasol, yn golygu bod gwelliant o'r fath yn dderbynol ac yn ymarferol oherwydd na fyddai'n cael fawr o effaith ar ganlyniadau. Fodd bynnag, roedd gwrthwynebwyr i'r symudiad hwn yn tueddu i'w weld fel rhywbeth trafferthus a oedd yn cael gwared ar gymhelliant 'ymddygiad da':

**"Nid yw [bwriadoldeb] yn berthnasol mewn llawer o achosion, felly ni fyddai'n cael llawer o effaith; foddy bynnag, rydym yn teimlo'n bryderus y byddai dileu hyn yn anfon y neges anghywir i bobl, y gallent ymddwyn yn wael, ac na fyddai unrhyw ganlyniadau iddynt."**

(Awdurdod Lleol Gwledig)

Yn amlwg iawn, roedd yna anghymeradwyaeth unfrydol bron ymystg Awdurdodau Lleol Cymru bron yngylch dod â rheolau cyswllt lleol i ben, sy'n pennu pa Awdurdodau Lleol sydd â'r ddyletswydd ailgartrefu derfynol,<sup>173</sup> gyda 19 o'r 22 o gynrychiolwyr cynghorau yn barnu na fyddai symudiad o'r fath yn fuddiol. Pan fo hynny yn cael ei ategu gan sylwadau manylach, roedd dileu'r prawf cysylltiad lleol yn tueddu i gael ei ystyried yn broblem i reolwyr, gyda phob math o ALL yn tybio y byddai'r galw yn cynyddu yn eu hardal o ganlyniad i newid o'r fath:

**"Mae cysylltiad lleol yn allweddol er mwyn i Awdurdodau Lleol allu rheoli'r galw ar wasanaethau a'r ddyletswyddau sy'n ddyledus a sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion tai a chymorth y rheini sydd â chysylltiadau â'u bwrdeistrefi."**

(ALL y Cymoedd).

**"Cysylltiad lleol, byddem yn bryderus iawn petai hyn yn cael ei ddileu, gan fod [ardal wledig] yn ardal ddeniadol i fyw ynndi ac rydym yn credu y byddai hyn yn gwneud ein dulliau gweithredu'n amhosibl i'w rheoli."**

(Awdurdod Lleol Gwledig).

**"Mae angen cysylltiad lleol i sicrhau nad yw gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu a'u hariannu'n lleol yn cael eu gorymestyn a bod asesiadau o anghenion lleol yn gywir i drigolion yr ardal.**

**Byddai digartrefedd, yn enwedig cysgu allan, yn cael ei yrru gan y gwasanaethau sydd ar gael ac yn hygrych mewn ardal ac yn achosi anghydraddoldeb mewn materion cymdeithasol a chymunedol."**

(Awdurdod Lleol Trefol)

Roedd hysbyswyr allweddol, i'r gwrthwyneb, yn tueddu i ddangos cydymdeimlad tuag at gael gwared ar gyfyngiadau cysylltiad lleol,<sup>174</sup> er eu bod yn cydnabod y gallai hyn arwain at ganlyniadau o ran dosbarthu rhwng awdurdodau lleol yr oedd angen delio â hwy:

**"Mae [cysylltiad lleol] yn arbennig o anodd i bobl sy'n dianc rhag traus, ac nid dim ond cam-drin domestig. Gallai fod yn werthwr cyffuriau y mae arnoch chi arian iddo neu unrhyw un o'r pethau hynny. Rydw i'n meddwl bod angen i ni roi cyfle i bobl newid eu bywydau. Eto, mae cyllido hynny'n sgwrs arall ... dydw i ddim yn gwybod pam na allwn ni anfonebu'n fewnol rhwng awdurdodau lleol fel bod yr awdurdod lleol cartref efallai yn talu i'r awdurdod lleol sy'n lletya, oherwydd mae'r cyfan yn dod i lawr i arian yn y pen draw, onid yw?"**

(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

Yn olaf, mynegwyd pryder gan nifer o hysbyswyr allweddol yngylch diffyg rheoleiddiwr tai yng Nghymru i sicrhau y glynir wrth safonau gweithredu priodol:

**"Dwi'n meddwl mai'r diffyg rheoleiddio fydd ein her fwyaf nesaf nawr, gan nad oes neb yn gallu gorfodi hyn a does dim un person yng Nghymru sy'n gyfrifol am roi diwedd ar ddigartrefedd.**

**Mae gormod o atebolrwydd ar draws gormod o wahanol bortffolios gweinidogol. Allwch chi ddim ei glustnodi, a heb yr atebolrwydd hnwnnw dwi'n meddwl, dydyn ni ddim yn mynd i weld cymaint o ymroddiad ac arloesedd ag sydd ei angen arnon ni efallai."**

(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

### 3.5 Pwyntiau allweddol

- Cafodd y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, ac yn enwedig cysgu allan, yn ystod pandemig COVID-19 eu canmol yn fawr. Ystyriwyd bod cyfuniad o ganllawiau clir (gan gynnwys mewn perthynas â NRPF), cyllid ychwanegol sylweddol, ac ymrwymiad gwleidyddol lefel uchel yn sail i'w dull gweithredu'n effeithiol.
- Cafodd natur barhaus y cyllid 'Cam 1' a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i dalu am gostau llety brys, a maint sylweddol cyllid Cam 2 ar gyfer atebion tai tymor hwy, groeso cynnes, yn ogystal â'r cynnydd sylweddol yn y Grant Cymorth Tai prif ffrwd yn y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, roedd rhai pryderon yn ymneud â pha mor gyflym y bu'n rhaid defnyddio'r cronfeydd cyfalaf Cam 2, gyda chwestiynau'n dal i fodoli yngylch pa mor briodol oedd y buddsoddiadau mewn TA graddfa fawr yn benodol.

<sup>173</sup> Mae meinu prawf cyswllt lleol hefyd yn cael eu defnyddio yn y cam lliniaru ar gyfer yr aelwyd yd hynny sy'n debygol o gael eu barnu fel rhai sydd ag angen blaenoriaethol.

<sup>174</sup> Mackie, P., Gray, T., Hughes, C., Madoc-Jones, I., Mousteri, V., Pawson, H., Spyropoulos, N., Stirling, T., Taylor, H. & Watts, B. (2020). Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

- Mae argymhelliad allweddol arall gan HAG yn ymwneud â chael gwared ar rwystrau cyfreithiol i bobl ddigartref rhag cael gafael ar dai a chymorth, gan gynnwys yr angen blaenoriaethol statudol presennol, profion digartrefedd bwriadol a chysylltiad lleol. Mae canlyniadau ein harolwg yn dangos bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru yn cefnogi dileu'r maen prawf angen blaenoriaethol, ond mae'r farn wedi'i rhannu'n fwy ymystg cynghorau ynghylch dileu'r prawf digartrefedd bwriadol, ac yn gadarn yn erbyn dileu cyfyngiadau ar gysylltiad lleol.

# Digartrefedd statudol

## 4. Digartrefedd statudol

### 4.1 Cyflwyniad


Mae'r bennod hon yn dadansoddi'r newid diweddar yn natur a maint digartrefedd statudol. Yn gyson â gweddill yr adroddiad, mae'n canolbwytio'n bennaf ar bandemig COVID-19. O ran y data ystadegol ac arolygon sydd ar gael adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae hyn yn cyfateb i flwyddyn ariannol 2020/21 i raddau helaeth. Fodd bynnag, i fframio'r dadansoddiad hwn, mae prif gorff y bennod yn dechrau gyda phersbectif ychydig yn fwy hirdymor sy'n cwmpasu'r cyfnod o gyflwyno'r ddeddfwriaeth digartrefedd newydd (Deddf Tai (Cymru) 2014) yn 2015/16 hyd at ddechrau'r pandemig yn fras – hynny yw, diwedd blwyddyn ariannol 2019/20.

Mae'r bennod yn seiliedig ar ddwy brif ffynhonnell. Yn gyntaf, mae'n defnyddio ein harolwg Awdurdodau Lleol a gynhalwyd ym mis Mehefin-Gorffennaf 2021. Yn ail, rydym yn defnyddio ystadegau digartrefedd fel y'u cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn anffodus, fodd bynnag, mae'r ystadegau swyddogol ar gyfer 2020/21 yn dal heb eu cyhoeddi i

raddau helaeth adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn – dim ond ffigurau cyfyngedig iawn ar leoliadau llety dros dro sydd wedi cael eu rhyddhau. Ar ben hynny, mae gwefan berthnasol Llywodraeth Cymru yn cynghori bod 'nifer o'r casgliadau data tai ar gyfer 2019-20 wedi cael eu canslo<sup>175</sup> ac nid yw wedi bod yn bosibl canfod a yw hyn yn golygu y bydd yr ystadegau digartrefedd swyddogol arferol ar gyfer 2020/21 yn parhau heb eu cyhoeddi'n barhaol.

Yn dilyn y cyflwyniad hwn, mae dwy brif ran i'r bennod. Yn gyntaf, yn Adran 4.2, rydym yn dadansoddi maint a natur newidiol digartrefedd statudol. Yna, yn Adran 4.3, yn yr achos hwn, gan ddefnyddio data ein harolwg yn llwyr, rydym yn troi at reoli digartrefedd o ran y ffyrrd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni dyletswyddau tai ar gyfer pobl ddigartref. Yn olaf, yn Adran 4.4, rydym yn dod â'r bennod i ben yn gryno.

**Ffigur 4.1: Aelwydydd sy'n destun lliniaru neu atal digartrefedd, 2015/16-2019/20**



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru<sup>176</sup>

Sylwch: Oherwydd y gall aelwydydd, mewn egwyddor, dderbyn y ddua fath o gymorth (h.y. atal a lliniaru), byddai ychwanegu'r rhifau sy'n gysylltiedig â phob math o gymorth yn arwain at gyfrif ddwywaith. Fodd bynnag, mae'r ffigurau a ddangosir yn y graff yma yn adlewyrchu'r rhifau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 'Cefnswm atal/lliniaru' sydd, drwy oblygiad, yn caniatâu ar gyfer hyn.

#### 4.2 Y galw o ran digartrefedd


##### Maint newidiol y galw o ran digartrefedd

Er bod modd defnyddio nifer o ddangosyddion gwahanol i fesur maint newidiol digartrefedd, mae'r ystadegau swyddogol amrywiol y gellid eu defnyddio at y diben hwn i gyd yn awgrymu tuedd ar i fyny yn y blynnyddoedd sy'n arwain at y pandemig. Gellid dadlau mai'r ffordd orau o ddangos hyn yw mewn perthynas â'r garfan sy'n destun cymorth i atal digartrefedd neu gymorth lliniaru gan awdurdodau lleol. Mae'r termau hyn yn cwmpasu'r camau gweithredu y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu cymryd mewn ymateb i geisiadau digartrefedd gan bobl yr ystyrir yn wreiddiol eu bod yn 'gymwys i gael cymorth' a naill ai'n ddigartref neu dan fygythiad

o ddigartrefedd. I gael rhagor o fanylion, gweler y diagram o'r broses a ddynodwyd yn ddeddfwriaethol ar gyfer ymatebion Awdurdodau Lleol i gyflwyniadau digartrefedd yn adroddiad *Y monitor digartrefedd: Cymru 2017* (gweler Ffigur 4.3 yn yr adroddiad 2017).

Oherwydd ei bod yn debygol y tarfwyd ar arferion digartrefedd awdurdodau lleol yn 2015/16 drwy gyflwyno fframwaith deddfwriaethol newydd yn y flwyddyn honno, mae'n debyg bod 2016/17 yn llinell sylfaen fwy addas ar gyfer yr asesiad hwn. Fel y dangosir yn Ffigur 4.1, bu cynydd o 19% yn nifer yr achosion atal a lliniaru yn ystod y tair blynedd hyd at 2019/20, er eu bod yn cyrraedd lefel sefydlog yn 2019/20.

**Ffigur 4.2: Aelwydydd sy'n destun dyletswyddau digartrefedd awdurdod lleol, 2015/16-2019/20**



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Fel ffordd arall o asesu newid dros amser, mae lefelau gweithgarwch o dan bob un o'r tair prif ddyletswydd statudol sydd wedi'u cynnwys yn neddfwriaeth 2014<sup>177</sup> i'w gweld yn Ffigur 4.2. Felly, yn y tair blynedd hyd at 2019/20, roedd y camau gweithredu i helpu ymgeiswyr o dan S66 (cymorth atal) ac S73 (cymorth lliniaru) wedi cynyddu 8% a 14% yn y drefn honno. Roedd camau gweithredu dan S75 ('dyletswydd derfynol' i sicrhau lletty) wedi cynyddu 48%, er eu bod o sylfaen llawer is na'r gweithgareddau eraill o ran niferoedd absoliwt. Wrth ddehongli'r ffigurau hyn, dylid nodi hefyd, oherwydd y gall aelwydydd

fod yn destun mwy nag un o'r mathau hyn o gymorth,<sup>178</sup> na ellir crynhoi'r niferoedd.


Roedd sylwadau'r prif hysbyswyr yn dangos bod y symudiad diweddar hwn oddi wrth ymyriadau ataliol tuag at ganolbwytio mwy ar ddyletswyddau lliniaru ac ailgartrefu wedi'i atgyfnerthu yn ystod y pandemig:

**"...Mae gan lawer mwy o bobl y ddyletswydd Adran 75 derfynol honno, a'r math o dderbyn mewn awdurdodau lleol mai dyna sy'n digwydd, sef wrth i bobl ddod drwy'r drws, mai dyna fydd eu**

<sup>177</sup> Er mwyn helpu i ddehongli'r ystadegau hyn – a'r gydberthynas rhwng y dyletswyddau cysylltiedig – efallai y byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at diagram o'r broses sydd wedi'i dynodi'n ddeddfwriaethol fel y'i cynhwysir yn Ffigur 4.3.

<sup>178</sup> Er enghraifft, byddai hyn yn berthnasol i ymgeisydd y tybir i ddechrau ei fod dan fygythiad o ddigartrefedd (ac felly'n gymwys i gael cymorth atal dan S66), ond yna'n mynd yn ddigartref go iawn oherwydd methiant y cymorth cychwynnol hwn, ac yna'n dod yn destun penderfyniad 'prif ddyletswydd' S75 oherwydd bod ymdrechion i lliniaru digartrefedd S73 wedi methu.

**Ffigur 4.3: Y newid tybiedig yn nifer cyffredinol yr aelwydydd sy'n chwilio am gymorth digartrefedd yn 2020/21 o'i gymharu â 2019/20**



Ffynhonnell: Arolwg yr awduron

hanes, byddant mewn Adran 75. Ie, a chynnydd enfawr yn nifer y bobl sy'n byw mewn llety dros dro."

(Hysbysydd allweddol, y sector statudol)

Fel y nodwyd uchod, wrth asesu effeithiau digartrefedd y pandemig – h.y. canolbwytio ar y sefyllfa yn 2020/21 – rydym yn dibynnu i raddau helaeth ar arolwg yr awduron o'r ALL. Fel y dangosir yn Ffigur 4.3, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn credu bod y galw a fynegwyd o ran digartrefedd wedi cynyddu yn 2020/21 o'i gymharu â 2019/20. Roedd hanner yr ymatebwyd (11) yn credu bod cynnydd o'r fath yn 'sylweddol', ac roedd pedwar arall yn dweud ei fod yn 'fychan'.

Ymysg y rheini a oedd yn gweld cynnydd yn y galw a fynegwyd yn 2020/21, roedd nifer o ymatebwyr yn priodoli hyn i weithredu canllawiau Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r rhaglen llety brys genedlaethol, a'r diogelwch a'r anogaeth a roddwyd i bobl a fyddai fel arfer yn cael eu hasesu fel rhai nad oes ganddynt angen blaenoriaethol:

**"Mae'r Nodyn Cyfarwyddyd dros dro gan Lywodraeth Cymru wedi sicrhau y bydd unrhyw un a allai ddod yn berthnasol i'r diffiniad o ddigartrefedd, ond nid o reidrwydd yn cysgu allan, yn cael cynnig llety dros dro, sydd wedi rhoi dewis i lawer o bobl ac, yn y bôn, wedi dod â'r 'digartref cudd' allan."**

(Awdurdod Lleol arall)

**"Cynnydd enfawr mewn cyflwyniadau o ganlyniad uniongyrchol i Ganllawiau COVID-19 newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a dileu'r angen blaenoriaethol."**

(Awdurdod Lleol arall)

Mewn perthynas â phwyslais gwahanol, roedd eraill yn credu bod rhai ffactorau sy'n arwain at ddigartrefedd wedi cael eu gwaethyg gan gyfyngiadau symud y pandemig a ffactorau straen eraill:

**"Rydyn ni wedi gweld cynnydd mewn cyflwyniadau ar gyfer cam-drin domestig a pherthynas yn chwalu o ran teulu/ffrindiau, yn aml oherwydd materion sy'n ymwneud â rheoliadau COVID. Mae llawer o bobl hefyd wedi colli eu 'rhwyd ddiogelwch' lle byddent fel arfer yn gallu aros gyda ffrindiau/teulu eraill ond heb allu gwneud hynny yn ystod y pandemig oherwydd pryderon yngylch lledaeniad y feirws/amddiffyn pobl agored i niwed a thorri canllawiau COVID."**

(Awdurdod Lleol Trefol)

**"Mwy o chwalfa teulu/perthynas, trefniadau syrffio soffas yn dod i ben a arweiniodd at gynnydd yn nifer y rhai sy'n cysgu allan, y rhai sy'n gadael carchar yn dod allan o NFA, ynghyd â'r landlordiaid yn rhoi s21/NTQ."**

(Awdurdod Lleol y Cymoedd)

Yn benodol, fodd bynnag, mewn dau o'r tri awdurdod trefol mawr (Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe) nodwyd bod y cyflwyniadau digartrefedd cyffredinol wedi gostwng rhywfaint – gweler Ffigur 4.3.

Ymysg y lleiafrif o gynghorau lle'r oedd y galw am dai wedi gostwng yn gyffredinol, roedd hyn yn tueddu i gael ei egluro gan ganfyddiad bod cyfraddau is o droi allan o renti preifat wedi bod yn fwy na'r galw ychwanegol a oedd yn cynnwys rhai yn syrffio

soffas a grwpiau 'digartref cudd' eraill a oedd yn dod o dan fesurau brys:

**"Mae nifer yr achosion atal digartrefedd wedi gostwng yn sylweddol oherwydd ymestyn cyfnodau rhybudd a gwahardd troi allan."**

(Awdurdod Lleol Trefol)

**"Mae ymyriadau cenedlaethol fel cau llysoedd ar gyfer achosion meddiannu, gwahardd troi allan, cynllun ffyrlo, cyfnodau rhybudd estynedig ar gyfer y rheini sy'n rhentu, gwyliau morgais a rhent, i gyd wedi bod yn warchodaeth gadarnhaol i breswylwyr er mwyn lliniaru'r risg o fwy o ddigartrefedd yn ystod pandemig iechyd y coronafeirws."**

(Awdurdod Lleol arall)

Yn olaf, mynegodd un ymatebydd o'r arolwg bryder y gallai'r angen i staff digartrefedd weithio o bell fod wedi cyfrannu at y gostyngiad a welwyd mewn ceisiadau:


**"Gallai'r [gostyngiad bach mewn cyflwyniadau digartrefedd] fod ei achosi gan y difyg cyfweliadau wyneb yn wyneb a gwblhawyd gan fod yr holl staff wedi addasu i weithio o bell yn ystod y pandemig ... Efallai fod y rheini ... nad ydynt yn gallu cyfathrebu'n ddigidol, y rheini nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf a'r rheini sydd ag anawsterau clywed/dysgu i gyd wedi dioddef effaith negyddol oherwydd hyn."**

(Awdurdod Lleol Trefol).

#### Natur newidiol y galw o ran digartrefedd yn 2020/21

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau o'r farn bod proffil y bobl a oedd yn ddigartref yn 2020/21 yn wahanol i broffil 2019/20, er bod hyn yn llai amlwg yng Nghymru wledig – gweler Ffigur 4.4. Yn hanner yr holl gynghorau, nodwyd bod newid o'r fath yn 'sylweddol'.

**Ffigur 4.4: Y newid ymddangosiadol ym mhroffil yr aelwydydd sy'n chwilio am gymorth digartrefedd yn 2020/21 o'i gymharu â 2019/20**



Ffynhonnell: Arolwg yr awduron

Yn unol â phatrwm yr ymatebion ar y newid yn y galw o ran digartrefedd, dywedodd llawer o'r cyfranogwyr fod y cydbwysedd rhwng teuluoedd a phobl sengl wedi newid yn sylweddol yn 2020/21 – am resymau a grybwyllyd eisoes yn bennaf:

"Yn flaenorol roedd pobl sengl i gyfrif am tua 66% o'r achosion o ddigartrefedd ac mae hyn wedi codi i dros 80%. Mae'r rheini na fyddent wedi cael eu hystyried ag angen blaenoriaethol cyn y pandemig bellach wedi cael cymorth i gael mynediad at lety brys. Mae teuluoedd a fyddai wedi bod mewn perygl o golli llety PRS wedi cael eu diogelu gan ddeddfwriaeth dros dro." (Awdurdod Lleol Trefol).

"Yn wreiddiol, cawsom nifer uwch o aelwydydd pobl sengl nag arfer, ond wrth i'r flwyddyn fynd yn

ei blaen, rydym wedi cael mwy o ymholaadau gan deuluoedd a llawer nad oeddent wedi defnyddio ein gwasanaethau o'r blaen."

(Awdurdod Lleol yn y Cymoedd)

Tynnodd hysbswyr allweddol sylw hefyd at newidiadau cysylltiedig yn y sbectrwm o lety blaenorol a oedd yn cael ei feddiannu gan y rhai a oedd yn wynebu digartrefedd ac, fel y nodwyd uchod, symudiad oddi wrth ymyriadau ataliol tuag at fwy o bwyslais ar liniaru ac ymateb i argyfwng:

"Mae gostyngiadau gwirioneddol mewn digartrefedd teuluol ac felly, rhywfaint o'r gweithgarwch atal a chynnydd o ran cysgu ar y stryd, beth i'w wneud â'r rheini a oedd mewn llety â gofod aer a renhir, a hefyd y rheini a oedd yn syrffio soffas, neu ddim ond mewn llety pobl eraill heb hawl

**gyfreithiol i fod yno. Dyna oedd y prif dueddiadau, rwy'n credu." (Hysbsydd allweddol, y sector annibynnol)**

Dyweddodd rhai awdurdodau fod y cydbwysedd, o fewn y cohort ceisiadau teulu, wedi symud o'r rhai a oedd yn cael eu troi allan gan landlordiaid preifat i'r rhai a oedd yn colli llety oherwydd traus domestig.

Roedd hyn yn adleisio sylwadau gan hysbswyr allweddol, ac roedd rhai ohonynt hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith ei bod yn ymddangos bod nifer y bobl ifanc yr effeithir arnynt gan ddigartrefedd wedi cynyddu yn ystod y pandemig:

**"Felly ni fydd pobl yn dod yn ddigartref nac yn cael eu bygwth â digartrefedd ar hyn o bryd... ond yr hyn rydych chi'n ei weld yw... pobl a oedd efallai yn syrffio soffas, pobl lle mae'r berthynas â theulu neu ffrindiau wedi chwalu a bellach yn ddigartref. Rydym yn dal i weld teuluoedd yn chwalu fel un rheswm, a hefyd pobl sy'n dianc rhag camdriniaeth. Felly efallai nad yw'r niferoedd wedi newid, ond mae'r rhesymau wedi newid, byddwn i'n dweud."** (Hysbsydd allweddol, y sector gwirfoddol)

**"Gwelsom ni... ychydig o fewnlifiad o bobl ifanc yn troi atom.. Gwelsom gynnydd neu ganran llawer uwch nag y byddem yn ei ddisgwyl o ran pobl ifanc, dim ond oherwydd bod y pwysau o fod dan glo gyda'ch rhieni wedi arwain at wrthdar. Yna gwelsom pobl naill ai'n dewis gadael neu'n cael eu hanfon allan."** (Hysbsydd allweddol, y sector gwirfoddol)

**Disgwyliadau o ran newid mewn digartrefedd ar ôl y cyfngiadau symud**

Ar sail canfyddiadau ALL a gofnodwyd yn ein harolwg, mae'r cyfnod ar ôl y


cyfngiadau symud (neu, efallai, ar ôl y pandemig) yn debygol o arwain at effeithiau amrywiol ar wahanol garfannau digartrefedd. Fel y dangosir yn Ffigur 4.5, roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn rhagweld cynnydd yn nifer y landlordiaid preifat a oedd yn cael eu troi allan oherwydd llacio'r cyfngiadau a osodwyd yn 2020. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr hefyd yn disgwyl cynnydd yn nifer yr achosion o adfeddiannu cartrefi, pobl sydd newydd fod yn ddi-waith a phobl sydd wedi goroesi cam-drin domestig. I'r gwrthwyneb, ychydig oedd yn rhagweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu troi allan o'u tai ar rent cymdeithasol neu nifer uwch o gyflwyniadau sy'n ymwneud â mudwyr na allant dderbyn budd-daliadau.

Yn eu hymatebion penagored ategol, nododd llawer o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg, er nad oedd hynny'n syndod, y byddai dod â'r cyfngiadau troi allan i ben yn debygol o arwain at ddod â mwy o denantiaethau preifat i ben. Ategwyd y pryder hwn gan lawer o hysbswyr allweddol, a rhai ohonynt hefyd yn nodi effaith gymedroli debygol o ganlyniad i'r oedi yn system y llysoedd:

**"...Pryderon dilys yngylch troi allan. Yn amlwg, mae system y llysoedd yn mynd i rwystro unrhyw lif o'r achosion hynny o droi allan, ond bydd rhai yn cael eu troi allan. Yr ydym yn mynd i ddychwelyd at deuluoedd sydd mewn sefyllfaoedd sy'n economaidd fregus. Mae'r ffyrlo yn dod i ben. Mae'r holl bethau hynny'n mynd i gyfuno ac rydyn ni'n mynd i gael llawer o weithgarwch mewn perthynas â hynny."** (Hysbsydd allweddol, y sector annibynnol)

Fel y nodwyd yn y dyfyniad uchod, roedd terfynu'r cynllun ffyrlo yn ddatblygiad arall yr oedd ei effaith economaidd yn parhau'n ansicr, ond gyda'r potensial i greu ymchwydd

**Ffигur 4.5: Disgwyliadau o [unrhyw] newid yn nifer yr aelwydydd mewn grwpiau penodol sy'n ceisio cymorth digartrefedd (nifer yr awdurdodau lleol)**



Ffynhonnell: Arolwg yr awduron

mewn diweithdra gyda rhai o'r rhai yr effeithir arnynt yn wynebu ansicrwydd tai o ganlyniad (gweler Pennod 2 hefyd). Yn yr un modd, nododd ymatebwyr y byddai llawer o aelwydydd incwm isel yn cael eu rhoi o dan straen newydd drwy dynnu'n ôl y codiad mewn CC.

Roedd rhai ymatebwyr yn rhagweld y byddai cyfyngiadau diwedd pandemig yn rhyddhau pwysau cronnol eraill a allai arwain at gynnydd mewn digartrefedd:

**"Cysylltiad amlwg rhwng y llacio ar ôl y cyfnod clo blaenorol â chynnydd mewn goroeswyr cam-drin domestig oedd yn dianc**

**rhag perthnasoedd camdriniol.**  
**Potensial i hyn gynyddu dros amser."**  
(Awdurdod Lleol arall)

**"Rhai sydd yn gadael carchar sydd wedi gallu aros gyda theulu a ffrindiau yn ystod y pandemig, yr wyf yn rhagweld na fydd yn gallu aros gyda nhw."**  
(Awdurdod Lleol Trefol)

Er nad oedd gan lawer o'r ymatebwyr farn am y tueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran digartrefedd sy'n effeithio ar ddinasyddion y tu allan i'r DU, mynegodd rhai ddisgwyliadau eithaf penodol ynghylch ffactorau a allai arwain at fwy o gyflwyniadau gan grwpiau o'r fath:

**"Mudwyr â NRPF/dim mynediad at fudd-daliadau – rydyn ni'n credu y bydd hyn yn cynyddu oherwydd drwy gydol y pandemig rydyn ni wedi cael llif cyson o NRPF a'r un broblem, pobl ddim yn gwneud cais am eu statws sefydlog."**  
(Awdurdod Lleol arall)

**"Gwladolion o'r AEE heb hawliau – rwy'n disgwyl gweld y cynnydd hwn o ganlyniad i'r newidiadau a ddaw yn sgil Brexit. Yn enwedig os nad ydynt wedi gwneud cais am EUSS [Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE] neu os nad ydynt yn gallu gweithio ar hyn o bryd."**  
(Awdurdod Lleol Trefol)

Nid oedd llawer yn rhagweld cynnydd yn nifer y rhai oedd yn cael eu troi allan gan landlordiaid cymdeithasol, yn rhannol oherwydd yr ymrwymiadu ynghylch rhoi terfyn ar droi tenantiaid allan i ddigartrefedd a drafodwyd ym Mhennod 2:

**"Rydym yn disgwyl i dai cymdeithasol aros yr un fath (isel iawn) neu ostwng oherwydd ymrwymiadau lleol gan bartneriaid i roi diweddf ar droi pobl allan i ddigartrefedd."**  
(Awdurdod Lleol Gwledig)

Roedd nifer o hysbyswyr allweddol yn rhagweld, neu'n adrodd, bod carfan newydd o bobl yr oedd digartrefedd yn effeithio arnynt na fyddent wedi wynebu risg cyn y pandemig:

**"Rydw i'n meddwl dros amser gyda'r cyfyngiadau symud, ffyrlo, yr economi gig rydyn ni'n gweithio yniddi, llawer o achosion digartrefedd newydd yn cael eu hachosi gan bobl heb swydd, heb sicrwydd, heb gael taliadau ffyrlo. Mae hynny i gyd wedi arwain at grŵp arall yn dod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn ddiwethaf... Mae gennym categori cwbl newydd o bobl sy'n dod drwedd... sydd heb fod yn ddigartref o'r blaen."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)


Roedd eraill yn llai sicr y bu, neu y byddai, newid mor ddramatig mewn proffil:

**"Dydw i ddim yn meddwl ei fod wedi newid yn aruthrol... O ran, mewn gwirionedd, y rhesymau drostynt yn dod yn ddigartref, mae'r ystod eang hwnnw yn bodoli o hyd, perthynas yn chwalu, gadael cartref y teulu, ac yn amlwg, y materion ariannol sy'n gysylltiedig â cholli swydd, neu'n amlwg, y rhai sylfaenol eraill yw'r problemau iechyd meddwl a chamdefnyddio sylweddau."**  
(Hysbysydd allweddol, sector annibynnol).

#### 4.3 Rheoli digartrefedd

Unwaith eto, gan ddefnyddio ein harolwg LA i raddau helaeth, mae'r adran hon yn asesu pa mor ymarferol yw helpu pobl ddigartref drwy eu helpu i sicrhau tenantiaethau yn y sector rhentu preifat neu gymdeithasol, cyn i ni gyflwyno ystadegau ar leoliadau TA yn 2020/21, yn ôl ffigurau swyddogol Llywodraeth Cymru.

**Ffigur 4.6: Pa mor hawdd neu anodd yw hi yn eich ardal chi i gael gafael ar denantiaethau preifat er mwyn cyflawni eich dyletswyddau digartrefedd?**



Ffynhonnell: Arolwg yr awduron

#### Hwylustod cael gafael ar denantiaethau preifat

Ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau, roedd cyflawni dyletswydd drwy'r PRS wedi dod yn anodd iawn – gweler Ffigur 4.6. Yr unig ran o'r wlad lle'r oedd hyn yn llai gwir oedd y Cymoedd, er, hyd yn oed yma, dywedodd dau o'r pum cyngor dan sylw ei fod yn 'anodd iawn'.

Gan ymhelaethu ar eu hymatebion fel y dangosir yn Ffigur 4.6, cyfeiriodd cyfranogwyr at amrywiaeth o broblemau gwahanol a oedd yn effeithio ar eu gallu i ddefnyddio tenantiaethau preifat ar gyfer pobl ddigartref, gan gynnwys diffygion gyda Lwfans Tai Lleol (hyd yn oed ar ôl y cynnydd dros dro i'r 30ain canradd, gweler Pennod 2):

"Mae rhenti'r farchnad leol yn llawer mwy na chyfraddau'r awdurdod tai lleol yn ardal [enw'r awdurdod lleol]. Mae'r sector rhentu preifat yn ffynnu ac mae'r argaeedd yn isel iawn."

(Awdurdod Lleol Trefol)

"Ar hyn o bryd mae gennym farchnad landlordiaid (er mwyn i landlordiaid allu dewis a dethol pwys maen nhw ei eisiau), codi rhenti (eisoes dros £100 yn uwch na'r Lwfans Tai Lleol uwch ar gyfartaledd), eiddo mewn amodau gwael, cystadleuaeth enfawr am lety a chleientiaid sy'n hawlio budd-daliadau / sydd â phlant / anifeiliaid anwes yn cael eu hystyried yn "denantiaid problemus".

(Awdurdod Lleol Trefol)

Dywedwyd hefyd bod amharodwydd ar ran rhai landlordiaid preifat i roi llety i bobl ddigartref ag anghenion cymhleth:

"Ni fydd landlordiaid yn derbyn pobl ag anghenion cymhleth lluosog oherwydd pryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol, cwynion gan gymdogion ac ati. Mae angen dybryd am gymhellion ariannol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddenu landlordiaid i dderbyn ein cleientiaid."

(All y Cymoedd)

Pryder arall a fynegwyd mewn ardaloedd gwledig oedd effaith cystadleuaeth o'r farchnad wyliau:

"...mae gwerthiant tai wedi cynyddu'n ddramatig gan ei fod yn ardal wyliau glan môr boblogaidd sy'n golygu ein bod wedi gweld mwy o dai yn cael eu troi'n dai gwyliau yn hytrach na chael eu rhoi ar y farchnad am rent tymor hwy, felly unwaith eto mae'n anoddach i ni sicrhau llety yn y sector preifat nag yr oedd yn y flwyddyn flaenorol."

(Awdurdod Lleol Gwledig)

"Rydyn ni wedi gweld cynnydd mewn eiddo yn [enw'r Awdurdod Lleol], mae prisiau tai wedi codi'n aruthrol yn ystod y pandemig, mae AirBnB yn cael ei ddefnyddio gan lawer o landlordiaid PRS gan eu bod yn gallu gwneud llawer o arian o'r elfen gwyliau gartref."

(Awdurdod Lleol Gwledig)

Dywedodd y rhan fwyaf o awdurdodau (15 o 22) hefyd fod anawsterau wrth gael gafael ar denantiaethau preifat i helpu ymgeiswyr digartref wedi cael eu gwaethgu gan y pandemig. Ymysg y ffactorau y credir eu bod yn gysylltiedig yma yr oedd gostyngiad yn nhrostant tenantiaeth a oedd yn lleihau nifer y llefydd gwag a oedd ar gael i'w gosod. Y tu hwnt i hyn, gwelwyd bod y cynnydd mewn rhenti mewn

rhai rhannau o'r wlad yn 2020/21 wedi ehangu'r bwlc ymhellach rhwng y cyfraddau Lwfans Tai Lleol uchaf a chyfraddau'r farchnad, er gwaethaf y cynnydd dros dro.

#### Hwylustod cael gafael ar denantiaethau cymdeithasol

Ar draws Cymru, adroddwyd yn llai aml ei bod yn anodd cael gafael ar denantiaethau cymdeithasol i bobl ddigartref drwy gymharu â cheisio sicrhau lleoliadau mewn tai rhent preifat. Serch hynny, mewn hanner yr awdurdodau, roedd yn anodd neu'n anodd iawn sicrhau tenantiaethau cyngor neu gymdeithasau tai at y diben hwn – gweler Ffigur 4.7. Dim ond mewn un o'r naw awdurdod gwledig yr oedd hyn yn 'hawdd'.

Roedd llawer o'r ymatebion penagored a oedd yn ymhelaethu ar yr atebion a ddadansoddwyd yn Ffigur 4.7 yn pwysleisio'r straen penodol ar gyflenwad eiddo un gwely:

"Rydym yn awdurdod cadw stoc ac rydym yn gallu blaenorriaethu teuluoedd digartref ar ein rhestr aros. Fodd bynnag, mae'r galw am lety 1 gwely yn uchel iawn a gyda'r pandemig yn effeithio ar ddyraniadau, mae amseroedd aros hir."

(Awdurdod Lleol Trefol)


"Mae'n anodd iawn cael llety un person gan nad oes digon o stoc ac argaeedd. Mae 3 gwely yn iawn."

(All y Cymoedd)

"Mae'n dibynnu ar gyfansoddiad eich aelwyd e.e. gall teuluoedd symud drwy'r system yn gymharol hawdd cyn belled â'u bod yn fodlon ehangu eu meysydd o ddevis. Fodd bynnag, roedd yn anodd dod o hyd i 1 ystafell wely cyn y pandemig, dim ond gwaethgu mae hyn wedi'i wneud o ganlyniad i'r pandemig."

(Awdurdod Lleol Gwledig)

**Ffigur 4.7: Pa mor hawdd neu anodd yw hi yn eich ardal chi i gael gafael ar denantiaethau cymdeithasol er mwyn cyflawni eich dyletswyddau digartrefedd?**



Ffynhonnell: Arolwg yr awduron


Dyweddodd pob ymatebydd fod y pandemig wedi effeithio ar eu gallu i gael gafael ar denantiaethau cymdeithasol wrth gyflawni dyletswyddau digartrefedd. Mewn saith (o 22) adroddwyd bod hyn wedi gwaethgu mynediad. Fodd bynnag, mewn tair ardal, roedd y gwahaniaeth a sbardunodd y pandemig yn y gallu i gael gafael ar denantiaethau cymdeithasol yn newid 'cadarnhaol' – hynny yw, trefniadau gweinyddol dros dro a oedd wedi gwella mynediad i ymgeiswyr digartref.<sup>179</sup>

Er mwyn archwilio barn cyfranogwyr yr arolwg am dai cymdeithasol a digartrefedd, gofynnwyd iddynt nodi eu lefel o gytundeb gyda thri chynnig fel a ganlyn:

179 Ar gyfer gweddill yr ymatebwyr, nid oedd effeithiau'r pandemig yn glir o ran gwneud mynediad at denantiaethau cymdeithasol yn anoddach neu'n llai anodd.

- Cynnig 1: Mae digon o dai cymdeithasol yn fy ardal i ganiatáu i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac aelwydydd eraill sydd angen hynny gael mynediad rhesymol'
- Cynnig 2: Drwy eu polisiau a'u harferion dyrannu, mae landlordiaid cymdeithasol yn fy ardal yn gwneud pob ymdrech i helpu i atal a lliniaru digartrefedd
- Cynnig 3: Mae newidiadau mewn polisiau dyrannu a roddwyd ar waith gan gymdeithasau tai yn fy ardal dros y blynnyddoedd diwethaf wedi ei gwneud yn anos atal a lliniaru digartrefedd

**Ffigur 4.8: Barn ymatebwyr yr arolwg am dai cymdeithasol a digartrefedd**



Ffynhonnell: Arolwg yr awduron. Nodiadau: 1. Mae'r ymatebion 'Ddim yn gwylod' wedi'u hagregu, ynghyd â 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno'; 2. Methodd un awdurdod ag ymateb i'r cynnig olaf. Noder mae'r datganiadau llawn yn Atodiad 2.

Mae'r ymatebion i'r datganiadau uchod wedi'u nodi yn Ffigur 4.8. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr (13 o 22) yn anghytuno'n gryf bod y ddarpariaeth tai cymdeithasol yn eu hardal yn ddigonol. Ar ben hynny, teimlai'r mwyaf helaeth (18 o 22) fod landlordiaid cymdeithasol yn eu hardal yn 'gwneud pob ymdrech' i atal a lliniaru digartrefedd (gweler hefyd Penodau 2 a 3). Ar ben hynny, dim ond lleiafrif bach iawn (2 o'r 21 a ymatebodd) oedd yn credu bod newidiadau diweddar mewn polisiau dyrannu tai cymdeithasol wedi gwaethgu'r her o letya pobl ddigartref yn eu hardal.

Roedd ymatebion penagored yn ymhelaethu ar yr atebion a nodir yn Ffigur 4.8 yn atgyfnerthu'r

canfyddiad mai diffygion cyffredinol yn y cyflenwad (yn enwedig tai un ystafell wely) yn hytrach na pholisiau dyrannu a oedd yn cael eu gweld fel y broblem allweddol (gweler Pennod 5 am drafodaeth bellach ar faterion yn ymwneud â chyflenwad):

**"Y diffyg llefy un person sy'n broblem, nid y polisiau dyrannu."**  
(Awdurdod Lleol yn y Cymoedd)

**"...mae'r cyflenwad a'r galw yn dal i fod yn anghyson ac nid yw'r eiddo 1 gwely sydd ei angen yn ddybryd ar gael yn rhwydd."**  
(Awdurdod Lleol arall)

Dim ond un ALL darodd nodyn ychydig yn wahanol, a oedd yn canolbwytio'n fwy ar polisiau dyrannu gwrth-risg

landlordiaid cymdeithasol:

**"Yn ymarferol, mae rhai heriau gyda pholisiau gosod lleol a phryderon ynghylch addasrwydd safleoedd gosod mewn rhai lleoliadau risg uchel. Mae tensiynau cymunedol, hanes ymddygiad gwrthgymdeithasol, delio cyffuriau yn arwain ar adegau at osod yn fwy llym drwy bolisiau gosod lleol sy'n aml yn rhwystr i rai o'n cleientiaid digartrefedd."**  
(Awdurdod Lleol arall)

Fodd bynnag, ymmsg hysbyswyr allweddol, mynegwyd pryderon tebyg i'r rhai a fynegwyd yn Lloegr,<sup>180</sup> ac i raddau llai yn yr Alban,<sup>181</sup> am gymdeithasau tai sy'n cyfyngu ar fynediad pobl ddigartref i'w heiddo ar sail 'gallu ariannol' a mynegwyd seiliau eraill:

**"...nifer y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n dechrau gofyn am rent ymlaen llaw neu'r mathau hynny o bethau sy'n peri pryder yn fy marn i. Yn amlwg, mae'n rhaid i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wneud yn siŵr bod ganddyn nhw y rhent yn dod i mewn ac ati, ond rhaid hefyd cofio am eu pwrrpas cymdeithasol ... Felly does gan y bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw ddim cynillion, does ganddyn nhw ddim rhent ymlaen llaw."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

**"...yn sicr, mae angen i ni wneud rhywbeth ynghylch dyraniadau yng Nghymru. Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn ymwmneud rhywbeth. Rydw i'n meddwl eu bod nhw'n cydnabod bod llawer o amrywieth o ran**


**dull gweithredu... Mae'n anodd pan nad oes gennych chi ddata cywir i weithio ohono, ac mae hynny yn rhan o'r broblem, er mwyn deall yn union pa gyfraniad mae pob landlord yn ei wneud i roi diwedd ar ddigartrefedd."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

Er bod gwerthfawrogiad eang o ymdrechion Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o ran rhoi terfyn ar droi pobl allan i ddigartrefedd, a chydubyddiaeth nad oedd maint llawn eu cyfraniad o ran dyraniadau i aelwydydd digartref wedi'i gynnwys yn briodol yn yr ystadegau swyddogol (gweler Pennod 2), teimlwyd serch hynny fod angen mwy o newid cadarnhaol yn y cyswllt olaf hwn:

**"...rydym wedi gweld newid diwylliannol enfawr ymmsg cymdeithasau tai yng Nghymru dros y blynnyddoedd diwethaf, yn enwedig o ran atal troi allan. Rydw i hefyd yn meddwl y gallai fod o fudd o ran dyraniadau hefyd, er nad ydw i'n meddwl i'r un graddau..."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

**"... mae'r gwaith sydd wedi bod yn mynd rhagddo o ran... atal pobl rhag cael eu troi allan i ddigartrefedd o dai cymdeithasol... dwi'n meddwl bod hynny'n beth cadarnhaol iawn...nid bod neb byth yn symud ymlaen, maent jest yn symud ymlaen mewn ffordd gynlluniedig...[Ond] Dwi'n meddwl bod rhywfaint o densiynau yno gyda chymdeithasau tai... ynghylch dyraniadau...Mae'n wahanol iawn rhwng gwahanol gymdeithasau, pa gyfran o**

**Ffigur 4.9: Lleoliadau llety dros dro 2016-2020**



Ffynonellau: 1. Ystadegau digartrefedd rheolaidd Llywodraeth Cymru;<sup>182</sup> 2. Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan Llywodraeth Cymru, Medi 2021<sup>183</sup>  
Sylwch: 1. Mae cyfres cyn COVID-19 yn ymwmneud â nifer y lleoliadau aelwydydd ar 31 Mawrth bob blwyddyn; mae cyfres COVID-19 yn ymwmneud â nifer y lleoliadau unigol ar ddiwedd y mis. 2. Mae'r duedd ar gyfer y cyfnod 2016-2020 yn adlewyrchu lleoliadau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (wedi'u rhngosod); mae'r duedd ar gyfer y cyfnod Awst 2020-Mawrth 2021 yn dangos lleoliadau diwedd mis.

**osodiadau sy'n mynd i bobl sydd wedi profi digartrefedd. Dwi'n meddwl bod mwy o waith i'w wneud ar yr ochr yna."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

#### Defnyddio llety dros dro

Mesur hirsefydlog arall o ddigartrefedd yw nifer y bobl ddigartref sy'n cael eu rhoi mewn TA gan ALLAU yn ystod y broses asesu ac ail-gartrefu'r digartref. Mae llawer o'r rhai sy'n gysylltiedig yn

aelwydydd y mae eu statws eisoes wedi'i bennu dan S75 y mae'r dreth ailgartrefu lawn yn ddyledus iddynt. Hyd nes y bydd tenantiaeth addas ar gael, fod bynnag, mae'n debygol y byddant yn byw yn y TA. O leiaf mewn cyfnodau arferol (h.y. nad ydynt yn ymwmneud â COVID-19), felly, gellir ystyried bod y newid yn nifer y lleoliadau TA yn adlewyrchu'r rhwngweithio rhwng y galw am ddigartrefedd a'r cyflenwad tai rhent cymdeithasol/fforddiadwy.

<sup>180</sup> Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wood, J., Watts, B., Stephens, M. & Blenkinsopp, J. (2019) *The Homelessness Monitor: England 2019*. London: Crisis. [https://www.crisis.org.uk/media/240419/the\\_homelessness\\_monitor\\_england\\_2019.pdf](https://www.crisis.org.uk/media/240419/the_homelessness_monitor_england_2019.pdf)

<sup>181</sup> Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Watts, B., Wood, J., Stephens, M. & Blenkinsopp, J. (2019) *The Homelessness Monitor: Scotland 2019*. London: Crisis [https://www.crisis.org.uk/media/240002/the\\_homelessness\\_monitor\\_scotland\\_2019.pdf](https://www.crisis.org.uk/media/240002/the_homelessness_monitor_scotland_2019.pdf)

Yn ystod y blynnyddoedd cyn pandemig COVID-19, roedd lleoliadau TA ar gynnydd parhaus. Yn ystod y cyfnod 2016-2020, cododd cyfanswm y lleoliadau 24%. Mae'r cynnydd llawer mwy sylweddol a welwyd yn 2020/21 yn adlewyrchu rhaglen tai brys Llywodraeth Cymru i ddarparu llety diogel i bobl ddigartref yn ystod y pandemig.<sup>184</sup> Mae ffigurau swyddogol yn dangos bod y niferoedd yn 6,452 o unigolion (gan gynnwys 1,525 o blant dibynnol) ym mis Mehefin 2021 (y ffigurau diweddaraf sydd ar gael adeg ysgrifennu'r adroddiad).<sup>185</sup> Mae'r un gyfres ystadegol yn dangos bod lleoliadau newydd yn ystod y cyfnod Awst 2020-Mehefin 2021 yn cynnwys cyfartaledd misol o 1,086 o bobl.

Ni allwn ddweud yn bendant i ba raddau y mae lleoliadau TA (6,452 o unigolion) ym mis Mehefin 2021 yn fwy na maint carfan TA ym mis Mawrth 2020 (2,325 o aelwydydd). Fodd bynnag, os byddwn yn tynnu'r 1,525 o blant o gyfanswm Mehefin 2021, mae hyn yn gadael 4,927 o oedolion. Os tybir bod y rhain wedi'u ffurfweddu'n gyfartal fel aelwydydd 1 person a 2 berson, byddai hynny'n awgrymu mai nifer y lleoliadau aelwydydd pwynt mewn amser ym mis Mehefin 2021 oedd 3,695 – neu 59% yn uwch na ffigur Mawrth 2020.

Roedd y niferoedd chwyddedig sydd bellach mewn TA yng Nghymru yn destun pryder difrifol i brif hysbyswyr, er eu bod yn cydnabod yn barod bod yr ymateb brys (a ganmolwyd yn fawr) i COVID-19 yn un o brif ysgogwyr y cynnydd dramatig hwn:

**"Mae'r rhifau mewn TA yn syfranol o'u cymharu â'r hyn rodden nhw'n arfer bod. Rwy'n gwybod mai'r rheswm am hyn yw ein bod wedi dewis neilltuo rhai**

**agweddau ar Ddeddf Tai (Cymru) er mwyn cael pawb dan do.** Rydw i'n cofio mewn amgylchedd cyn COVID, rodden ni'n cael sioc pan roedd y ffigurau mewn TA wedi cyrraedd 2,000 ar ddiwedd unrhyw charter penodol ac mae'n agosáu at 6,000 nawr, sy'n syfranol, mewn gwirionedd." (Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

**"Rydyn ni nawr mewn sefyllfa lle rydw i'n meddwl bod tua 6000 o bobl mewn llety dros dro yng Nghymru, sy'n amlwg yn uchel iawn. Dyna waddol uniongyrchol y pandemig rydyn ni'n gweithio drwyddo ar hyn o bryd, o ran ceisio...gwneud yn siŵr bod y llif i llety dros dro yn uwch na'r llif i mewn, er mwyn i ni allu dechrau ei leihau, ond hefyd, sicrhau bod y llif hwnnw am allan mor uchel â phosibl oherwydd nad yw'n sefyllfa gynaliadwy ar hyn o bryd."** (Hysbysydd allweddol, sector annibynnol)

Roedd pryderon hefyd yngylch natur a phriodoldeb llawer o'r TA a ddarparwyd:

**"...mae gwestai a llety gwely a brecwast yn dal i gael eu defnyddio, oherwydd mae dod o hyd i'r llety addas yn anodd iawn... Mae rhai darpariaethau llety dros dro eraill ar gael erbyn hyn, felly mae pethau fel podiau yn cael eu defnyddio fel darpariaeth hostel hunangynhwysol wedi ei ad-drefnu, neu brydlesu gwestai yn y tymor hir i gael rhyw fath o leoliad llety dros dro hunangynhwysol, ychydig mwy yn defnyddio stoc tai cymdeithasol. Rwy'n credu bod yna gyfyng-gyngor, bob amser, os ydych chi'n defnyddio eich stoc tai**

**cymdeithasol dros dro, na allwch chi ddim ei ddefnyddio'n barhaol, a'ch bod chi'n ei chael hi'n anodd gwneud hynny drwy'r amser. Felly mae rhywfaint o PRS ar brydles ond, eto, mae'n fater o gael y cydbwysedd hwnnw rhwng cael y swm iawn a chadw'r stoc o lety sefydlog y mae'n rhaid i chi allu ei ddefnyddio."** (Hysbysydd allweddol, y sector statudol)

#### 4.4 Pwyntiau allweddol

- Er bod gwybodaeth am ddigartrefedd yn 2020/21 yn anarferol o brin, mae'n debygol bod blwyddyn gyntaf y pandemig wedi parhau â'r duedd cyn COVID-19 o gynnydd yn y galw am ddigartrefedd. Yn ôl ystadegau swyddogol, roedd achosion atal a lliniaru wedi cynyddu 19% yn y tair blynedd hyd at 2019/20. Yna, yn ôl ein harolwg Awdurdodau Lleol, gwelodd 15 o'r 22 cyngor gynnydd o un flwyddyn i'r llall yn 2020/21. Mae'n ymddangos bod tueddiadau diweddar hefyd wedi atgyfnerthu pwyslais cynyddol ar lliniaru ac ailgartrefu yn hytrach nag myriadau ataliol.
- O dan amgylchiadau eithriadol y pandemig, ac unwaith eto yn seiliedig ar ymatebion yr ALL i'r arolwg, mae'n ymddangos bod proffil y garfan o ymgeiswyr wedi newid yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda chynnydd yn nifer yr ymgeiswyr sengl a'r ymgeiswyr iau yn fwy na'r gostyngiad mewn aelwydydd teuluol.
- Roedd y proffil newidiol hwn yn gwaethygu'r cyfyngiad sydd eisoes wedi hen ennill ei blwyf a brofir gan awdurdodau lleol wrth lliniaru digartrefedd: y prinder penodol o unedau tai cymdeithasol llai, yn enwedig tai un ystafell wely.
- Yn ystod y blynnyddoedd cyn pandemig COVID-19, roedd lleoliadau TA ar gynnydd parhaus, gyda chyfanswm y lleoliadau'n codi 24% rhwng 2016 a 2020. Mae'r cynnydd llawer mwy sylweddol a welwyd yn 2020/21 yn adlewyrchu rhaglen tai brys Llywodraeth Cymru i ddarparu llety diogel i bobl ddigartref yn ystod y pandemig. Mae ffigurau swyddogol ar gyfer y cyfnod hwn yn dangos bod y niferoedd yn 6,452 o unigolion (gan gynnwys 1,525 o blant dibynnol) ym mis Mehefin 2021. Roedd swm lleoliadau TA a pha mor briodol oedd rhai o'r eiddo a ddefnyddiwyd yn destun pryder difrifol i'r prif hysbyswyr.

<sup>184</sup> Yn bwysig, roedd canllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir y dylid darparu cymorth o'r fath i'r rheini sydd "mewn llety dros dro annigonol", yn hytrach na chael eu cyfyngu i bobl sy'n cysgu allan (<https://llyw.cymru/10-miliwn-o-gymorth-brys-ar-gyfer-pobl-syn-cysgu-allan-ying-nghymru-yn-ystod-coronafeirws>)

<sup>185</sup> Llywodraeth Cymru (2021) *Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan*: Mehefin 2021. Ar-lein: <https://llyw.cymru/darpariaeth-llety-digartrefedd-chysgu-allan-mehefin-2021>

# Digartrefedd craidd

## 5. Niferoedd ac amcanestyniadau digartrefedd craidd

### 5.1 Cyflwyniad

Ar ôl dadansoddi tueddiadau digartrefedd statudol ym Mhennod 4, mae'r bennod hon yn edrych ar ddigartrefedd o ongl wahanol. Ar ôl diffinio'r cysyniad yn y cyflwyniad hwn, yn adran 5.2, rydym yn cyflwyno amcangyfrifon newydd o lefel, cyfansoddiaid a daearyddiaeth 'digartrefedd craidd' yng Nghymru yn 2018-19. Mae'r amcangyfrifon hyn yn rhagflaenu argyfwng COVID-19, ac yn gosod hyn mewn cyd-destun ehangach yn y DU. Yn adran 5.3, gan adeiladu ar waith blaenorol,<sup>186</sup> rydym yn cyflwyno ac yn ystyried cryfderau a chyfyngiadau model rhagamcanu i archwilio esblygiad tebygol digartrefedd craidd yn y tymor byrrach a'r tymor hwy, gan gynnwys yng ngoleuni pandemig COVID-19 ac ymatebion digartrefedd cysylltiedig. Yn adran 5.4, rydym yn ystyried effeithiau amrywiol senarios polisi ar amcanestyniadau digartrefedd craidd, er mwyn tynnu sylw at effeithiolrwydd tebygol gwahanol bolisiau sydd wedi'u hanelu at leihau digartrefedd.

186 Bramley, G. (2017) *Homelessness Projections: Core homelessness in Great Britain. Summary Report*. London: Crisis [https://www.crisis.org.uk/media/237582/crisis\\_homelessness\\_projections\\_2017.pdf](https://www.crisis.org.uk/media/237582/crisis_homelessness_projections_2017.pdf)

187 Bramley, G. (2017) *Homelessness Projections: Core homelessness in Great Britain. Summary Report*. London: Crisis [https://www.crisis.org.uk/media/237582/crisis\\_homelessness\\_projections\\_2017.pdf](https://www.crisis.org.uk/media/237582/crisis_homelessness_projections_2017.pdf); and Bramley, G. (2019) *Housing Supply Requirements across Great Britain for low-income households and homeless people*. Main Technical Report of Research for Crisis and the National Housing Federation.

Cyflwynwyd y cysyniad digartrefedd craidd mewn ymchwil a gynhalwyd gyda Crisis yn 2017 ac a ddiweddarwyd yn 2018,<sup>187</sup> gyda'r Monitor hwn yn rhoi diweddariad sylweddol pellach. Mae ei gydrannau a'u diffiniant fel y'u defnyddir yn yr astudiaeth hon i'w gweld yn Nhabl 5.1 isod.

Mae datblygu'r cysyniad digartrefedd craidd yn deillio o chwilio am fframwaith mesur cadarn sy'n goresgyn cyfyngiadau yn y dulliau traddodiadol o raddnodi digartrefedd a ddefnyddir yn y DU. Mae hyn yn cynnwys y ddibyniaeth arferol ar ystadegau a gynhyrchir yn weinyddol ar bobl sy'n ceisio cymorth tai gan awdurdodau lleol oherwydd digartrefedd (gwirioneddol neu bosibl), ac ar gyfrif strydoedd neu amcangyfrifon o gysgu allan o bryd i'w gilydd. Er bod y ddau ddull hyn yn bwysig ac yn cynnig gwybodaeth, maent hefyd yn agored i ddiffygion sy'n cyfyngu ar eu gwerth at ddibenion dadansoddi – gan gynnwys cymharu ar draws gwledydd (hyd yn oed yn y

**Tabl 5.1: Categorïau a diffiniadau digartrefedd craidd**

Categori	Disgrifiad
Cysgu allan	Cysgu yn yr awyr agored e.e. mewn strydoedd, parciau, meysydd parcio, drysau
Llety Anghofensiynol	Cysgu mewn mannau/lle na fwriedir iddynt fod yn llety preswyl arferol, e.e. ceir, faniau, lorïau, carafannau/cartref modur, pebwyll, cychod, siediau, garejys, adeiladau diwydiannol/masnachol
Hosteli ayb.	Cysgu mewn mannau/lle na fwriedir iddynt fod yn llety preswyl arferol, e.e. ceir, faniau, lorïau, carafannau/cartref modur, pebwyll, cychod, siediau, garejys, adeiladau diwydiannol/masnachol
Llety Dros Dro Anaddas	Aelwydydd digartref wedi'u lleoli mewn TA o fathau penodol, Gwely a Brecwast, Llety Preifat Trwyddedig nad yw'n Hunangynhaliol/Llety Gosod fesul Noson, a Lleoliadau y Tu Allan i'r Ardal
Syrffio Soffa	Unigolion neu grwpiau teulu sy'n aros dros dro (yn disgwyl neu'n dymuno symud) gydag aelwyd arall, ac eithrio plant nad ydynt yn ddibynnol ar yr aelwyd letya a myfyrwyr, sydd hefyd yn orlawn yn ôl y safon ystafelloedd gwely

DU),<sup>188</sup> dadansoddi tueddiadau dros amser, ac yn sail i amcanestyniadau yngylch maint posibl digartrefedd yn y dyfodol. Ceir disgrifiad llawn o gefndir a datblygiad y cysyniad digartrefedd craidd yn Monitor Digartrefedd 2021 ar gyfer Lloegr,<sup>189</sup> gyda'r prif bwyntiau'n cael eu crynhoi yn yr Adroddiad Technegol sy'n cyd-fynd â'r rhifyn hwn.<sup>190</sup>

Ceir gorgyffwrdd sylweddol, ond sydd ymhell o fod yn gyflawn, rhwng digartrefedd craidd a digartrefedd statudol. Rydym yn amcangyfrif bod 52% o aelwydydd digartref statudol yng Nghymru hefyd yn rhai digartrefedd craidd, tra bo tua 59% o'r rhai sy'n ddigartref craidd yn ddigartref

yn statudol hefyd. Byddai'r rhai sy'n cael eu derbyn fel rhai digartref statudol ond sydd serch hynny'n parhau'n ddigartrefedd craidd yn cynnwys pobl sy'n aros mewn hosteli a TA anaddas. Enghrefftiau o aelwydydd digartref statudol nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhai digartrefedd craidd yw'r rhai mewn TA hunan-gynhaliol a'r rhai sy'n 'ddigartref yn eu cartref' (e.e. gyda theulu) sy'n aros i gael eu hailgartrefu. Byddai enghrefftiau o ddigartrefedd craidd nad ydynt yn y niferoedd statudol yn cynnwys rhai sy'n cysgu ar y stryd a phreswylwyr hosteli nad ydynt wedi gwneud cais i'r ALL, yn ogystal â llawer sy'n syrffio soffa.

188 Office for National Statistics (2019) *UK Homelessness: 2005 to 2018. Assessment of the comparability and coherence of existing UK government data sources on homelessness*. 17 Medi. Ar-lein: ONS. <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/housing/articles/ukhomelessness/2005to2018>

189 Fitzpatrick, S., Watts, B., Pawson, H., Bramley, G., Wood, J., Stephens, M. & Blenkinsopp, J. (2021) *The Homelessness Monitor: England 2021*. London: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/media/244702/crisis-england-monitor-2021.pdf>

190 Gweler Technical Report, Bramley, G. (2021) *Research on Core Homelessness and Homeless Projections: Technical Report on New Baseline Estimates and Scenario Projections for Scotland and Wales*. Caeredin. Heriot-Watt University. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/wales/the-homelessness-monitor-wales-2021/>

Yn y rownd hon o ddadansoddi, mae gennym y fantais o allu defnyddio amrywiaeth o setiau data newydd neu well, gan gynnwys rhai ychwanegiadau at y ffurflenni gweinyddol a gasglwyd gan StatsCymru, ond hefyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar lety dros dro a llety â chymorth, Arolwg Tlodi diweddaraf y DU,<sup>191</sup> arolwg panel cynrychioliadol newydd wedi'i gomisiynu'n arbennig (Public Voice) a gynhalwyd gan Kantar Public, cyfres newydd o gwestiynau am 'Anawsterau Tai' sydd wedi'u cynnwys yn Arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) o Amodau Byw yn 2018,<sup>192</sup> a dadansoddiadau estynedig o Set Data Hydredol Aelwydydd y DU (UKHLS), a elwir hefyd yn 'Understanding Society').

## 5.2 Amcangyfrifon 'ciplun' sylfaenol o ddigartrefedd craidd

Yn yr adran hon rydym yn cyflwyno tystiolaeth ar lefel digartrefedd craidd yng Nghymru, ar ddiwrnod arferol, yn y cyfnod yn union cyn dechrau pandemig COVID-19, 2018-20.

### Ffynonellau data a dulliau amcangyfrif

Mae'r amcangyfrifon o ddigartrefedd craidd yng Nghymru a gyflwynir isod yn defnyddio'r ffynonellau data canlynol:

- Datganiadau ystadegol awdurdodau lleol sy'n cyfrif ac yn proffilio aelwydydd sy'n ymwneud â'r system ddigartrefedd statudol, gan gynnwys llif ymgeiswyr a stociau o aelwydydd mewn TA, yn ogystal â gweithgarwch atal a lliniaru;

<sup>191</sup> Gweler Fitzpatrick, S., Bramley, G., Blenkinsopp, J., Wood, J., Sosenko, F., Littlewood, M., Johnsen, S., Watts, B., Treanor, M. & McIntyre, J. (2020) *Destitution in the UK 2020*. York: Sefydliad Joseph Rowntree. <https://www.jrf.org.uk/report/destitution-uk-2020>

Bramley, G., Fitzpatrick, S. & Sosenko, F. (2020) *Destitution in the UK 2020: Technical Report*. Edinburgh: Heriot-Watt University. <https://researchportal.hw.ac.uk/en/publications/destitution-in-the-uk-2020-technical-report>

<sup>192</sup> Gweler Hamilton, M. & Hayes, B. (2020) *Past experiences of housing difficulties in the UK: 2018*. 22 Hydref Ar-lein: ONS. <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/housing/articles/pastexperiencesofhousingdifficultiesintheuk/2018>

<sup>193</sup> Addaswyd i eithrio niferoedd amcangyfriedig mewn rhai cyfleusteriau adsefydlu cyfnod pontio, yn seiliedig ar Blood, I., Copeman, I. a Finlay, S. (2016) *Supported Accommodation Review: The scale, scope and cost of the supported housing sector*. Adroddiad ar ymchwiliad gan Ipsos MORI, Imogen Blood and Associates, a'r Barteriaeth Tai a Chefnogaeth ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau gyda'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Adroddiad Ymchwiliad yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 927

- Arolwg Tlodi yn y DU 2019 o ddefnyddwyr gwasanaethau argywng;
- Data ychwanegol ar amlder a hyd gwahanol fathau o brofiad digartrefedd yn y ddwy flynedd ddiwethaf neu erioed, yn seiliedig ar arolwg Kantar Public Voice o sampl gynrychioliadol o oedolion y DU yn 2020, gan gynnwys dull newydd o amcangyfrif swm y lletyai anghonfensiynol, gan ofyn cwestiynau manwl am fathau penodol o hyn yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf ac erioed;
- Set ddata Rhyddid Gwybodaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau ar achosion Budd-dal Tai mewn llety tymor byr, llety brys neu lety pontio,<sup>193</sup> gan gynnwys amcangyfrif newydd o swm hosteli ac ati, 2016-2020, ar lefel ALL;
- Dull rhagfynegi seiliedig ar fodolau cyfansawdd ar gyfer cysgu ar y stryd a digartrefedd craidd cyffredinol, yn seiliedig ar uno setiau data Tlodi yn y DU ac Astudiaeth Hydredol Aelwydydd y DU (UKHLS) ar gyfer set gyffredin o newidynnau a datblygu modelau atchwelliad logistaidd, sy'n gallu rhagweld i lawr i lefel ALL;
- Defnyddio data'r Arolwg o'r Llafur (LFS) ar aelwydydd cudd i helpu i wneud amcangyfrifon mwy cadarn o syrffio soffas dros amser.

**Tabl 5.2: Crynodeb o'r ffynonellau a'r tybiaethau ar gyfer amcangyfrifon ciplun gwaelodlin: Cymru**

Categori o Ddigartrefedd Craidd	Amcangyfrif Canolig	Amcangyfrif Isel	Amcangyfrif Uchel
<b>Cysgu allan</b>	0.5 x Cyfrif/ amcangyfrif - 0.3 x UKHLS- Rhagfynegiad model cyfun o dodi	Cyfrif/amcangyfrif	UKHLS- Rhagfynegiad model cyfun o dodi
<b>Llety Anghonfensiynol</b>	Fformiwla rhagfynegol Arolwg Llais y Cyhoedd1	0.54 x canolig2	1.46 x canolig2
<b>Hosteli ac ati (gan gynnwys llochesi)</b>	Datganiad uchaf ALL a chyfuniad o DWP/ FOI a Chyfrifiad 2011	Amcangyfrif blaenorol cyfartalog 2017 a DWP/FOI	DWP/FOI
<b>Llety Dros Dro Anaddas</b>	Datganiad uchaf ALL neu DWP/FOI	Datganiad ALL	Datganiad uchaf ALL neu DWP/FOI
<b>Syrffio Soffa</b>	Cyfartaledd amcangyfrifon UKHLS ac LFS + addasiad o 20% ar gyfer preswylwyr dros dro3	UKHLS, heb ei addasu	Rhagfynegiad cyfansawdd o amcangyfrif digartrefedd craidd llai swm elfennau eraill

Nodiadau 1. Mae'r fformiwla hon ar gyfer llety anghonfensiynol yn cael ei gyrru'n bennaf gan elfennau eraill o ddigartrefedd craidd.

2. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu'r tybiaethau cyfatebol a wnaed yn yr amcangyfrifon digartrefedd craidd yn Lloegr, ac maent yn adlewyrchu ansicrywydd cymharol eang am y rhif hwn oherwydd ffynonellau data cyfyngedig. 3. Mae'r addasiad o niferoedd rhai sy'n syrffio soffas ar gyfer 'preswylwyr dros dro' yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata Arolwg o Dai Lloegr 2017-19 lle gofynnir cwestiwn newydd am bobl sydd wedi aros dros dro gyda phrif aelwydydd a fyddai fel arall wedi bod yn ddigartref (nid oes data cyfatebol yng Nghymru); nid yw'r grŵp hwn yn cael sylw mewn arolygon aelwydydd confensiynol sy'n hepgor preswylwyr dros dro.

Mae Tabl 5.2 yn crynhoi'r ffynonellau a'r tybiaethau sy'n sail i amcangyfrifon llinell sylfaen Cymru, gyda rhagor o fanylion yn y naratif isod ac yn yr adroddiad technegol cysylltiedig.<sup>194</sup>

O ran cysgu allan, defnyddir dwy brif ffynhonnell, y cyfrif/amcangyfrif blynnyddol a wneir gan ALLau a phartneriaid lleol, a model ystadegol

cyfansawdd sy'n seiliedig ar gyfuniad o arolygon Tlodi yn y DU a UKHLS. Mae'r cyfrif/amcangyfrif yn cynnwys elfen sy'n seiliedig ar welyau lloches sy'n cael eu defnyddio, yn ogystal â phobl sy'n cysgu allan wedi'u cyfrif, ond rydym yn cynnwys hyn (fel yn astudiaeth 2017) i wrthbwysu tuedd o cyfrifon pwynt-mewn-amser i 'dan-

<sup>194</sup> Gweler Technical Report, Bramley, G. (2021) *Research on Core Homelessness and Homeless Projections: Technical Report on New Baseline Estimates and Scenario Projections for Scotland and Wales*. Caeredin. Heriot-Watt University. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/wales/the-homelessness-monitor-wales-2021/>

gyfrif' gwir lefel stoc cysgu allan.<sup>195</sup> Er gwaethaf hyn, mae'r datganiadau gan nifer o awdurdodau lleol llai yn annhebygol o fod yn isel, o'i gymharu ag ALLau tebyg eraill neu â'r rhagfynegiad model ystadegol annibynnol. Mae'r rhagfynegiad model yn agos at y cyfrifiadau/amcangyfrifon ar gyfer nifer o awdurdodau lleol mwy, gan gynnwys Caerdydd, Caerffili, Casnewydd a Wrecsam. Am y rhesymau hyn, credwn y gellir cyflawnhau cyfuno'r cyfrifiadau/ amcangyfrifon gyda'r gwerthoedd disgwyliedig o'r model mewn cyfuniad wedi'i bwysoli, er ein bod yn defnyddio 70% ceidwadol o'r rhagfynegiad model yn yr amcangyfrif canolog. Gellir cyferbynnu hyn ag amrywiad isel yn seiliedig ar y cyfrif/amcangyfrif ac amrywiad uchel yn seiliedig ar 100% o ragfynegiad y model ystadegol.

Yn yr amcangyfrifon blaenorol,<sup>196</sup> amcangyfrifwyd llety anghonfensiynol fel ychwanegiad ar gyfer cysgu allan a nifer yr hosteli. Mae'r dull gweithredu nawr yn seiliedig ar dystiolaeth arolwg Llais y Cyhoedd gyda swyddogaeth rhagfynegi ystadegol, sy'n dal i gael ei yrru'n bennaf gan y niferoedd yn y categorïau cysgu allan, hostel ac UTA.

Yng Nghymru, mae'n ymddangos bod nifer y llety 'hostel ayb' (gan gynnwys llochesi) braidd yn isel yn natganiadau'r ALL sy'n ymwneud â TA, o'i gymharu â data newydd yr Adran Gwaith a Phensiynau/ Rhyddid Gwybodaeth, a hyd yn oed gyda data cyfrifiad 2011. Efallai fod hyn yn adlewyrchu'r ffaith na fydd llawer o bobl sengl ddigartref sy'n defnyddio hosteli wedi cael eu lleoli yno gan ALLau oherwydd nad oes ganddynt statws angen blaenoriaethol (yn wahanol i'r Alban). Ar gyfer ein hamcangyfrif canolog rydym yn defnyddio llinell tuedd rhwng

cyfrifiad 2011 a rhifau'r Adran Gwaith a Phensiynau/ Rhyddid Gwybodaeth 2020, ac yn defnyddio hyn, oni bai fod amcangyfrif yr Awdurdod Lleol yn uwch mewn gwirionedd (dim ond mewn ychydig iawn o achosion y mae hyn yn berthnasol). Ar gyfer ein hamcangyfrif isel, rydym yn cymryd amcangyfrif yr astudiaeth flaenorol (2017) a ffigur yr Adran Gwaith a Phensiynau/ Rhyddid Gwybodaeth, ac ar gyfer yr amrywiolyn uchel rydym yn cymryd ffigur yr Adran Gwaith a Phensiynau/ Rhyddid Gwybodaeth 2020.


Mae niferoedd llety dros dro anaddas (UTA) yn gymharol debyg wrth gymharu ffurflenni ALL â'r DWP-FOI, er bod yr olaf ychydig yn uwch ar gyfartaledd, tra'n amrywio'n lleol. Rydym yn defnyddio'r uchaf o'r ddua amcangyfrif ar gyfer ein hamrywiadau canolog ac uchel, gan ddefnyddio datganiadau'r ALL fel sail i'n hamrywiad isel.

Ar gyfer syrffio soffas, gallwn ddefnyddio dadansoddiadau o ddua arolwg (UKHLS, LFS), i ganfod lefelau a thuuediadau, gan roi'r un pwysau ar bob un (mae'r cyntaf yn rhoi mwy o fanylion, tra bo gan yr olaf sampl mwy gyda chyfradd gadael is). Ar ben hynny, mae gennym yr opsiwn o ddefnyddio rhagfynegiad model ystadegol cyfansawdd ar gyfer digartrefedd craidd yn ei gyfanrwydd (yn seiliedig ar ddata Tlodi yn y DU a UKHLS), a thynnu oddi wrtho yr amcangyfrifon annibynnol ar gyfer pedair elfen arall digartrefedd craidd (dull rhesymol, byddem yn dadlau, o ystyried mai syrffio soffa yw'r elfen fwyaf). Ar gyfer yr amcangyfrif canolog o'r niferoedd absoliwt ar lefel ALL ar gyfer 2018-19, rydym yn defnyddio cyfartaledd amcangyfrifon LFS a UKHLS ac yn ychwanegu 20% ar gyfer preswylwyr

195 Fitzpatrick, S., Watts, B., Pawson, H., Bramley, G., Wood, J., Stephens, M. & Blenkinsopp, J. (2021) *The Homelessness Monitor: England 2021*. London: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/media/244702/crisis-england-monitor-2021.pdf> p. 60-63.

196 Bramley, G. (2017) *Homelessness Projections: Core homelessness in Great Britain. Summary Report*. London: Crisis [https://www.crisis.org.uk/media/237582/crisis\\_homelessness\\_projections\\_2017.pdf](https://www.crisis.org.uk/media/237582/crisis_homelessness_projections_2017.pdf); a Bramley, G. (2019) *Housing Supply Requirements across Great Britain for low-income households and homeless people*. Main Technical Report of Research for Crisis a'r National Housing Federation.

**Ffigur 5.1: Niferoedd cartrefi craidd yn ôl elfennau, Cymru 2012-19  
(amcangyfrif ciplun ar bwynt mewn amser)**



Ffynhonnell: amcangyfrifon yr awduron yn seiliedig ar ffynonellau yn Nhabl 5.2, col.1.

dros dro (wedi'i eithrio o'r arolygon hyn, ond wedi'i fesur yn Arolwg Tai Lloegr 2017-19).<sup>197</sup> Mae'r amrywiad isel yn seiliedig yn unig ar UKHL heb eu haddasu. Mae'r amrywiad uchel yn seiliedig ar 100% o'r rhagfynegiad cyfansawdd llai'r amcangyfrifon uchel o'r elfennau eraill.

**Niferoedd a thuuediadau allweddol**  
Mae Ffigur 1 yn dangos lefelau a thuuediadau 7 mlynedd o ran digartrefedd craidd yn gyffredinol ac yn ôl yr elfennau ar gyfer Cymru rhwng 2012 a 2019, cyn COVID-19. Yn

2019, rydyn ni'n amcangyfrif mai 8,980 o aelwyd yd oedd y digartrefedd craidd at ei gilydd yng Nghymru, ac mai syrffio soffas oedd yr elfen fwyaf o hyn mewn tua 5,500 o aelwyd yd, ac yna hosteli a llochesi (1,850). Roedd niferoedd TA (B a B yn bennaf) yn gymharol isel (550), ac yn debyg o ran maint i gysgu allan (460) a llety anghonfensiynol (600). Roedd y stori duedd yn gyffredinol yn ymwneud yn bennaf â sefydlogrwydd yn hytrach na chlirio neu drywydd o ostwng, er y gellid dadlau bod cynnydd bach yn gyffredinol o 8,410 yn 2012 i 8,980 yn

197 Yn dilyn y dull gweithredu yn Monitor Digartrefedd 2021 yn Lloegr, rydym yn defnyddio tystiolaeth newydd o Arolwg Tai Lloegr sy'n rhifo grŵp o rai sy'n syrffio soffas oedd ar goll o'r blaen, sef preswylwyr dros dro mewn aelwyd yd a ddywedodd eu bod wedi cael aros yn y flwyddyn flaenorol pan fyddent wedi bod yn ddigartref fel arall, a phan nad oedd ystafodedd gwely sbâr ar gael – gweler y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2020) Arolwg Tai Lloegr 2018-19: 'Syrffio soffas' ac 'aelwyd yd cudd': Taflen ffeithiau. Ar-lein: Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a llywodraeth Leol. <https://www.gov.uk/government/statistics/english-housing-survey-2018-to-2019-sofa-surfing-and-concealed-households-fact-sheet> - a'r Tablau Atodol ategol. Rydym yn tybio bod yr ychwanegiad cyfrannol i gynnwys y grŵp hwn yr un fath ar gyfer Cymru ag ar gyfer Lloegr. Dim ond yn yr amcangyfrifon canolog ac uchel y mae'r ychwanegiad hwn wedi'i gynnwys.

2019, er bod y niferoedd wedi gostwng rhywfaint yn 2017.<sup>198</sup>

Amcangyfrifir bod y niferoedd cysgu allan wedi bod yn tua 460 yn 2019, i fyny o 260 yn 2015. Amcangyfrifir bod nifer yr aelwydydd sy'n aros mewn llety anghonfensiynol yn debyg o ran swm, ac yn gymharol sefydlog dros y cyfnod hwn. Roedd yn ymddangos bod nifer yr hostelau ar gynnydd graddol, ac roedd nifer y TA (B a B yn bennaf) wedi amrywio rhywfaint, gyda chynnydd sylweddol yn 2019. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yr elfen rifol fwyaf, sef syrffio soffas, wedi gostwng rhywfaint hyd at 2017 cyn codi i ryw raddau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

#### Daearyddiaeth digartrefedd craidd yng Nghymru

Mae'r model a ddefnyddir i gynhyrchu'r amcanestyniadau a drafodir yn ddiweddarach yn y bennod hon yn defnyddio pedair is-adran daearyddol yng Nghymru fel ei brif uned ddadansoddi, gan drin y rhain fel ardaloedd marchnad ystyrlon at ddibenion tai a dibenion economaidd/cyflogaeth. Yn yr adran hon rydym yn cofnodi'r darlun ehangach o batrymau daearyddol digartrefedd craidd ledled Cymru, gan ganolbwytio ar y pedwar is-ranbarth hyn.<sup>199</sup>

Mae Ffigur 5.2 yn dangos y patrwm rhanbarthol dros y cyfnod sylfaen 2012-2019. Mae hyn yn rhoi argraff dda o'r amrywiadau yn lefelau dwyster

y digartrefedd craidd rhwng yr is-ranbarthau, a hefyd o'r tueddiadau neu amrywiadau gwahanol a welwyd mewn gwahanol ranbarthau.

De Cymru yw'r rhanbarth mwyaf poblog sy'n cynnwys y brifddinas a dwy ddinas sylweddol arall a'u cyffiniau, ac yn gyffredinol yma mae'r cyfraddau uchaf o ddigartrefedd craidd o'i gymharu â phoblogaeth aelwydydd. Roedd y niferoedd yma'n dangos amrywiad bach heb unrhyw duedd gyffredinol gref iawn, er bod y niferoedd wedi codi yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf cyn COVID-19.

Mae Cymoedd Cymru yn hen ardaloedd glofaol a diwydiant trwm yn Ne Cymru, ac yn gyffredinol maent yn cofnodi'r lefelau uchaf o dlodi ac amddifadedd yn y wlad. Roedd digartrefedd craidd fel pe bai'n codi ychydig yn uwch na lefel De Cymru yn 2014-15, ond wedyn disgyn yn ôl eto, i ddangos nad oedd unrhyw duedd bendant dros y cyfnod cyfan.


Mae gan ogledd-ddwyrain Cymru, sy'n cynnwys tref Wrecsam a threfi ar hyd arfordir Gogledd Cymru yn nes at Lannau Mersi, nifer tebyg o ddigartrefedd craidd i'r Cymoedd ac ymddengys ei fod wedi dangos rhywfaint o gynnydd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

Mae Canolbarth a Gorllewin Cymru yn rhanbarth gwledig ac arfordirol yn bennaf a nodweddir gan ddwysedd

198 Yn gyffredinol, mae'r amcangyfrifon newydd hyn yn uwch na'r rhai a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer blynnyddoedd cynharach, yn seiliedig ar ddata ychwanegol a thybiethau diwygiedig. Yn benodol, mae'r gwahaniaethau rhwng yr amcangyfrifon newydd hyn a'r rhai a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2015 a 2017/18 yn werth eu nodi, ac maent yn adlewyrchu'r defnydd o setiau data sylweddol newydd a gwell. Mae'r cyfansymiau cyffredinol rhwng 38% a 58% yn uwch dros y cyfnod. O ran cysgu allan, mae amcangyfrifon newydd 2018 ychydig yn uwch (9%) na'r gwerth blaenorol ond bu cynnydd sydyn arall yn 2019. Mae'r niferoedd ar gyfer llety anghonfensiynol yn debyg ond mae'r amcangyfrif ar gyfer hostelau a yb yn llawer uwch, gan adlewyrchu data newydd yr Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd y niferoedd llety dros dro anaddas ar gyfer 2018 yn debyg, ond hefyd wedi cynyddu yn 2019, ac mae'r amcangyfrifon newydd ar gyfer syrffio soffas, gan ddefnyddio ffynhonnell data ychwanegol (LFS) yn gyffredinol yn uwch.

199 Er bod modd dadansoddi'r dadansoddiad i lawr i lefel ALI, mae ffin cyfeiliornad, oherwydd maint bychan y samplau ar gyfer rhai o'r cydrannau, yn golygu bod gennym fwy o hyder wrth adrodd ar ganfyddiadau ar lefel ranbarthol. Dyma'r is-ranbarthau: De Cymru: Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Abertawe, Bro Morgannwg; Cymoedd Cymru: Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Torfaen; Canolbarth-orllewin Cymru: Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd, Ynys Môn, Sir Benfro, Powys; Gogledd Ddwyrain Cymru: Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fllyn, Wrecsam.

**Ffigur 5.2: Cyfraddau digartrefedd craidd fesul 100 o aelwydydd yn ôl is-ranbarthau Cymru, 2012-2019 (ciplun o'r amcangyfrif ar bob pwynt mewn amser)**



Ffynhonnell: fel yn Ffigur 5.1

poblogaeth isel, presenoldeb sylweddol o gymunedau Cymraeg eu hiaith, a rôl sylweddol o ran twristiaeth (gan gynnwys problemau ail gartrefi/cartrefi gwyliau) ochr yn ochr ag amaethyddiaeth. Mae cyfraddau digartrefedd craidd yn is o lawer yn y rhanbarth hwn, ac er nad ydynt yn dangos unrhyw duedd dros y cyfnod yn ei gyfanrwydd, maent hefyd wedi codi yn y flwyddyn cyn COVID-19 ddiwethaf.


wahanol o ran y galw am gyflenwad yn y farchnad dai yng ngwledydd Prydain, ond hefyd i ryw raddau o ran gweithredu gwahanol ddulliau polisi dros amser. Ar y cyfan, er bod y cydrannau'n dangos safle tebyg ar draws y tair gwlad, mae'n ymddangos bod gan Gymru lefelau sylweddol uwch o syrffio soffas na'r Alban, ond lefelau ychydig yn is o TA anaddas, tra'n is o lawer na lefelau Lloegr o ran pob elfen.

#### Cymharu â Lloegr a'r Alban

Yn yr adran hon, rydym yn cymharu dwyster cymharol y digartrefedd craidd rhwng tair gwlad Prydain gan ddefnyddio'r gyfradd fesul 100 o aelwydydd, fel y dangosir yn Ffigur 5.3. Mae hyn yn dangos yn glir fod gan Loegr lefel uwch o lawer o ddigartrefedd na gwledydd eraill Prydain Fawr, sef 0.94% o'i gymharu â 0.65% yng Nghymru a 0.55% yn yr Alban. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa

Mae Ffigur 5.4 yn edrych ar y gymhariaeth rhwng gwledydd o gyfraddau digartrefedd craidd dros amser. Mae hyn yn dangos bod gan Loegr gyfraddau sy'n gyson uwch na Chymru a'r Alban, gyda mwy o gynnydd yn y cyfnod hwn. Dylid nodi bod y dadansoddiad hwn yn rhoi darlun gwahanol iawn o broblemau digartrefedd cymharol rhwng yr Alban a Lloegr nag a geir o'r ystadegau digartrefedd statudol, sydd i bob

**Ffigur 5.3: Cymharu cyfraddau digartrefedd craidd fesul 100 o aelwydydd yn ôl elfennau rhwng tair gwlad Prydain Fawr, 2018-19**



Ffynonellau: Fel Tabl 5.1, Fitzpatrick et al (2021) a Watts et al (ar ddod).


golwg yn dangos cyfraddau llawer uwch yn yr Alban. Mae hyn yn dangos dylanwad y fframwaith polisi gwahanol iawn a mwy cynhwysol yn yr Alban, yn ogystal â'r sefyllfa fwy ffafriol o ran galw am gyflenwad mewn perthynas â thai cymdeithasol. Mae Cymru'n gyson yn dangos cyfraddau digartrefedd craidd ychydig yn uwch na'r Alban ond yn is o lawer na Lloegr, gan adlewyrchu profiad tebyg o farchnad dai â llai o bwysau na Lloegr, ond sefyllfa lai ffafriol na'r Alban o ran stoc tai cymdeithasol a gosod tai ac, o leiaf gellid dadlau, amddiffyn pobl sengl ddigartref yn gyfreithiol. Roedd y tair gwlad wedi dangos cynydd yn y ddwy flynedd cyn COVID-19.

### 5.3 Rhagamcanion o ddigartrefedd craidd

Un o'r nodau allweddol sy'n sail i ddatblygu mesurau digartrefedd craidd fu uchelgais i wella ein gallu i gynyddu nifer y prosiectau yn y dyfodol a modelu effaith gwahanol fesurau polisi a'u rhoi ar waith, dan wahanol amodau cyd-destunol. Mae gallu o'r fath yn gwella ein gallu i ddadansoddi opsiynau polisi, drwy gyflwyno asesiad meintiol o faint o wahaniaeth y gellid disgwyl i rai mesurau ei wneud i ddigartrefedd craidd. Mae hefyd yn rhoi rhybudd cynnar am heriau possb a allai godi yn sgil newidiadau yn yr amodau cefndir sy'n effeithio ar ddemograffeg, marchnadoedd llafur a thai, amodau ariannol, ac yn y blaen.

Mae'r ymchwil hwn yn adeiladu ar fframwaith modelu presennol a ddefnyddiwyd mewn nifer o astudiaethau ymchwil eraill, y

**Ffigur 5.4: Cyfraddau digartrefedd craidd cyffredinol fesul 100 o aelwydydd yn nhair gwlad Prydain Fawr 2012-19**



Ffynonellau: fel yn Ffigur 5.3.

cyfeirir atynt fel y Model Marchnad Dai Is-ranbarthol.<sup>200</sup> Mae rhagor o wybodaeth am y model hwn ar gael mewn Adroddiad Technegol hirach.<sup>201</sup> Mae'r model yn rhagweld lefelau'r angen am dai a'r niferoedd digartrefedd allweddol ar gyfer ardaloedd is-ranbarthol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban gyda ffocws mawr ar orwelion amser 2026, 2031 a 2041.

Bu'n rhaid addasu'r model yn dilyn effeithiau economaidd-gymdeithasol a pholisi digynsail pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig (gweler penodau 2 a 3), ac amrywiol

ragdybiaethau yngylch dyfnder, patrwm a hyd effeithiau'r pandemig. Yn ogystal â senario 'busnes fel arfer' heb COVID-19, rydym hefyd wedi datblygu senario 'gyda COVID-19'. Mae opsiynau polisi penodol ar gyfer y dyfodol nawr yn cael eu cyferbynnu'n bennaf â'r waelodlin 'gyda COVID-19' hon. Mae naw pecyn polisi amrywiol arall wedi cael eu profi drwy reded y model rhagamcanu ymlaen dros 20 mlynedd gyda phob polisi yn ei le. Rhestrir y rhain i gyd yn Nhabl 5.3.

<sup>200</sup> Gweler yn benodol Bramley, G. a Watkins, D. (2016) 'Housebuilding, demographic change and affordability as outcomes of local planning decisions: exploring interactions using a sub-regional model of housing markets in England', *Progress in Planning*, 104, 1-35; Bramley, G. with Leishman, C., Cosgrove, P. a Watkins, D. (2016) *What Would Make a Difference? Modelling policy scenarios for tackling poverty in the UK*. Ar-lein: Heriot-Watt. <https://pure.hw.ac.uk/ws/portalfiles/portal/10844984>; a Bramley, G. (2018) *Housing Supply Requirements across Great Britain for low income households and homeless people*. Research Report for Crisis and the National Housing Federation. Main Technical Report. Edinburgh: Heriot-Watt University. <https://researchport.hwt.ac.uk/en/publications/housing-supply-requirements-across-great-britain-for-low-income-h>

<sup>201</sup> Gweler Bramley, G. (2021) *Research on Core Homelessness and Homeless Projections. Technical Report on New Baseline Estimates and Scenario Projections for Scotland and Wales*. Edinburgh: Heriot-Watt University. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/wales/the-homelessness-monitor-wales-2021/>

**Tabl 5.3: Senarios Polisi a brofwyd drwy'r model amcanestyniadau ar gyfer Cymru yn ystod y cyfnod 2021-41**

Enw Llaw-fer	Disgrifiad
BAU	Gwaelodlin 'busnes fel arfer' – Dim pandemig COVID-19 na mesurau cyfyngiadau symud, tybiaethau economaidd niwtral/gwyliadwrus.
Llinell Sylfaen gyda COVID-19	Mae'n cynnwys effeithiau pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud a'r dirwasgiad economaidd cysylltiedig gyda diweithdra uwch a thlodi, ac mae hefyd yn tybio bod yr ymateb i COVID-19 mewn gwestai brys wedi parhau'n rhannol am 4 blynedd arall.
Ymestyn darpariaeth arbennig COVID-19	Parhad o ddarpariaeth gwestai a darpariaeth debyg ar gyfer pobl sy'n cysgu allan/grwpiau risg ar gyfer niferoedd tebyg o aelwyd yd yn ystod y cyfnod 2021 i 2025, gyda pharhad rhannol wedi hynny. Wrth fodelu, mae'r ddarpariaeth ychwanegol hon yn cael ei dosbarthu'n bennaf fel rhan o 'hosteli, ac ati' gan ei bod yn llety preswyl dros dro (gweler isod), er bod rhywfaint yng Nghymru mewn llety Gwely a Brecwast ac yn cael ei gyfrif fel TA.
Codi LHA	Codi'r LHA i lefel ganolrifol ym mhob ardal ALL a chynnal lefel gymharol mewn termau real drwy fynegeio (cymharer â dewisiadau amgen o 30ain canradd gyda mynogeio CPI, neu beidio â mynogeio yn amodol ar fwlch LHA mwyaf o £100pw).
Uchafswm Atal	Atal yn fwy helaeth ac effeithiol: cynyddu cyfran yr ymgeiswyr sy'n ymgysylltu ag atal tuag at yr uchafswm, a defnyddio opsiynau PRS a chyngor/cymorth ariannol i lefel debyg i Awdurdodau Lleol Lloegr sy'n perfformio'n well. <sup>202</sup>
Cwotâu Ailgartrefu Cyflym	Cynyddu cyfran yr holl dai cymdeithasol net a osodir i aelwyd yd digartref 70% o'i gymharu â'r cyfnod sylfaen (yn amodol ar uchafswm cyfran o 80%); dyrannu hyd at 20% o'r tai cymdeithasol net i'r digartrefedd craidd yn ystod y cyfnod 2021-25, 10% ar ôl hynny.
Mesurau CC a thlodi	Cynnal ychwanegiad o £20 yr wythnos at lwfans personol CC, aros 5 wythnos am y taliad CC cyntaf, atal tynnu dyledion o fudd-daliadau, lleihau ceisiadau/adolygiadau a fethwyd mewn perthynas â Thaliad Annibyniaeth Bersonol, gwella Cymorth Lles Lleol, cael gwared â'r cap ar fudd-daliadau.
Gostyngiad Tai yn Gyntaf a SMD	Sicrhau lefel uchel o ddarpariaeth Tai yn Gyntaf ac Ailgartrefu Cyflym gyda darpariaeth Ymyriadau Amser Critigol, <sup>203</sup> gyda chynnydd cysylltiedig mewn gwasanaethau adsefydlu ar gyfer pobl sy'n gaeth i sylweddau a throseddu, gan arwain at ostyngiad cynyddol mewn llety hostelau ac ati a chyfraddau troseddu. Mae'r opsiwn enghreifftiol yn targedu'r lefel uchaf a argymhellir ar sail dadansoddiad o astudiaethau Hard Edges a'r arolygon 'Tlodi yn y DU' (c.1,200 y flwyddyn).
Cyflenwad Tai	Cynnydd yng nghyfanswm y cyflenwad tai rhent cymdeithasol y tu hwnt i'r ymrwymiadau presennol, h.y. oddeutu 50% (hyd at 5,000 o dai cymdeithasol wedi'u cwblhau bob blwyddyn yng Nghymru).
Codi'r Gwastad	Codi cyfraddau twf economaidd yn is-ranbarthau Prydain Fawr y tu hwnt i Lundain a De Ddwyrain Lloegr er mwyn dileu'r bwlch twf i raddau helaeth (gan gynnwys gwelliannau penodol i dwf GVA a mewnfudo domestig net i Gymru).
Cynnydd mawr yng nghyfraddau CC	Mae hyn yn debyg i'r senario 'CC a thlodi' ond gyda 3 gwaith yn fwy o lwfansau personol CC

<sup>202</sup> Er ei fod yn debyg mewn egwyddor i'r opsiwn cyfatebol sydd wedi'i gynnwys yn Monitor cyfochrog yr Alban, tybir y byddai'r effaith yn llai yng Nghymru oherwydd bod atal eisoedd wedi'i ymgorffori'n ffurfiol yn ymateb Cymru i geisiadau digartrefedd ar ôl 2014.

<sup>203</sup> Mae'r opsiwn Ymyraeth Amser Critigol hwn yn cael ei argymhell ochr yn ochr â Thai yn Gyntaf yn y Canllawiau Cynllunio Cam 2 diweddar gan Lywodraeth Cymru (2021) ar gyfer Digartrefedd a Gwasanaethau Cymorth sy'n gysylltiedig â Thai. Ar-lein: Crisis. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/canllawiau-cynllunio-wasanaethau-digartrefedd-chymorth-gysylltiedig-a-thai.pdf>

Gall rhai o'r senarios hyn fod yn gysylltiedig yn fras ag agendâu polisi cyfredol yng Nghymru a/neu ar draws y DU, gan gynnwys cynigion sy'n cael eu datblygu'n weithredol (e.e. parhad darpariaeth arbennig, Ailgartrefu Cyflym) neu eu gweithredu (Tai'n Gyntaf, Ymyriad Amser Critigol), fel y nodir yn y ddogfen Canllawiau Cynllunio diweddar.<sup>204</sup> Mae eraill yn fwy 'damcaniaethol', yn enwedig o ran gwelliannau lles, er eu bod yn adlewyrchu argymhellion elusennau mawr gan gynnwys Crisis a Sefydliad Joseph Rowntree. Mae rhai cyfyngiadau ar allu'r model i ddarparu rhagolygon o effeithiau rhai polisiau – er enghraift, nid oeddem yn gallu llunio rhagolygon digonol o effeithiau mesurau y gellid eu defnyddio i atal pobl rhag cael eu troi allan yn y dyfodol.

Mae maint y newid ym mharamedrau polisiau penodol yn fater o farn, ond mewn rhai achosion bwriedir i hyn gynrychioli barn yng hylch y raddfa ddichonol bosibl fwyaf (e.e. cwotâu ailgartrefu cyflym, Tai yn Gyntaf, Codi'r Gwastad) neu'r terfyn rhesymegol (e.e. codi'r Lwfans Tai Lleol i ddileu pob bwlch). Mewn achosion eraill, mae'r maint yn fympwyol (e.e. cynnydd o 50% yn y cyflenwad, 'cynnydd mawr' yng nghyfraddau CC).

#### Y model rhagamcanu

Yn y bôn, mae'r model rhagamcanu a ddefnyddir fel llwyfan ar gyfer creu senarios i brofi effaith gwahanol bolisiau a ffactorau eraill ar ddigartrefedd craidd yr un fath â'r un a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth digartrefedd graidd flaenorol a'r Monitor Digartrefedd diweddar ar gyfer Lloegr.<sup>205</sup> Mae hwn yn Fodel Marchnad Dai Is-ranbarthol ar gyfer y DU gyfan sy'n tracio ystod eang o newidynnau

ar gyfer 114 o is-ranbarthau, pedair ohonynt yng Nghymru, mewn camau blynnyddol o ddechrau'r 2000au i 2041. Mae rhagdybiaethau sylfaenol yn ogystal â rhagolygon neu ragamcanion cyhoedddedig yn sail i'r senarios ar gyfer twf economaidd a phoblogaeth. Defnyddir modelau econometreg i ragweld ystod eang o newidynnau allweddol, fel prisiau tai a rhenti, adeiladu tai a deiliadaeth, tlodi, a mesurau digartrefedd allweddol gan gynnwys ein categorïau digartrefedd craidd. Mae'r modelau hyn wedi cael eu diweddu a'u hail-raddnodi'n systematig ar gyfer yr astudiaeth hon, yn cynnwys datblygiad systematig o fodelau rhagfynegol newydd dros Gymru a'r Alban.<sup>206</sup> Ar gyfer newidynnau targed allweddol, gan gynnwys cysgu allan a syrffio soffas, rydym yn profi ac yn defnyddio cyfuniadau o dri neu bedwar model gwahanol sy'n seiliedig ar wahanol ffynonellau data a lefelau dadansoddi, pob un yn cynnig gwybodaeth benodol ac yn tynnu sylw at dylanwad gwahanol ffactorau.


Mae'r Adroddiad Technegol yn rhoi rhywfaint o drafodaeth fanylach am bob senario polisi. Profwyd pob un yn unigol, a hefyd ar y cyd â senarios eraill, gyda phob un yn cael ei ychwanegu mewn trefn resymegol. Rydym yn trafod y canfyddiadau mewn dwy ran. Yn yr hyn sydd ar ôl yn yr adran hon, rydym yn edrych ar y waelodlin 'Busnes fel arfer' (dim COVID-19), cyn trafod effaith tymor byr COVID-19 ac ymatebion cychwynnol yn 2020-21. Mae Adran 5.4 yn edrych ar yr opsiynau polisi a ddisgrifir uchod a'u heffaith ar ddigartrefedd craidd ar draws gorwelion amser o 2 i 20 mlynedd.

<sup>204</sup> Ibid.

<sup>205</sup> Gweler Bramley, G. (2017) *Homelessness Projections: Core homelessness in Great Britain. Summary Report*. London: Crisis. [https://www.crisis.org.uk/media/237582/crisis\\_homelessness\\_projections\\_2017.pdf](https://www.crisis.org.uk/media/237582/crisis_homelessness_projections_2017.pdf); a Fitzpatrick, S., Watts, B., Pawson, H., Bramley, G., Wood, J., Stephens, M. & Blenkinsopp, J. (2021) *The Homelessness Monitor: England 2021*. London: Crisis.

<sup>206</sup> Gweler Adroddiad Technegol Bramley, G. (2021) *Research on Core Homelessness and Homeless Projections: Technical Report on New Baseline Estimates and Scenario Projections for Scotland and Wales*. Edinburgh: Heriot-Watt University. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/wales/the-homelessness-monitor-wales-2021/>

**Ffigur 5.5: Nifer yr aelwydydd digartref yn ôl categori o dan senario 'Busnes fel Arfer', Cymru 2012-2041.**



Ffynhonnell: Allbwn model rhagamcanu.

Mae Ffigur 5.5 yn dangos effaith y senario 'Busnes fel Arfer' ar ddigartrefedd craidd yng Nghymru ac mae'n rhoi darlun o sefydlogrwydd cyffredinol parhaus, ar ôl gostyngiad yn 2021 a chynnydd dilynl ychydig yn uwch na lefel 2019-20. O fewn y darlun cyffredinol hwnnw, rhagwelir y bydd cynnydd amlwg mewn TA anaddas – byddai hyn hefyd yn adlewyrchu cynnydd cyffredinol mewn ceisiadau digartrefedd, sydd ei hun yn adlewyrchu amrywiol ffactorau gan gynnwys rhywfaint o gynnydd mewn lefelau tlodi, a fyddai'n bwydo drwodd i gyfanswm y TA. Mae'r cynnydd mewn tlodi yn adlewyrchu'n rhannol berfformiad cymharol wael economi Cymru yn ddiweddar (gweler Pennod 2), a adlewyrchir yn rhannol yn ein rhagamcaniad sylfaenol ar gyfer y dyfodol. Byddai hosteli a syrffio soffas yn statig, y cyntaf drwy ragdybiaeth, gan ein bod yn trin darpariaeth

hostelau fel rhai sydd wedi'u pennu'n benodol ar gyfer y cyflenwad.

#### **Effaith COVID-19 a mesurau arbennig**

Wrth fodol effeithiau COVID-19 ar ddigartrefedd, rydym wedi ystyried tair elfen.

Yn gyntaf, dangosir effaith y cyfyngiadau symud cychwynnol a dilynl a'r effeithiau ar wahanol sectorau o'r economi, a rhagwelir y byddant yn cael effaith sylweddol ar newidynnau economaidd drwy newidiadau i'r Cynnyrch Domestig Gros (GDP) yn 2020 ac yn arafu'n raddol drwy 2021 a 2022. Mae penderfyniadau yngylch maint yr effeithiau hyn yn seiliedig ar ragolygon annibynnol wedi'u cyfuno gan y Trysorlys, rhagolygon economaidd 'NIGEM' NIESR, a gwaith cefndir a wnaed mewn astudiaeth

gyfochrog.<sup>207</sup> Mae'r gostyngiad na welwyd ei debyg o'r blaen mewn cynnyrch domestig gros yn 2020 (dros 10% yn flynyddol) a'i barhad drwy ddechrau 2021 yn cael effaith gref ar ddiweithdra yn 2021 a sawl blwyddyn yn ddiweddarach, gydag effeithiau pellach ar incwm, tlodi, dyled, ac ati.

Yn ail, mae COVID-19 a'r cyfyngiadau symud wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o amddifadedd, gyda rhywfaint o ehangu ar ei ôl troed daearyddol a chymdeithasol-ddemograffig. Yn ein hymchwil gan Ymddiriedolaeth Trussell, roeddem wedi amcangyfrif yr effeithiau hyn ac mae'r gwaith hwn yn sail i'n tybiaethau yngylch maint y newid mewn amddifadedd yn 2020 ac yn y flwyddyn neu ddwy ganlynol. Roedd ein hamcangyfrif yn awgrymu cynnydd o 50% mewn amddifadedd ar gyfer y flwyddyn 2020 o'i gymharu â'r flwyddyn waelodlin 2019 yn gyffredinol, gan barhau i raddau helaeth drwy 2021 (cynnydd o 30% yn uwch na lefel sylfaen 2019) ac i 2022 i raddau llai (10%). Mae hyn yn net o effaith gwrthbwysol hawddfreintiau lles fel codi lwfans personol CC am 1 flwyddyn o £20 yr wythnos.

Yn drydydd, mae'r ymateb i argyfwng sy'n gysylltiedig â digartrefedd wedi effeithio ar yr ymateb i'r pandemig, gan gynnwys darparu llety ychwanegol mewn gwestai yn ogystal â defnyddio mwy (lynghymru) o lety Gwely a Brecwast traddodiadol (gweler Pennod 4). Roedd y mathau hyn o lety'n cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw un sy'n cysgu allan, neu sydd mewn perygl o hynny, gan gynnwys y rheini a fyddai fel arfer wedi gorfol symud allan o sefyllfa 'syrffio soffas' ac yn enwedig y rheini a arferai aros mewn llochesi nos, gan gynnwys y

rheini sydd â NRPF (gweler pennod 3). Ers hynny, mae ymdrechion wedi cael eu gwneud i symud pobl ymlaen i lety mwy hirdymor. Fodd bynnag, yn ystod cyfnod cynnar yr argyfwng, gostyngodd y llety rhent cymdeithasol i lefel isel, oherwydd anawsterau rheoli'r broses gyda chadw pellter cymdeithasol yn ystod cam cyntaf y cyfyngiadau symud (gweler Pennod 4). Ar yr un pryd, mae'r llif arferol o rentu preifat i geisiadau digartrefedd hefyd wedi gostwng, oherwydd rhagamcaniadau troi allan.

Nid yw'r wybodaeth a gyhoeddir am weithredu mesurau digartrefedd arbennig yng Nghymru mor glir â'r wybodaeth a gyhoeddwyd yn Lloegr, ac yn wahanol i ffigurau ystadegol arferol yr Alban, nid ydynt ar gael ar hyn o bryd. Cafodd dadansoddiad cyfyngedig o ddata misol am unigolion a phlant sy'n cael eu gosod mewn, yn aros mewn, neu'n cael eu hailgartrefu'n barhaol mewn TA ar lefel genedlaethol, ei gyhoeddi ar gyfer y cyfnod rhwng mis Awst 2020 a mis Mawrth 2021 (gweler Pennod 4), ynghyd ag amcangyfrifon o gysgu ar y stryd 'ar sail gwybodaeth leol' ar gyfer y cyfnod hwn.<sup>208</sup> Er mwyn amcangyfrif y newidiadau mewn gwahanol elfennau digartrefedd craidd yn ystod 'blwyddyn COVID-19' 2020/21, mae angen defnyddio amrywiaeth o ragdybiaethau i drosi'r rhain yn amcangyfrifon o'r stoc a'r llif a'u dyrannu i ardaloedd. Wrth wneud hyn rydym wedi ystyried y data manylach a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng nghyswllt y fenter Pawb i Mewn yn Lloegr, yn ogystal â data manylach y blynnyddoedd blaenorol am TA yng Nghymru a'n hamcangyfrifon diwygiedig o gysgu allan. Gan wneud tybiaethau

207 Gweler Bramley, G. (2020) *Potential Destitution and Food Bank Demand Outcoming from the Covid-19 Crisis in the UK: Rapid Research for Trussell Trust. Modelling individual/household-level impacts and eligibility for mainstream welfare support*. Final report. Ar-lein: Trussell Trust. <https://www.trusselltrust.org/wp-content/uploads/sites/2/2020/09/Heriot-Watt-technical-report-FINAL.pdf>

208 I gael rhagor o fanylion am yr amcangyfrifon hyn, edrychwrch ar Bramley, G. (2021) *Research on Core Homelessness and Homeless Projections. Technical Report on New Baseline Estimates and Scenario Projections for Scotland and Wales*. Edinburgh: Heriot-Watt University.

amrywiol,<sup>209</sup> ein dehongliad o'r data hyn dros y flwyddyn ariannol hyd at fis Ebrill 2021 yw bod y newidiadau net canlynol wedi digwydd:

- Cynnydd o 1,000 yn nifer o aelwydydd mewn hosteli (gan gynnwys gwestai);
- Cynnydd o 300 o aelwydydd mewn llety Gwely a Brecwast;
- Llif o tua 8820 o bobl sy'n cysgu ar y stryd i lety parhaol
- Llif o tua 2,200 o rai sy'n syrffio soffas i lety parhaol
- Gostyngiad net o 275 yn nifer (ciplun) y bobl sy'n cysgu allan
- Gostyngiad net o 850 yn nifer yr aelwydydd sy'n syrffio soffas.

Sylwch fod y canfyddiadau ar gysgu allan, a syrffio soffas, yn cyd-fynd â chydwysedd barn ymatebwyr awdurdodau lleol i arolwg eleni (gweler Tabl A.3), a chanfyddiadau rhanddeiliaid allweddol, a ddywedodd yn gyson fod yr ymateb traws-sectoraidd i'r pandemig wedi gostwng yr agweddau hyn ar ddigartrefedd craidd i lefelau llawer is:

**"Wel, rwy'n meddwl bod yr hyn mae COVID-19 wedi'i ddarparu yn gyfle unwaith-mewn-cenhedaeth yn y bôn i gymryd cam sylweddol tuag at ddatrys digartrefedd. Yng Nghymru, oherwydd bod cymaint o ddarpariaeth ar gael, gwelsom 900 o bobl yn dod i mewn i westai a llety tymor byr arall, a fyddai wedi bod yn cysgu ar y stryd cyn hynny, yn cysgu ar soffas, neu'n cael eu cartrefu'n ansefydlog Mae hynny wedi gwneud gwahaniaeth**

<sup>209</sup> Roedd y tybiaethau hyn yn seiliedig ar brofiad yn Lloegr fel y'i nodwyd gan y Weinidoniaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Swyddfa Archwiliol Genedlaethol yn ogystal â'r data digartrefedd cyfyngedig a gyhoeddwyd sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru; gweler Bramley, G. (2021) Research on Core Homelessness and Homeless Projections. *Technical Report on New Baseline Estimates and Scenario Projections for Scotland and Wales*. Edinburgh: Heriot-Watt University.

<sup>210</sup> Gellir dehongli'r bwriadau polisi a fynegir yn nogfen Canllawiau Cynllunio Llywodraeth Cymru (2021) ar gyfer Cam 2 fel rhai sy'n gyson â'r dybiaeth hon; fel arall, gellid dehongli'r bwriad hwn yn fwya hael, fel y nodir yn ein dewis y cyfeirir ato fel 'Darpariaeth Arbenigol Estynedig Covid'.


**enfawr i faint o bobl rydyn ni'n eu gweld ar y stryd ar hyn o bryd."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector gwirfoddol)

**"...wel, ym mhob un o'r 22 awdurdod, roedd cysgu ar y stryd wedi gostwng i lai na deg ym mhob awdurdod lleol. Doedd o ddim wedi cael ei ddileu, ond mewn gwirionedd... Yn [dinas] mae'n dal yn amlwg iawn, dydy'r bobl ddim allan... dydy o ddim mor amlwg ag roedd o'n arfer bod."**  
(Hysbysydd allweddol, y sector annibynnol)

Ar gyfer y blynnyddoedd nesaf, rydym wedi gwneud tybiaethau yngylch parhad y ddarpariaeth arbennig hon, wedi'i thargedu at gysgu allan ac eraill sydd mewn perygl. Mae parhad y ddarpariaeth mewn gwestai brys a'i effeithiau cysylltiedig yn cael eu cynnal dros y pum mlynedd hyd at 2025 ar hanner lefel effaith hynny yn 2020/21, yn ein llinell sylfaen 'ar ôl COVID-19.<sup>210</sup> Dylid pwysleisio bod y ddarpariaeth ychwanegol arbennig mewn gwestai a llety gwely a brecwast wedi'i addasu yn cael ei chyfrif fel rhan o 'hostelau, ac ati' yn yr amcanestyniadau, oherwydd ei bod yn y categori cyffredinol o TA, i gael cysondeb â rhagolygon eraill ar gyfer Monitor Prydain Fawr, ac am resymau modelu technegol (yn y bôn, fel hosteli, ac ati, mae'n seiliedig ar gyflenwad).

Mae Ffigur 5.6 yn dangos ein hamcangyfrifon a'n rhagamcaniadau llinell sylfaen 'gyda COVID-19' newydd ar gyfer blynnyddoedd allweddol. Mae canolbwytio ar 2020, blwyddyn gyntaf yr argyfwng a mesurau arbennig, yn amlwg o ddiddordeb penodol. Ar gyfer y cyfnod

**Ffigur 5.6: Nifer yr aelwydydd digartref yn ôl categori o dan y senario 'gyda COVID-19', Cymru 2012-2041.**



Ffynhonnell: Allbwn model rhagamcanu.

canlynol, byddwn yn dangos 2021 a hefyd 2023 fel blwyddyn ganolradd gynrychioladol, yna 2026 a chyfnod o bum mlynedd ar ôl hynny.

Fel sy'n cael ei drafod ym mhennod 2, roedd mesurau economaidd allweddol y Llywodraeth yn 2020 (cynllun CJRS (ffyrlo), cynlluniau hunangyflogaeth a chymorth busnes ac ati) wedi helpu i gwarchod llawer o weithwyr ac aelwydydd rhag effeithiau gwaethaf y cyfngiadau symud a'r gostyngiad mawr mewn cynyrrch domestig gros. O'i ystyried ar y cyd â'r ymateb i gysgu allan a mathau eraill o ddigartrefedd difrifol, roedd hyn yn golygu bod agweddau ar ddigartrefedd craidd yn 2020, ac yn benodol cysgu allan a syrffio soffas, wedi cael eu lleihau'n sylweddol o'i gymharu â'r senario BAU. Fodd bynnag, cafodd hyn ei wrthbwysio gan y cynnydd mewn hosteli (gan gynnwys gwestai) ac UTA (ar ffurf Gwely a Brecwast), fel

bod digartrefedd craidd cyffredinol ychydig yn uwch nag yn 2019. Mae'r rhagolwg ar gyfer 2021 yn debyg, gyda rhywfaint o ostyngiad mewn hosteli wedi'i wrthbwysio gan rywfaint o gynnydd mewn syrffio soffas a chysgu allan. Mae hyn yn effaith llai amlwg ar ddarpariaeth arbennig nag yn Lloegr, sy'n adlewyrchu'n rhannol y lefelau is o gysgu allan a mathau eraill o ddigartrefedd craidd a ragflaenodd y pandemig.

Mae effeithiau economaidd a chymdeithasol niweidiol COVID-19 a'r cyfngiadau symud a'r tarfu economaidd cysylltiedig yn canolbwytio'n benodol ar 2021 a'r blynnyddoedd dilynol, ac mae'r model yn rhagweld cynnydd pellach mewn rhai elfennau o ddigartrefedd craidd erbyn 2023, hyd yn oed gyda pharhad rhannol rhai o fesurau'r llywodraeth. Mae'r model yn rhagamcanu y bydd digartrefedd craidd bron i 15% yn

**Tabl 5.4: Effaith naw senario polisi yn unigol ar bum elfen digartrefedd craidd ar orwel amser 2041 (newid canrannol)**

Sefyllfa	Cysgu allan	Anghonfensiynol	Hosteli ayb	Llety Dros Dro	Syrffio Soffa Anaddas
Ymestyn CVSP	-25.3%	-0.3%	27.0%	0.0%	-9.7%
Codi LHA	-2.4%	-0.6%	0.0%	-29.0%	-7.6%
Uchafswm Atal	-4.2%	-0.5%	0.0%	-6.2%	-8.0%
Cwotâu Ailgartrefu	-30.3%	-1.4%	0.0%	-15.5%	-17.7%
Amddifadedd/CC/Cap	-7.9%	-0.1%	0.0%	4.0%	-0.7%
Tai yn Gyntaf a SMD	-7.9%	-0.2%	-16.8%	2.7%	4.0%
Cyflenwad Tai	1.3%	0.5%	0.0%	-11.2%	-1.0%
Codi'r Gwastad	-1.1%	0.1%	0.0%	2.8%	-4.8%
Cynnydd Uwch mewn CC etc.	-11.0%	-0.6%	0.0%	-0.8%	-8.1%

Ffynhonnell: Efelychiadau'r awdur gan ddefnyddio model rhagamcanu.

uwch na BAU yn 2021, er y byddai'r rhan fwyaf o hynny o ganlyniad i fwy o ddarpariaeth hosteli ac ati (gyda darpariaeth gwesty COVID-19 arbennig). Erbyn 2023, mae pethau wedi setlo i lawr, gyda rhywfaint yn llai o gysgu allan a syrffio soffas na BAU, wedi'u gwrthbwys gan y niferoedd uwch mewn hosteli, ac ati, ond cyfanswm y digartrefedd craidd 6% yn uwch o hyd na lefelau BAU, gyda lefel debyg uwch yn parhau yn 2026 (5.5%). O ganlyniad, mae'r rhagolwg yn dangos y niferoedd yn dychwelyd i lefelau tebyg i 2019 a 2020. Maen yn sefyllfa fwy ffafriol na'r rhagamcan cyfatebol ar gyfer Lloegr, sy'n dangos cynnydd parhaus mewn digartrefedd craidd yn y blynnyddoedd i ddod, sy'n adlewyrchu'n bennaf y tebygolrwydd parhaus o lai o bwysau yn system dai Cymru nag mewn rhannau o Loegr.

#### 5.4 Effeithiau senarios polisi gwahanol

Yn yr adran hon rydym yn adrodd ar ddadansoddiad sy'n adeiladu ar senarios 'Busnes fel Arfer' a 'Gyda COVID-19' y fframwaith modelu i brofi'n systematig effaith naw newid polisi gwahanol<sup>211</sup> ar ganlyniadau digartrefedd craidd a ragwelir dros yr ugain mlynedd nesaf. Er y bydd y prif bwyslais ar yr effaith gyffredinol ar ddigartrefedd craidd yn ei gyfanrwydd, rydym hefyd yn ystyried effeithiau pob senario ar bum elfen digartrefedd craidd ar wahân, gan wneud sylwadau byr ar yr effaithiau ar geisiadau digartrefedd statudol ehangach a chyfanswm y TA.

Mae Tabl 5.4 yn crynhoi effeithiau pob un o'n deg senario polisi ar bob un o'r pum elfen digartrefedd craidd,

<sup>211</sup> Gellid dweud bod rhai o'r newidiadau hyn, er eu bod yn cynrychioli newidiadau sylwedol o'r cyfnod cyn Covid, wedi'u cyhoeddi yn nogfen ddiweddar Canllawiau Cynllunio Llywodraeth Cymru (2021) a chyhoeddiadau cyllid cysylltiedig, a drafodwyd mewn manau eraill; pwrrpas y modelu yw ceisio dangos beth fyddai'r effaithiau'n debygol o fod ar ôl eu rhoi ar waith yn llawn.

ar ôl ugain mlynedd (h.y. yn 2041). Y niferoedd yw'r gwahaniaethau mewn termau canrannol o'r sefyllfa llinell sylfaen 'gyda COVID-19'.

Mae Tabl 5.4 yn dangos bod **cysgu allan** yn fwy sensitif i lawer o'r senarios polisi, mewn termau cyfrannol, nag elfennau eraill o ddigartrefedd craidd. Mae'r ffigurau yng ngholofn gyntaf Tabl 5.4 yn dangos mai'r dull polisi gyda'r effaith fwyaf ar gysgu ar y stryd yw defnyddio cwotâu ailgartrefu ar gyfer aelwydydd digartrefedd craidd yng nghyd-destun cynlluniau ailgartrefu cyflym gwell, y byddai cyfran ohonynt yn mynd i bobl sy'n cysgu allan. Yr ail effaith fwyaf yw ymestyn darpariaeth arbennig COVID-19 ar lefel rannol am gyfnod amhenodol. Y nesaf o ran pwysigrwydd fyddai cynnydd mawr mewn lwfansau personol CC ynghyd â mesurau eraill i leihau amddifadedd, gan gynnwys rhoi terfyn ar yr arhosiad pum wythnos a'r cap budd-daliadau. Byddai gweithredu'r mesurau olaf a chynnal y codiad o £20 mewn CC hefyd yn cael effaith sylweddol. Byddai effaith debyg o ran maint yn deillio o gynyddu maint rhaglen Tai yn Gyntaf a rhagleni tebyg (e.e. Ymyriadau Amser Critigol) i ben uchaf ystod o senarios yn seiliedig ar amcangyfrifon o anghenion, ac ategu hynny gyda gwasanaethau adsefydlu a chefnogi gwell, sy'n galluogi defnyddio llai o capaciti hostel (fel y dangosir yn y drydedd golofn). Byddai cynyddu gweithgarwch atal yn cael effaith fwy cymedrol ar gysgu ar y stryd yng Nghymru, a byddai effeithiau cynyddu'r Lwfans Tai Lleol, y cyflenwad tai cymdeithasol newydd (yn uwch na'r ymrwymiadau presennol) a 'chodi'r gwastad' o ran gysgu ar y stryd yn ymddangos i fod braidd yn fach. Mae'r rhan fwyaf o'r effeithiau posibl hyn yn gysylltiedig â mesurau y gallai'r weinyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru eu hyrwyddo.

I'r gwrthwyneb, mae'r categori **llety anghonfensiynol** yn eithaf anodd ei symud rhyw lawer. Dyma'r sector y mae gennym y lleiaf o wybodaeth

amdano ac nid yw'r model a ddefnyddir i'w ragweld felly yn rhoi llawer o wybodaeth, er ei fod yn awgrymu cysylltiad â mathau eraill o ddigartrefedd craidd.

Mae'r categori **hosteli, ayb**, yn ein system fodelu, yn ddibynnol ar gyflenwad/polisi. Felly, yr unig strategaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol arno yw ymestyn darpariaeth arbennig sy'n gysylltiedig â COVID-19, a fyddai'n cynyddu niferoedd, neu'r pecyn Tai yn Gyntaf, a fyddai'n lleihau niferoedd yn raddol. Gan fynd y tu hwnt i'n model fel y mae wedi'i ffurfweddu ar hyn o bryd, gellid disgwyl hefyd y gallai gweithredu mesurau Ailgartrefu Cyflym yn effeithiol effeithio ar y categori hwn, i'r graddau y mae'r rhain yn ymwneud yn benodol â datgomisiynu hostelau cyfunedig.

Dylanwadir ar **lety dros dro anaddas** gan lefel bresennol a newidiadau mewn ceisiadau digartrefedd i'r ALL, cyfanswm y TA, ac UTA ei hun yn y cyfnod blaenorol, yn ogystal â rhywfaint o ddefnydd o'r sector hwn (B a B) fel rhan o fesurau arbennig COVID-19. Mae profiad o fodelu hyn yn Lloegr yn awgrymu mai dyma'r elfen fwyaf sensitif i anghydbwysedd o ran cyflenwad a galw, ac mae hyn yn adlewyrchu'n arbennig y profiad yn Llundain. Mae'r modelu ar gyfer Cymru hefyd yn awgrymu effeithiau cymesur eithaf sylweddol yn y sector hwn, er bod y niferoedd absoliwt yn is. Byddai codi a mynegeio'r Lwfans Tai Lleol yn briodol er mwyn dileu'r bylchau rhwng rhenti'r farchnad a'r swm y gellir ei gymorthdal drwy Fudd-dal Tai/CC yn lleihau UTA 29% yn y tymor hwy. Byddai cwotâu ailgartrefu ar gyfer digartrefedd craidd hefyd yn helpu i leihau'r niferoedd hyn (gostyngiad o 16%), a byddai hyn yn cael ei ategu drwy gynyddu'r cyflenwad tai cymdeithasol (11%). Byddai gweithgarwch atal mwy pwrpasol yn arwain at ostyngiad mwy cymedrol (6%).

Gellid dadlau y gallai effaith polisi llawer mwy ar leihau UTA ddeillio o ddiddymu agweddau arno, fel sy'n cael ei gynnig yn yr Alban drwy ddiwygiadau i'r Gorchymyn Llety Anaddas yn y wlad honno. Mae'n ymddangos yn annhebygol y gellid diddymu statws o'r fath yng Nghymru yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, pe bai'n dod yn fwya'r ymarferol, ond pe bai'r mesurau polisi eraill a argymhellir yma eisoes wedi'u rhoi ar waith, byddai'r sgôp sy'n weddill ar gyfer lleihau drwy fesur o'r fath yn fychan: sef tua 300-350 o aelwydydd yn y cyfnod 2026-2041, a fyddai'n cyfateb i oddeutu 4.8% o ddigartrefedd craidd bryd hynny.


Yn olaf, rydym yn ystyried yr effeithiau ar syrffio soffas, sef y categori digartrefedd craidd mwyaf o ran niferoedd. Mae'r model yn dangos mai'r polisi gyda'r effaith fwyaf o ran lleihau **syrffio soffas** fyddai cwotâu ailgartrefu cyflym (17% o ostyngiad). Byddai manteision sylweddol hefyd o ymestyn darpariaeth arbennig ymateb i COVID-19 (10%), sydd yn amlwg wedi bod o fudd i rai o'r grŵp hwn, ac o'r dulliau atal gorau posibl (8%). Byddai dau opsiwn polisi a gedwir gan lywodraeth y DU yn gydradd â'r rhain o ran pwysigrwydd, gan godi lefel y Lwfans Tai Lleol a'i gynnal drwy fyngeio priodol, a thrwy'r cynnydd mawr mewn cyfraddau budd-daliadau Credyd Cynhwysol (8% yr un). Gallai gostyngiadau mwy cymedrol ddeillio o 'godi'r gwastad' (5%) ac i raddau bychan o gynnydd yn y cyflenwad tai. Gall codi'r gwastad fod yn arbennig o arwyddocao i Gymru oherwydd bod ei pherfformiad economaidd wedi bod yn gymharol wael yn y blynnyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae effeithiau'r cyflenwad tai a thwf economaidd rhanbarthol 'codi'r gwastad' yn dal i ymddangos yn gymharol ymylol – gall hyn fod yn rhannol oherwydd creu aelwydydd ychwanegol yn yr achos blaenorol ac effeithiau'r farchnad dai (h.y. pwysau cynyddol) yn yr achos olaf, er nad yw'n ymddangos bod yr effeithiau olaf mor fawr yn achos Cymru.

Dylid pwysleisio bod yr amcanestyniadau hyn yn ymwneud yn bennaf â digartrefedd craidd, yn hytrach na'r categori gwahanol o ddigartrefedd statudol. Fel yr eglurwyd uchod, nid yw'r holl bobl ddigartref craidd yn gwneud cais i'r ALL ac mae aelwydydd digartrefedd craidd yn cyfrif am ychydig dros hanner yr aelwydydd digartref statudol. Mae'n bosibl iawn y bydd nifer o'r senarios polisi hyn yn cael effaith fawr ar geisiadau digartrefedd, ond ni fydd llawer o'r ymgeiswyr hyn yn rhai digartref craidd ac efallai y byddant yn aros yn y categori 'digartref statudol arall', boed hynny drwy aros 'gartref' gyda rhieni neu eraill, yn elwa o fesurau 'atal' neu 'liniaru', neu'n cael eu rhoi mewn TA sy'n 'addas' cyn symud i denantiaeth gymdeithasol neu denantiaeth barhaol arall maes o law.

Mae ein model yn rhagweld nifer y ceisiadau digartrefedd cyffredinol a'r cyfansymiau mewn TA ar gyfer pob senario. Mae hyn yn dangos mai'r senarios sy'n cynhyrchu'r gostyngiadau mwyaf mewn ceisiadau fyddai'r cynnydd mawr mewn lwfansau CC, atal i'r graddau mwyaf posibl, cwotâu ailgartrefu, gyda Thai yn Gyntaf (ar ei fwyafswm) hefyd yn cyfrannu'n sylweddol. Byddai'r holl fesurau hyn gyda'i gilydd yn lleihau cyfanswm y ceisiadau digartrefedd tua 26%. Mae'r effaith hon yn llai na'r disgwyl oherwydd bod rhai mesurau'n cael yr effaith o gynyddu nifer y ceisiadau, yn enwedig y cyflenwad tai (e.e. drwy ffurio aelwydydd ychwanegol, neu'r canfyddiad y bydd mwy o siawns o gael eu ailgartrefu) ac ymestyn darpariaeth arbennig.

Yn achos TA yn gyffredinol, mae'r gostyngiadau mwyaf yn deillio o'r cynnydd mwyaf yn y cyflenwad tai ac atal, gydag effeithiau bychan o ganlyniad i godi'r gwastad, a chodi LHA, Tai yn Gyntaf, a'r cynnydd mewn budd-daliadau lles. Byddai'r gostyngiad cyffredinol o'r pecyn cyfan yn tua 36% o ostyngiad, er gwaethaf rhai effeithiau cadarnhaol gwrthbwysol ar niferoedd

**Ffigur 5.7: Maint effeithiau senarios polisi dethol ar gysgu allan ar dri phwynt mewn amser (gwahaniaeth o linell sylfaen gyda COVID-19 o ran nifer ciplun sy'n cysgu allan)**



Ffynhonnell: Defnydd yr awdur o efelychiadau gan ddefnyddio model rhagamcanu.


sy'n dod i mewn i'r system neu'n aros ynndi (e.e. ymestyn darpariaeth arbennig).

#### **Maint yr effeithiau yn ôl gorwel amser**

Mae'r adran hon yn ystyried effaith y gwahanol senarios polisi ar ddigartrefedd craidd yn gyffredinol dros gyfres o wahanol orwelion amser. Mae Ffigurau 5.7 a 5.8 yn dangos effeithiau senarios polisi allweddol (y rhai sy'n cael effeithiau amlwg) ar dri phwynt mewn amser – y tymor byrrach (2023), y tymor canolig (2031) a'r tymor hwy (2041). Mae Ffigur 5.7 yn edrych ar gysgu allan, blaenoriaeth polisi allweddol ac elfen o ddigartrefedd craidd sy'n arbennig o sensitif i'n senarios (gweler uchod), tra bo Ffigur 5.8 yn edrych ar ddigartrefedd craidd yn gyffredinol.

O Ffigur 5.7, gellir gweld mai cwotâu ailgartrefu cyflym sy'n cael yr effaith fwyaf ar gysgu allan yn y tymor byr a'r tymor hwy. Yn y tymor byr, ymestyn darpariaeth arbennig COVID-19 fyddai'r effaith fwyaf nesaf, sydd bron mor fawr. Byddai'r set fwyaf nesaf o effeithiau, er eu bod yn llawer llai mewn termau rhifiadol, yn gysylltiedig â'r cynnydd mawr mewn lefelau budd-daliadau lles ynghyd â mesurau yn y system i leihau amddifadedd; unwaith eto byddai'r rhain yn cael effaith gymharol gryf yn gynnar. Tai yn Gyntaf fyddai'r flaenoriaeth nesaf yn y tymor hwy, ond byddai effeithiau hyn yn cynyddu'n arafach. Byddai hyn yn cael ei ddilyn gan y rhan lleihau amddifadedd o'r pecyn budd-

**Ffigur 5.8: Maint effeithiau senarios polisi dethol ar ddigartrefedd craidd ar dri phwynt amser (canran y gwahaniaeth rhwng llinell sylfaen COVID-19 o ran nifer ciplun yr aelwydydd digartrefedd craidd)**



Ffynhonnell: Efelychiadau'r awdur gan ddefnyddio model rhagamcanu.

daliadau lles,<sup>212</sup> sy'n amlwg yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r pecyn cyfun gyda'r cynnydd sylweddol mewn cyfraddau (mewn geiriau eraill, mae'n amddifadedd sydd â chysylltiad agos â chyngu allan). Byddai cynyddu gweithgarwch atal yn cael effaith fwy cymedrol, ond byddai'n dod yn gymharol gyflym. Byddai codi'r Lwfans Tai Lleol i gael gwared ar fylchau gyda rhent y farchnad yn cael effaith fach a mesuradwy ar leihau cysgu ar y stryd, gan gynyddu rhywfaint dros amser. Byddai Codi'r Gwastad yn cael rhai effeithiau manteisiol bach yn y tymor hwy yng nghyd-destun Cymru. Fodd bynnag, byddai effeithiau'r cynnydd yn y cyflenwad tai cymdeithasol ar gysgu

allan yn ymylol yn y tymor byr ac ychydig yn groes yn y tymor hwy. Dylid nodi bod y Ffigur hwn yn cyflwyno effeithiau polisiau unigol ar eu pen eu hunain, a bod gorgyffwrdd sylweddol iawn yn amlwg, lle gallai'r un bobl gael eu helpu gan fesurau gwahanol. Mae senarios cyfun yn cael eu hystyried ymhellach isod.

Mae Ffigur 5.8 yn edrych mewn ffordd gyffelyb ar ddarlun ehangach yr **holl ddigartrefedd craidd**. Yma gwelwn batrwm rhannol wahanol o effeithiolrwydd polisi i'r hyn sy'n ymwneud yn benodol â chyngu allan. Fodd bynnag, unwaith eto, mae Ailgartrefu Cyflym i lety sefydlog gyda

chwotâu digartrefedd craidd yn amlwg yn cael yr effaith fwyaf ar yr holl orwelion amser, ond yn enwedig yn y tymor byr. Mae codi'r Lwfans Tai Lleol yn arwain at effaith sylweddol dros amser, tra bo'r dulliau atal gorau posibl hefyd yn perfformio'n eithaf da yn y tymor byr yn ogystal â'r tymor hwy. Mae'r cynnydd mwy yng nghyfraddau CC yn arwain at fwy byth o effaith yn y tymor byrrach, gan fod yn debyg yn y tymor hwy. Mae polisiau sy'n arwain at effeithiau sylweddol mwy graddol yn y tymor hir yn cynnwys Codi'r Gwastad (yn arbennig o fuddiol i Gymru), ymestyn darpariaeth arbennig COVID-19, ac i raddau llai y cyflenwad tai cymdeithasol a Thai yn Gyntaf. Mae'n bosibl y gallai mwy o gyflenwad tai cymdeithasol wedi'i dargedu gael ychydig mwy o effaith, ond mae hyn yn llai o broblem yng Nghymru nag yn yr Alban. Hefyd, mae'r boblogaeth amddifadedd difrifol a lloosog (SMD) anghenus a nodir yng Nghymru yn llai ar gyftaledd nag yn yr Alban, sy'n lleihau'r cyfle i Dai yn Gyntaf leihau digartrefedd craidd.

Fel y nodwyd eisoes, gallai opsiwn polisi posibl yn y dyfodol i ddileu TA anaddas i raddau helaeth gael effaith ychwanegol gymedrol ar niferoedd digartrefedd craidd o 5%.

#### Haenau o bolisiau cymalog

Hyd yma rydym wedi ystyried effaith polisiau unigol (neu becynnau penodol) ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig ystyried beth y gellir ei gyflawni drwy weithredu cyfuniadau o opsiynau polisi, neu yn wir (os rhoddwyd blaenoriaeth uchel iawn i ddigartrefedd craidd) pob polisi ymarferol ac effeithiol. Mae'r dadansoddiad a gyflwynir uchod yn rhoi rhywfaint o arweiniad cychwynnol i 'beth sy'n gweithio', ond nid yw hynny o reidrwydd yr un fath â'r effaith o ychwanegu'r polisi hwnnw at eraill sydd eisoes ar waith. Weithiau, gall ychwanegu polisi newydd weithio mewn ffordd synergaidd i gynyddu'r effaith fel ei fod yn fwy na swm ei rannau. Fodd bynnag, yn fwy cyffredin,


po fwyaf o bolisiau y byddwch yn eu hychwanegu, y lleiaf y byddant yn ei ychwanegu, o'i gymharu â'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl o edrych arnynt ar eu pen eu hunain. Efallai mai'r rheswm am hynny yw bod y gwahanol bolisiau i raddau gwahanol yn helpu'r un bobl, ac efallai y bydd y gronfa o'r rhai sydd ar ôl 'mewn perygl' yn mynd yn llai os bydd mwy o bolisiau ar waith.

O ddefnyddio'r dull gweithredu lloosog hwn, mae'n bwysig ym mha drefn y mae polisiau'n cael eu hychwanegu at y pecyn. Byddai ein dull gweithredu arfaethedig yn golygu blaenoriaethu mesurau y gellir eu rhoi ar waith ar unwaith a chael effeithiau cyflym, wedi'u dilyn gan bolisiau mwy uniongyrchol sy'n ymwneud â thai, gan flaenoriaethu'r rhai symlach neu haws eu gweithredu cyn y rhai mwy cymhleth. Byddai polisiau ymhellach yn ôl yn yr hierarchaeth wedyn yn rhai a fyddai'n cymryd mwy o amser i gael effaith, yn fwy cymhleth i'w gweithredu, yn cynnwys ystod ehangach o sectorau, a'r gost fwyaf. Gan ddilyn yr egwyddorion hynny, rydym wedi creu cyfres o naw senario gan adeiladu ar ein Llinell Sylfaen Gyda COVID-19, a rhedeg y model gyda phob elfen wedi'i hychwanegu yn ei thro. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 5.9, lle mae'r niferoedd yn cynrychioli'r gwahaniaeth canrannol mewn aelwydydd digartrefedd craidd ar bob adeg o'i gymharu â'r llinell sylfaen.

Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos yn glir bod modd lleihau digartrefedd craidd yng Nghymru yn sylweddol. Er bod rhai polisiau'n cymryd amser i gynyddu'n raddol, gellir gweithredu eraill (yn enwedig Ailgartrefu Cyflym gyda chwotâu digartrefedd craidd) ar unwaith bron. Byddai gweithredu'r holl polisiau a brofwyd yma yn arwain at ostyngiad o tua 33% yn y tymor cymharol fyr (2023), ac yn y tymor hwy gostyngiad o 30%, o'i gymharu â'r amcanestyniad sylfaenol. Ar ben hynny, byddai'r ffigur 2041 fel canran o aelwydydd yng Nghymru wedi

212 Seiliiedig ar Fitzpatrick, S., Bramley, G., Blenkinsopp, J., Wood, J., Sosenko, F., Littlewood, M., Johnsen, S., Watts, B., Treanor, M. a McIntyre, J. (2020) *Destitution in the UK 2020*. York: Sefydliad Joseph Rowntree. <https://www.jrf.org.uk/report/destitution-uk-2020> - mae'r elfennau hyn yn cynnwys dod â'r cyfnod aros o 5 wythnos ar gyfer Credyd Cynhwysol a didyniadau dyled o'r DU i ben, lleihau faint o geisiadau PIP sy'n cael eu gwrrhod, a dod â'r cap ar fudd-daliadau i ben.

**Figur 5.9: Newid yng nghyfanswm y digartrefedd craidd o'i gymharu â gwaelodlin 'gyda COVID-19' ar gyfer Cymru, gan ychwanegu naw senario polisi yn dilyn ei gilydd i leihau digartrefedd craidd yn y cyfnod i 2041 (canran o'r llinell sylfaen)**



Ffynhonnell: Efelychiadau'r awdur gan ddefnyddio model rhagamcanu

gostwng 38% o'i gymharu â'r gyfradd yn 2019. Mae'r gostyngiad cymesur sydd i'w briodoli i'r polisiau hyn yn debyg i'r gostyngiad cymharol a fodelwyd ar gyfer Lloegr yn Monitor Digartrefedd 2021,<sup>213</sup> ond oherwydd y llinell sylfaen Cymru sydd eisoes yn fwy ffafriol (yn gwastatau), byddai hyn yn golygu bod Cymru ar lefel is fyfth.

Mae'r rhaglen gynhwysfawr hon o fesurau a argymhellir yn ymddangos o'r gwaith modelu fel ei bod yn gallu lleihau digartrefedd craidd draean dros y cyfnod nesaf, o'i gymharu â'r hyn y byddai wedi bod heb unrhyw newid mewn polisiau. Er y byddai'r senario hwn yn gweld niferoedd digartrefedd craidd 30% yn is na'r rhagfynegiad sylfaenol, gyda chyfraddau bron i 38%

yn is na chyfraddau 2019-20, byddai nifer y TA anaddas wedi gostwng 51%, byddai cysgu allan yn gostwng 63%, syrffio soffas yn gostwng 41%. Byddai gostyngiadau amlwg hefyd mewn mesurau ehangach o ddigartrefedd statudol, sef tua 26% mewn ceisiadau digartrefedd a 36% yng nghyfanswm cyffredinol TA.

Mae'r dadansoddiad dilyniannol yn tanlinellu ymhellach fod rhai polisiau'n cael mwy o effaith nag eraill. Byddai'r enillion mwyaf yn deillio o'r canlynol: (a) ailgartrefu cyflym gyda chwotâu ar gyfer digartrefedd craidd; (b) codi'r LHA a'i fynegeio'n effeithiol; (c) cynyddu camau atal i'r eithaf gan gynnwys mwy o ddefnydd o rentu preifat a chymorth ariannol/dyled. Byddai manteision

ychwanegol mwy cymedrol yn cael eu gwireddu yng Nghymru o'r canlynol: (d) cyflwyno Tai yn Gyntaf i'r eithaf; (e) Codi'r Gwastad; ac (f) cynnydd mawr yng nghyfraddau Credyd Cynhwysol. Mae'n werth pwysleisio bod tri o'r chwe mesur hyn, gan gynnwys dau o'r rhai mwyaf dylanwadol, yn faterion polisi datganoledig yn eu hanfod.

Polisiau a fyddai'n cael rhai effeithiau manteisiol ond sy'n fwy ymylol o ran maint (neu mewn rhai cyfnodau yn wrthnysig) ar gyfer digartrefedd craidd cyffredinol gan gynnwys ymestyn darpariaeth COVID-19 arbennig, a newidiadau lles i fynd i'r afael â nodweddion lleihau amddifadedd, a fyddai ond yn gwneud gwelliannau cynyddrannol bach y tu hwnt i'r mesurau uchod, o ystyried lle rydym wedi eu gosod yn y dilyniant. Fodd bynnag, dylid nodi o'r dadansoddiad cynharach bod y rhain yn creu effeithiau penodol llawer cryfach ar leihau cysgu ar y stryd, a allai barhau i fod yn flaenoriaeth benodol, a chreu effaith gynnar gref.

Nid yw'n ymddangos o'r dadansoddiad hwn bod parhau â thema o'r dadansoddiad blaenorol, cynyddu'r cyflenwad tai rhent cymdeithasol, hyd yn oed pan gaiff ei dargedu'n ddaearyddol, yn cael llawer o effaith gadarnhaol ychwanegol ar ddigartrefedd craidd, hyd yn oed yn y tymor hwy, unwaith y bydd y polisiau eraill eisoes ar waith. Mae hwn yn ganfyddiad ychydig yn wahanol i'r dadansoddiad yn Lloegr<sup>214</sup>. Gellid dadlau hefyd bod angen buddsoddiad sylweddol mewn darpariaeth newydd i annog a galluogi awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i weithredu'r polisiau a ddangosir yn y dadansoddiad hwn, ac a gydnabyddir mewn cynlluniau polisi cyfredol, fel rhai pwysig iawn, sef Tai yn Gyntaf a 'chwotâu ailgartrefu cyflym' (mae'r dehongliad hwn yn sicr yn cael ei gefnogi gan yr Awdurdod Lleol a thystiolaeth allweddol a gyflwynir ym

Mhennod 2 a 3). Ond mae'r canfyddiad hwn hefyd yn ein hatgoffa bod yr amgylchiadau demograffig a'r farchnad dai yng Nghymru yn wahanol iawn yn gyffredinol i'r rhai yn ne Lloegr, ac y gallai'r achos dros gynnwys pellach yn y ddarpariaeth tai cymdeithasol y tu hwnt i'r lefelau presennol fod ychydig yn llai cryf, o safbwyt lleihau digartrefedd yn unig, nag y mae rhai yn credu (er y gallai fod yna resymau da eraill dros wella'r cyflenwad tai ac ansawdd).

### 5.5 Pwyntiau allweddol

- Yn 2019, roedd 8,980 o aelwydydd yn ddigartref yn gyffredinol, gan gynnwys 5,500 o bobl yn syrffio soffas, 1,860 mewn hosteli ac ati, 550 mewn TA anaddas, 460 yn cysgu allan a nifer tebyg (600) yn aros mewn llety anghofensiynol. Mae'r niferoedd hyn wedi bod yn gymharol sefydlog dros y 7 mlynedd flaenorol.
- Mae cyfraddau digartrefedd craidd yng Nghymru yn is na chyfraddau Lloegr ond ychydig yn uwch na chyfraddau'r Alban yn gyffredinol, gyda mwy o wahaniaeth mewn syrffio soffas.
- Pe na bai COVID-19 wedi digwydd, a bod tueddiadau economaidd a demograffig wedi parhau mewn modd tebyg i'r gorffennol diweddar, roeddem wedi rhagamcanu y byddai niferoedd digartrefedd craidd yng Nghymru yn y dyfodol wedi bod yn tua 9-9,500 drwy gydol y cyfnod rhagamcanu hyd at 2041. Rhagwelwyd y byddai cysgu allan a TA yn cynyddu, tra byddai syrffio soffas wedi gostwng ychydig.
- Rhagwelir y gallai canlyniadau economaidd COVID-19 arwain at gynnwys amlwg mewn digartrefedd craidd yn y cyfnod presennol. Mae amryw o fesurau tymor byr wedi bod yn lliniaru hyn a gallent barhau i wneud hynny, o gofio bwriadau Llywodraeth Cymru. Er

213 Fitzpatrick, S., Watts, B., Pawson, H., Bramley, G., Wood, J., Stephens, M. & Blenkinsopp, J. (2021) *The Homelessness Monitor: England 2021*. London: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/media/244702/crisis-england-monitor-2021.pdf>. Ffurig 6.7

214 Ibid.

bod mesurau o'r fath wedi helpu i leihau cysgu allan a syrffio soffas, mae digartrefedd craidd yn debygol o fod ychydig yn uwch yn y cyfnod hyd 2026 nag y byddai wedi bod heb COVID, gyda lefelau tebyg wedi hynny.

- Profwyd naw mecanwaith polisi neu newidiadau polisi gwahanol, yn unigol ac ar y cyd, gan ddefnyddio'r model rhagamcanu, gan edrych ar orwelion tymor byr, canolig a hirach. Yn y tymor byrrach, y polisiau mwyaf effeithiol ar gyfer lleihau digartrefedd craidd fyddai parhau â darpariaeth arbennig COVID-19 (yn enwedig mewn perthynas â chysgu ar y stryd), Ailgartrefu Cyflym gyda chwotâu ar gyfer digartrefedd craidd, gwneud y gorau o atal, a chynnydd mawr mewn lefelau budd-daliadau lles a mesurau cysylltiedig i leihau amddifadedd.
- Yn y tymor hwy, byddai'r effaith ragamcanol fwyaf ar leihau digartrefedd craidd, yn ogystal â'r cwotâu ailgartrefu cyflym, y mesurau atal a lles uchod, yn deillio o godi'r Lwfans Tai Lleol i ddileu bylchau yn y gefnogaeth gyda rhenti preifat. Byddai mesurau eraill a fyddai'n gwneud cyfraniadau pendant at leihau digartrefedd craidd yn cynnwys 'codi'r gwastad' o ran economi Cymru yn llwyddiannus, ymestyn darpariaeth arbennig y tu hwnt i gyfnod COVID, mwy o gyflenwad o dai a/neu ddarparu tai i'r eithaf ar gyfer Tai yn Gyntaf ynghyd â darpariaeth adsefydlu briodol, a llai o lety hostel traddodiadol. Er y byddai cynnydd yn y cyflenwad tai cymdeithasol (y tu hwnt i'r ymrwymiadau presennol) yn creu rhai effeithiau manteisiol yn y tymor hwy, ni fyddai hyn yn ychwanegu llawer at effaith gyffredinol mesurau eraill, ond eu rôl efallai fyddai cefnogi ac atgyfnerthu'r mesurau uchod, yn enwedig ailgartrefu cyflym.

- Mae lefel digartrefedd craidd Cymru eisoes yn is nag yn Lloegr, ac mae amcanestyniadau llinell sylfaen yn awgrymu sefydlogrwydd parhaus yn y blynnyddoedd i ddod. Dangosir bod rhaglen gynhwysfawr o'r mesurau a argymhellir yn gallu lleihau cyfraddau digartrefedd craidd hyd at draean dros y cyfnod nesaf. Byddai'r senario hwn yn arwain at gyfraddau digartrefedd craidd 38% yn is na lefel 2019-20. Ar ben hynny, byddai TA anaddas yn gostwng 51%, byddai cysgu allan yn cael ei leihau 63%, gyda syrffio soffas yn gostwng 41%. Byddai gostyngiadau sylweddol hefyd mewn mesurau ehangach o ddigartrefedd statudol.

# Casgliadau

## 6. Casgliadau

Mae'r rhifyn hwn o Monitor Digartrefedd Cymru wedi cael ei ysgrifennu yng nghyd-destun trychineb COVID-19 ac effeithiau economaidd a chymdeithasol y cyfyngiadau symud cysylltiedig, ac effeithiau eraill.

Mae Llywodraeth Cymru, a'i phartneriaid yn yr awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r trydydd sector, yn cael cryn glod am eu hymdrehchion i gynorthwyo pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, ac yn enwedig cysgu allan, yn ystod y pandemig. Roedd yr ymateb o ran llety brys yn un cyflym, ac yn effeithiol i raddau helaeth, ac roedd y warchodaeth a oedd yn cael ei gynnig i bobl heb 'flaenoriaeth' o dan y ddeddfwriaeth digartrefedd, ac i'r rhai heb Unrhyw Fynediad i Gronfeydd Cyhoeddus, yn ddigamsyniol. Roedd natur barhaus y cyllid 'Cam 1' a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y ddarpariaeth frys hon wedi sicrhau na fu 'dychwelyd i'r strydoedd' ar raddfa fawr ar ôl y cyfnod clo cychwynnol. Yn yr un modd, mae'r rhaglen 'Cam 2' wedi bod yn drawiadol o ran ei maint a'i gogwydd tuag at atebion strategol, tymor hwy. Croesawyd hefyd y cynnydd sylweddol yn y Grant Cynnal Tai prif ffrwd yn y flwyddyn ariannol hon. Yn y rhan fwyaf o'r agweddau hyn, mae'r ymateb i ddigartrefedd sy'n gysylltiedig â COVID-19 yng Nghymru yn cymharu'n ffafriol â'r ymateb yn Lloegr. Roedd

ymrwymiad ac effeithiolrwydd eithriadol y Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru, Julie James, yn ôl pob sôn yn un o brif ysgogwyr y perfformiad cymharol gryf hwn yng Nghymru.

Ar yr un pryd, yn sicr roedd yna gamau gwag, gwendidau a bylchau yn ymateb Cymru i ddigartrefedd yn ystod y pandemig. Er bod awdurdodau lleol a darparwyr digartrefedd wedi gweithio'n gyflym yn wyneb heriau eithriadol, cydnabuwyd nad oedd pawb mewn angen yn cael llety bob amser, gyda rhestrau aros ar gyfer darpariaeth frys yn cael eu gweithredu mewn rhai mannau. Roedd yn ymddangos bod lefel yr anghenion cymorth a wynebwyd mewn rhai o'r lletyau brys hyn wedi bod yn sioc i rai awdurdodau, ac wedi achosi problemau rheoli dwys. Roedd digwyddiadau difrifol mewn rhai lleoliadau a oedd yn rhoi'r preswylwyr a'r staff eraill mewn perygl. Ar ben hynny, er i lawer o'r canllawiau gweithredol ar ddigartrefedd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod COVID-19 gael eu croesawu'n gynnes, cafodd y cyngor a gyhoeddwyd ar reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn lleoliadau ymgynnnull ei feirniadu'n hallt am nad oedd yn cynnig llawer o atebion newydd nac effeithiol.

Yn ystod y blynnyddoedd cyn pandemig COVID-19, gwelwyd lleoliadau llety dros dro ar gynnydd parhaus, gyda

chyfanswm y lleoliadau'n codi 24% rhwng 2016 a 2020. Mae cynnydd llawer mwy amlwg yn 2020/21 yn adlewyrchu rhaglen argyfwng COVID-19. Daeth i'r amlwg bod rhai awdurdodau lleol, yn gynnar yn yr argyfwng, yn defnyddio mathau annerbyniol o lety dros dro, megis 'podiau'. Mae pryder yn awr y gallai cyflymder y gwariant sy'n ofynnol o dan gyllid cyfalaf Cam 2 atal ymgynghori a chynllunio digonol. Mae pryderon penodol yn canolbwytio ar fuddsoddiadau a wneir mewn rhai modelau llety dros dro ar raddfa fawr, sy'n mynd yn groes i ymrwymiadau strategol i symud i ffwrdd oddi wrth y math hwn o ddarpariaeth (er, o leiaf mae 'podiau' a 'lle ar y llawr' yn cael eu diystyru). Y gobaith yw y gall y llety newydd hwn, yn y tymor hwy, gael ei 'newid' i ddibenion anghenion cyffredinol, ond cawn weld am hynny.

Gellir dadlau bod maint yr ymateb i'r pandemig oedd yn ofynnol yng Nghymru wedi amlygu gwendidau yn y 'setliad' digartrefedd cyn COVID-19, yn enwedig mewn perthynas â phobl sydd mewn perygl o gysgu allan, sef grŵp y cydnabyddir yn gyffredinol sydd wedi elwa leiaf o'r dyletswyddau atal a lliniaru arloesol a gyflwynwyd o dan Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014. Yma, efallai mai cyfeirio at Yr Alban yw'r ffordd orau o gymharu'r sefyllfa, lle mae diddymu'r maen prawf angen blaenoriaethol ddegawd yn ôl wedi arwain at dyletswyddau llety llawn yn ddyledus i bobl sengl ddigartref, a gostyngiad parhaus mewn lefelau cysgu ar y stryd, olygai y bu angen o ymyriadau brys mwy cymedrol yn ystod COVID-19.

Cyn COVID-19, roedd digartrefedd eisoes yn flaenoriaeth wleidyddol uchel yng Nghymru, fel sy'n cael ei adlewyrchu mewn tîm digartrefedd sydd wedi cael ei ehangu yn Llywodraeth Cymru. Roedd strategaeth genedlaethol a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2019 yn brin o fanylion ond yn gosod cyfeiriad blaengar yn seiliedig ar

egwyddorion atal cynnar ac Ailgartrefu Cyflym, sydd hefyd yn cynnwys Tai yn Gyntaf fel yr ymateb diofyn i leiafrif o bobl ddigartref sydd ag anghenion cymorth mwy dwys. Mae'r cynigion polisi manwl i roi sylwedd a siâp i'r egwyddorion hyn, a themâu allweddol eraill fel cynllunio'r gweithlu a dyletswyddau atal ehangach ar draws y sector cyhoeddus, bellach wedi cael eu cynnwys mewn tri adroddiad a gyhoeddwyd gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd annibynnol, yr oedd ei ail a'i brif adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020, yn cyd-daro â COVID-19.

Gyda holl gynigion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd wedi'u derbyn mewn egwyddor gan Lywodraeth ddiwethaf Cymru, ac wedi'u gwreiddio yn Rhaglen Lywodraethu'r weinyddiaeth bresennol, ac yn awr mewn Cynllun Gweithredu lefel uchel, mae'n ymddangos y bydd yr agenda uchelgeisiol hon o ddiwygio polisi a'r gyfraith yn sail i ymatebion digartrefedd Cymru dros y blynnyddoedd nesaf. Wedi dweud hynny, yr oedd rhywfaint o ansicrwydd yngylch agweddau Ailgartrefu Cyflym a Thai yn Gyntaf yr agenda hon yn amlwg yn ein gwaith mae, yn gysylltiedig â phryderon yngylch adnoddau a chyflenwad tai ond hefyd yngylch ymlyniad parhaus at fodelau darparu ar gyfer o leiaf rhai grwpiau digartref ymseg rhai awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.

Mae argymhelliaid allweddol arall gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yn ymwneud â dymchwel rhwystrau sy'n atal pobl ddigartref rhag cael gafaef ar dai a chymorth, gan gynnwys yr angen blaenoriaethol statudol, profion digartrefedd bwriadol a chysylltiad lleol. Ar ôl ei 'ohirio' drwy gydol argyfwng COVID-19 o ran pobl sy'n cysgu allan, ac adolygiad a ariennir gan Llywodraeth Cymru, mae'r momentwm ar gyfer diddymu'r maen prawf blaenoriaeth angen yn barhaol bellach yn ymddangos yn anorchfygol. Yn nodedig, roedd 15

o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru a holwyd eleni'n ffafrio dileu'r maen prawf angen blaenoriaethol, er bod y farn yn llawer mwy rhanedig o ran bwriadoldeb, er mai anaml iawn y caiff ei defnyddio'n ymarferol, ac roedd y cynggorau'n gwrthwynaebu dileu cyfyngiadau ar gysylltiadau lleol. Ar y pwnt olaf hwn, mae'n werth nodi bod hysbyswyr allweddol, er eu bod yn cydymdeimlo'n gyffredinol â dileu'r maen prawf ar gyfer cysylltiad lleol, yn cydnabod yr angen am ryw fath o fecanwaith aïddosbarthu i roi cysur i awdurdodau lleol dan sylw y gallent weld cynnydd net yn y galw am wasanaethau a thai cymdeithasol.

Yn ddiddorol, yn wahanol i Loegr, tueddai awdurdodau lleol Cymru i weld yr heriau presennol o ran cael gafaef ar dai cymdeithasol ar gyfer teuluoedd digartref fel rhai sy'n deillio o ddiffyg cyflenwad absoliwt, yn hytrach na pholisiau dyrannu gwahardol ar ran landlordiaid cymdeithasol. Mae'n ymddangos bod proffil cyfnewidiol yr ymgeiswyr digartref yn ystod y pandemig, gyda charfan gynyddol o bobl sengl na fyddent fel arfer yn gymwys i gael eu hailgartrefu, wedi gwaethygu'r cyfyngiad, sydd eisoes wedi hen ennill ei blwyf, ar dai un ystafell wely yn benodol. Mae hyn i gyd yn ymddangos yn gyson ag achos Llywodraeth Cymru dros roi blaenoriaeth uchel i hybu'r cyflenwad tai cymdeithasol, gyda tharged blynnyddol o 3,500 o dai fforddiadwy, gan gynnwys rhent cymdeithasol a rhent canolradd, ar gyfer pob un o'r pum mlynedd o 2019/20 ymlaen.

Ac eto, mae ein gwaith modelu dilyniannol yn dangos nad yw cynyddu'r cyflenwad tai cymdeithasol ar rent yn uwch na'r ymrwymiadau presennol, hyd yn oed pan gaiff ei dargedu'n ddaearyddol, yn cael llawer o effaith gadarnhaol ychwanegol ar leihau digartrefedd craidd, hyd yn oed yn y tymor hwy, unwaith y bydd polisiau effeithiol eraill eisoes ar waith. Yn hytrach, mae'r 'enillion' mwyaf fel petaent yn dod o Ailgartrefu

Cyflym, gyda chwotâu dyrannu tai cymdeithasol ar gyfer teuluoedd digartref; gan wneud y defnydd gorau posibl o atal gan gynnwys mwy o ddefnydd o renu preifat a chymorth ariannol/dyled; a chodi'r Lwfans Tai Lleol a'i fynegeio'n effeithiol. Byddai manteision ychwanegol mwy cymedrol yn cael eu gwireddu i'r eithaf yn sgil cyflwyno Tai yn Gyntaf yng Nghymru, perfformiad economaidd 'codi'r gwastad', a chynnydd mawr mewn cyfraddau Credyd Cynhwysol. Mae'n werth pwysleisio bod tri o'r chwe mesur hyn, gan gynnwys dau o'r rhai mwyaf dylanwadol, yn faterion polisi datganoledig yn eu hanfod. Gellid dadlau hefyd bod angen buddsoddi'n sylweddol mewn darpariaeth tai cymdeithasol newydd er mwyn annog awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i weithredu'r polisiau sy'n cael yr effaith fwyaf yn y dadansoddiad hwn, yn enwedig Ailgartrefu Cyflym gyda chwotâu dyrannu ar gyfer aelwydydd digartref, yn ogystal â newid y cymysgedd i ddiwallu'r anghenion hyn.

Ar adeg ysgrifennu hyn, mae pryderon yn canolbwytio ar y posibilrwydd o gynnnydd sydyn yn y mewnlif i ddigartrefedd wrth i ystod o fesurau diogelu sy'n benodol i COVID-19 ddod i ben. Wrth i'r mesurau goddefgarwch a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru gael eu llacio, ac wrth i lefelau ôl-ddyledion rhent gynyddu, efallai y gwelwn gynydd yn nifer y bobl sy'n cael eu troi allan yn ystod y misoedd nesaf, er y gallai cyfyngiadau ar gapasiti'r llys a'r beiïaid fod yn rhwystr i hyn. Ar lefel Llywodraeth y DU, mae dirwyn y cynllun ffyrlo cyflogaeth i ben, tynnu'r £20 o atodiad wythnosol yn ôl ar gyfer y rheini sy'n hawlio Credyd Cynhwysol, a rhewi'r Lwfans Tai Lleol yn y dyfodol ar ôl ei adfer dros dro i'r rhent 30ain canradd yn fygythiadau allweddol ar y gorwel. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod awdurdodau lleol Cymru wedi nodi bod gwelliannau i Daliadau Tai Dewisol a'r Gronfa Cymorth Dewisol, yn bwysicach fyth na'r mesurau mwy

strwythurol ond dros dro hyn i leihau digartrefedd yn eu hardaloedd yn ystod y pandemig.

Mae hyn oll wedi ei wreiddio mewn cyd-destun economaidd a thai ehangach yng Nghymru, ble, yn y degawd cyn i argyfwng COVID-19 daro, roedd y bwlch rhwng cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru a gweddill y DU wedi lleihau, ond roedd safonau byw yn cael eu gwasgu gan dwf cyflog gwan, diwygiadau nawdd cymdeithasol a thwf mathau o waith â chyflogau is ac ansafonol. Mae'r rhagolygon ar gyfer economi Cymru a'r farchnad lafur yn aneglur, ond mae'r pandemig wedi gwneud niwed difrifol i gyllid cyhoeddus. Gyda Llywodraeth y DU yn anelu at fantoli'r gyllideb erbyn 2025, ansicrwydd parhaus ynghylch disodli cyllid yr Undeb Ewropeaidd a'r cwmpas cyfyngedig i gynyddu refeniw o dreth incwm ddatganoledig, mae'n debygol y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i weithredu mewn amgylchedd o gyni. Mae angen edrych ar y pethau sy'n rhoi hwb i wariant sy'n benodol ar gyfer ddigartrefedd yn y cyd-destun ehangach hwnnw.

Bydd diweddariad nesaf Monitor Digartrefedd Cymru yn ein galluogi i olrhain gweithrediad parhaus rhaglen uchelgeisiol y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd o ran polisi a newid cyfreithiol, a datblygu'r gweithlu, ac wrth gwrs unrhyw effeithiau tymor hwy o ganlyniad i COVID-19 a newidiadau polisi ac ymarfer cysylltiedig, boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol. Byddwn yn dechrau asesu camau gweithredu swyddogol sy'n berthnasol i'r potensial i leihau digartrefedd a nodwyd yn ein dadansoddiad o'r amcanestyniadau.

## Llyfryddiaeth

Aston, J., Charlesworth, Z., Fell, B., Hick, R., Howarth, P., Jones, S., Macor, F., Tims, F. & Varney, C. (2020). *Understanding the Impact of Universal Credit on the Council Tax Reduction Scheme and Rent Arrears in Wales*. Adroddiad GSR rhif 47/2020. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://gov.wales/universal-credit-council-tax-reduction-scheme-and-rent-arrears-wales-final-report>

Ahmed, A. & Madoc-Jones, I. (2020) 'Homelessness Prevention Policy in an International Context: The Housing Act (Wales) 2014', *Social Policy and Society*, 19(1), 95-108. doi:10.1017/S147474641900037X

Ahmed, A., Wilding, M., Gibbons, A., Jones, K., Rogers, M. & Madoc-Jones, I. (2018). *Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-06/gwerthusiad-o-ddeddfwriaeth-digartrefedd-rhan-2-o-ddeddf-tai-cymru-2014-adroddiad-terfynol.pdf>

All-Party Parliamentary Group on Poverty (2021) *The Impact on Poverty of not Maintaining the £20 Uplift in Universal Credit and Working Tax Credits, and of not Extending the Uplift to Legacy and Related Benefits*. London: All-Party Parliamentary Group on Poverty. <http://www.appgpoverty.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/APPG-on-Poverty-20-uplift-report-FINAL.docx.pdf>

Bank of England (2019) *Monetary Policy Report - November 2019- Section 4: In Focus - Uncertainty and Brexit*. Ar-lein: Monetary Policy Committee, Bank of England. <https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-report/2019/november-2019/in-focus-uncertainty-and-brexit>

Baumberg, B., Scullion, L., Summers, K., Martin, P., Lawler, C., Edmiston, D., Gibbons, A., Ingold, J., Robertshaw D. & de Vries, R. (2021) *Non-take-up of Benefits at the Start of the COVID-19 Pandemic*. Salford: University of Salford, Welfare at a (Social) Distance Project. <https://www.distantwelfare.co.uk/take-up>

Baxter, D., Casey, R. & Earwaker, R. (2020) *Struggling Renters need a Lifeline this Winter: A briefing*. 16 Tachwedd Ar-lein: Sefydliad Joseph Rowntree <https://www.jrf.org.uk/report/struggling-renters-need-lifeline-winter>

Bevan Foundation (2020) *A Welsh Benefits System: How it can Help Solve Poverty*. Ar-lein: Bevan Foundation. <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2020/09/Welsh-Benefits-System-Final-Report-1.pdf>

Bevan Foundation (2020) *Transforming Wales: How Welsh Public Services and Benefits can Reduce Poverty and Inequality*. Ar-lein: Sefydliad Bevan. <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2020/10/Transforming-Wales-through-public-services-and-benefits-FINAL.pdf>

Bevan Foundation (2021) *Poverty in Wales: Ebrill 2021* Caerdydd: Sefydliad Bevan

- Blood, I., Copeman, I. & Finlay, S. (2016) *Supported Accommodation Review: The scale, Scope and Cost of the Supported Housing Sector*. Report of research carried out by Ipsos MORI, Imogen Blood & Associates, and Housing & Support Partnership for Department for Work and Pensions with Department for Communities and Local Government. DWP Research Report No. 927
- Bramley, G. (2017) *Homelessness Projections: Core Homelessness in Great Britain, Summary Report*. London: Crisis. [https://www.crisis.org.uk/media/237582/crisis\\_homelessness\\_projections\\_2017.pdf](https://www.crisis.org.uk/media/237582/crisis_homelessness_projections_2017.pdf)
- Bramley, G. (2018) *Housing Supply Requirements across Great Britain for Low Income Households and Homeless people. Research Report for Crisis and the National Housing Federation. Main Technical Report*. Edinburgh: Heriot-Watt University. <https://researchportal.hw.ac.uk/en/publications/housing-supply-requirements-across-great-britain-for-low-income-h>
- Bramley, G. (2019) *Housing Supply Requirements across Great Britain for Low Income Households and Homeless People: Research for Crisis and the National Housing Federation; Main Technical Report*. Edinburgh: Heriot-Watt University. <https://doi.org/10.17861/bramley.2019.04>
- Bramley, G. (2020) *Potential Destitution and Food Bank Demand Resulting from the Covid-19 Crisis in the UK: Rapid Research for Trussell Trust. Modelling Individual/Household-level Impacts and Eligibility for Mainstream Welfare Support. Final Report*. Ar-lein: Trussell Trust. <https://www.trusselltrust.org/wp-content/uploads/sites/2/2020/09/Heriot-Watt-technical-report-FINAL.pdf>
- Bramley, G. (2021) *Research on Core Homelessness and Homeless Projections: Technical Report on New Baseline Estimates and Scenario Projections for Scotland and Wales*. Edinburgh: Heriot-Watt University. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/wales/the-homelessness-monitor-wales-2021/>
- Bramley, G. with Leishman, C., Cosgrove, P. & Watkins, D. (2016) *What Would Make a Difference? Modelling Policy Scenarios for Tackling Poverty in the UK*. Edinburgh: Heriot-Watt. <https://pure.hw.ac.uk/ws/portalfiles/portal/10844984>
- Bramley, G. & Fitzpatrick, S. (2018) 'Homelessness in the UK: who is most at risk?', *Housing Studies*, 33:1, 96-116. DOI: 10.1080/02673037.2017.1344957
- Bramley, G. & Watkins, D. (2016) 'Housebuilding, demographic change and affordability as outcomes of local planning decisions: exploring interactions using a sub-regional model of housing markets in England', *Progress in Planning*, 104, 1-35
- Bramley, G., Fitzpatrick, S., & Sosenko, F. (2020). *Destitution in the UK 2020: Technical Report*. Edinburgh: Heriot-Watt University. <https://researchportal.hw.ac.uk/en/publications/destitution-in-the-uk-2020-technical-report>
- Bramley, G., Sosenko, F., & Fitzpatrick, S. (2018). *Destitution in the UK 2018: Technical Report*. Edinburgh: Heriot Watt University. <https://researchportal.hw.ac.uk/en/publications/destitution-in-the-uk-2018-technical-report>
- Brewer, M. and Patrick, R. (2021) *Pandemic Pressures: Why Families on a Low Income are Spending more during Covid-19*. London: Resolution Foundation. <https://www.resolutionfoundation.org/app/uploads/2021/01/Pandemic-pressures.pdf>
- Busch-Geertsema, V., Culhane, D., & Fitzpatrick, S. (2016) 'Developing a global framework for conceptualising and measuring homelessness', *Habitat International*, 55, 124–132.
